

# Gweithgareddau Cyffredinol a Dosbarthu Arian y Loteri



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales




Adroddiad a  
Datganiadau Ariannol  
am y flwyddyn a  
ddaeth i ben  
31 Mawrth 2022

Rhif elusen 1034245

Clawr: Krystal S Lowe *Ein Hanes Ni*;  
Artist dawns a symudiad Osian Meilir  
(Llun: Chris Nash)

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, hawdd ei ddarllen ac Arwydddeg. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg os gofynnir amdani.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.



# Cynnwys

|                          |   |
|--------------------------|---|
| Yr hyn a wnawn.....      | 2 |
| Rhagair y Cadeirydd..... | 6 |

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a Sylwadau Rheoli

|   |    |
|---|----|
| Y Prif Weithredwr Dros Dro, Michael Elliott, yn cyflwyno ei fyfyrnodau ar effaith y flwyddyn ddiwethaf..... | 11 |
| Ein strategaeth ar gyfer adfer ac adnewyddu .....   | 15 |
| Bydd i'r Cyhoedd .....  | 20 |
| Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.....   | 22 |
| Ein perfformiad .....   | 24 |
| Llywodraethu Corfforaethol  |    |
| Ein Hymddiriedolwyr .....   | 34 |
| Datganiad Llywodraethu.....   | 39 |
| Y Cyngor.....   | 48 |
| Cydraddoldebau.....   | 58 |
| Y Gymraeg.....  | 60 |
| Cenedlaethau'r Dyfodol .....  | 62 |
| Perfformiad amgylcheddol.....   | 64 |
| Y prif risgiau ac ansicrwydd.....   | 68 |
| Adolygiad ariannol a busnes.....  | 76 |
| Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff.....   | 84 |
| Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio (wedi'i archwilio).....   | 93 |
| Y flwyddyn i ddod: 2022/23 .....  | 95 |

## Datganiadau Ariannol

|                                  |     |
|----------------------------------|-----|
| Gweithgareddau Cyffredinol ..... | 109 |
| Dosbarthu Arian y Loteri .....   | 147 |

## Atodiadau (nad ydynt yn rhan o'r datganiadau ariannol)

|  |     |
|--|-----|
| Grantiau a ddyfarnwyd – Gweithgareddau Cyffredinol ..... | 174 |
| Cyfarwyddiadau polisi'r Loteri Genedlaethol .....        | 190 |
| Grantiau a ddyfarnwyd – Dosbarthu Arian y Loteri.....    | 192 |

Yr hyn a wnawn...

Cyngor Celfyddydau  
Cymru yw'r  
corff cyhoeddus  
swyddogol ar gyfer  
cyllido a datblygu'r  
celfyddydau yng  
Nghymru

Cafodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei sefydlu drwy Siarter Frenhinol ar 30 Mawrth 1994 a nod ei fodolaeth yw cefnogi a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru er budd pobl ledled Cymru, ac er mwyn cefnogi celfyddydau Cymru yn rhyngwladol.

Rydym hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn ddsbarthwr arian y Loteri Genedlaethol ac yn elusen gofrestrdig (rhif 1034245).

Mae ein **Siarter Frenhinol** yn disgrifio ein hamcanion sef:

- datblygu a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r celfyddydau a'u hymarfer;
- cynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd;
- gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg; a,
- gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, a Chynghorau Celfyddydau eraill yn y Deyrnas Unedig, i gyflawni'r amcanion hyn.

[Mae copi o'n Siarter Frenhinol ar gael ar ein gwefan.](#)



Yn ystod 2021/22 daeth amrywiolion newydd o'r feirws Covid-19 i'r amlwg. Cafwyd cyfyngiadau pellach ar symud yng Nghymru ac ail flwyddyn o effaith enfawr ar ein gwaith ac ar waith artistiaid a sefydliadau celfyddydol yng Nghymru. Buom yn parhau â'n gwaith hanfodol i gynorthwyo'r sector, gan ddsbarthu dau gylch arall o gyllid adfer sylweddol.

Ond daeth gweithgarwch celfyddydol yn ôl. Buom yn ariannu prosiectau newydd a chydweithredol, ac yn ail-ddychmygu rhai o brif feysydd ein gwaith, megis Biennale Fenis.

Gyda'r cyfyngiadau symud yn dod i ben ym mis Mawrth, rydym yn canolbwyntio ar sut olwg sydd ar y sector ôl-pandemig, a datblygu a buddsoddi mewn gweledigaeth hirdymor o'r celfyddydau yng Nghymru.

Drwy reoli a buddsoddi'r arian a gawn gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol mewn gweithgarwch creadigol, mae Cyngor y Celfyddydau'n cyfrannu at ansawdd bywyd pobl ac at lesiant diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Cymru.

Gwylwch ein hanimeiddiad byr sy'n esbonio [pam mae'r celfyddydau'n bwysig](#).

[www.celf.cymru](http://www.celf.cymru)



*Dim Byd Tha Chdi,  
Frân Wen a Ifan James*

# Rhagair y Cadeirydd



Efallai y byddwch yn synnu i ddarllen fy mod i, fel Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru, yn wirioneddol gyffrous am y datblygiadau presennol a'r posibiliadau ar gyfer y dyfodol ym maes y celfyddydau sydd wrth galon bywyd a chymdeithas Cymru.

Wedi'r cyfan, rydyn ni wedi bod yn byw trwy brofiad cataclysmig y pandemig Covid, ac mae artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn dal i ymdrin â'i effaith ar gynulleidfaoedd, ar eu creadigrwydd eu hunain a'u bywoliaeth. Ar ben hynny, datgelodd y pandemig yr anghydraddoldebau enbyd sy'n amharu ar ein bywydau a rennir fel dinasyddion, a'u gwaethygu. Nid yw heriau gwneud newid sylweddol mewn ymateb i'r dosbarthiad annheg hwn o ran mynediad a chymorth wedi'u hateb hyd yma – dim ond camau cyntaf y broses honno rydym wedi'u cymryd.

Yn sylfaenol i'r heriau a'r bygythiadau hyn mae'r argyfwng hinsawdd. Yn y celfyddydau, mae ymdeimlad o frys ar y mater dirfodol hwn wedi ein hysgogi i ailystyried y ffordd yr ydym yn gwneud y gwaith hanfodol o gyflwyno cyflawniadau creadigol Cymru yn rhyngwladol a chefnogi cydgynyrchiadau rhyngwladol. Ar lefel ddomestig, mae gan sector y celfyddydau a Chyngor y Celfyddydau ffordd bell i fynd o hyd o ran ymateb i faint yr her carbon.

Ac wrth gwrs, mae pwysau enbyd ar arian cyhoeddus y llywodraethau cenedlaethol a llywodraeth leol. Felly sut allaf yn onest deimlo fy mod i wedi fy mywiocáu a'm calonogi gan yr hyn sydd wedi digwydd a'r hyn sydd o'n blaenau?

Y rheswm cyntaf yw bod ymateb sector y celfyddydau a staff Cyngor Celfyddydau Cymru wedi bod yn ysbrydoliaeth wirioneddol yn ystod adegau gwaethaf y pandemig. Mae llawer o sefydliadau wedi cryfhau eu hymgysylltiad â'u cymunedau ac wedi bod yn ganolfannau cymorth. Bu artistiaid yn ymateb yn ddyfeisgar i anghenion ar-lein ac yn helpu llawer ohonom, a deimlai'n anniddig ac wedi'n hynysu gan y cyfyngiadau angenrheidiol ar symud, i ganfod llawenydd a chysylltiad trwy ymwneud â'r celfyddydau. Nid yw pwysigrwydd y celfyddydau erioed wedi bod yn fwy eglur.





Rydym yn rhannu'r ymdeimlad hwn o werth a phwysigrwydd gyda'n prif randdeiliaid, Llywodraeth Cymru. Mewn man arall yn yr adroddiad hwn, mae Mick Elliott yn tanlinellu cryfder y bartneriaeth gyda'r Llywodraeth yn y gwaith o gynnal y sector trwy ei chyllid Adferiad Diwylliannol – ac yn briodol mae'n cyfeirio at ein balchder yng nghyflawniadau ein staff ninnau wrth ddsbarthu'r cyllid hwnnw mewn ffordd mor ystwyth. Bydd y bartneriaeth hon yn hanfodol, mae'n amlwg, i ddyfodol lle bydd y celfyddydau'n cefnogi tri gwerth allweddol yng Nghymru: cymunedau cydlynus, gwella llesiant ein pobl ac ysgogi economi greadigol.

Gyda phartneriaethau mewn golwg, dylem fod yn falch o safle blaenllaw celfyddydau Cymru wrth weithio gydag asiantaethau ym meysydd iechyd, addysg a'r amgylchedd. Mae cyhoeddiad Sefydliad Baring am ei fuddsoddiad yn ein gwaith ym maes y celfyddydau ac iechyd meddwl yn ddatganiad nerthol bod y bartneriaeth rhwng Cyngor y Celfyddydau a Chyffederasiwn y GIG yng Nghymru yn fodel ar gyfer y DU yn gyfan.

Sarah Thornton, Dawns  
i Bawb (Llun: Phillip  
Hatcher-Moore ar gyfer  
y prosiect '11 Million  
Reasons to Dance' a  
gomisiynwyd gan People  
Dancing)



Calonogol iawn ar ddiwedd y flwyddyn oedd cael cadarnhad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn Llywodraeth Cymru y byddai ein rhaglen mewn ysgolion, Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, sydd wedi cael canmoliaeth ryngwladol, yn cael ei chefnogi am drydydd cyfnod. Roedd gwerth y rhaglen yn hynod amlwg yn ystod y pandemig a bydd yn un o'r prif gyfranwyr at y gwaith o weithredu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Ac mae ein partneriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'n deialog cynhyrchiol gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ill dau yn canolbwyntio ar bŵer y celfyddydau yn y gwaith o greu lleoedd ac o gyfoethogi ein profiad o ofodau a rennir a thirweddau eithriadol Cymru.

Mae'r holl gydweithrediadau hyn yn ffordd i'r celfyddydau gysylltu'n ehangach ac yn decach â chymunedau, talentau a photensial amrywiol pobl Cymru. Ond bydd heriau llym ac amserlenni pendant y cynlluniau gweithredu Ehangu Ymgysylltiad yr ydym wedi eu creu mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru yn ysgogi'r broses honno yn gryfach fyth.

O ran pobl sy'n amrywiol yn ethnig ac yn ddiwylliannol, pobl anabl, siaradwyr Cymraeg a phobl sy'n byw mewn ardaloedd o dlodi economaidd, beth bynnag fo eu hiaith, bydd ein hymrwymiad i fynediad cyfartal at brofiadau celfyddydol yn ganolog i'n gweithgarwch cyllido. Rydym wedi dechrau ar y daith hon a ysgogir gan gyfartaledd gyda rhaglenni fel Cysylltu a Ffynnu a Chamau Creadigol ond bydd ein Hadolygiad Buddsoddi sydd ar y gweill a'n ffocws strategol wrth ddsbarthu arian y Loteri Genedlaethol yn sbardunau mawr i ragor o newid y mae mawr ei angen.

Ni ddylid ystyried dim o hynny'n fygythiad. I'r gwrthwyneb yn llwyr. Mae'n creu posibiliadau cyffrous lle gall ynni creadigol a thorfol pobl Cymru gael ei fynegi mewn modd deinamig. Cymru decach, Cymru wirioneddol gyfoes, Cymru lle mae llawer mwy o'n dinasyddion, o bob oed a chefnidir, yn ymuno yn antur ddychmygus a thrawsnewidiol y celfyddydau.

Pam na fyddem ni'n teimlo'n gyffrous ynghylch hynny?



**Phil George**

**Cadeirydd**

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a Sylwadau Rheoli

# Y Prif Weithredwr Dros Dro, Michael Elliott, yn cyflwyno ei fyfyrddodau ar effaith y flwyddyn ddiwethaf



Pan ymunais â Chyngor Celfyddydau Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd yn amlwg imi ar unwaith pa mor hanfodol mae gweithredu gan Gyngor Celfyddydau Cymru wedi bod wrth gynorthwyo cynifer o artistiaid a sefydliadau celfyddydol i lywio effaith niweidiol y pandemig ar eu cynaliadwyedd a'u bywoliaeth. Roedd ei waith prydlon ac effeithiol o gyflwyno Cronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn ganolog i'w gyflawniadau yn ystod y flwyddyn ac i gynaliadwyedd sector y celfyddydau.

Yn nyddiau cynnar y pandemig, defnyddiodd y Cyngor gyfuniad o arian y Loteri a chyllid strategol i ddarparu cylchoedd ariannu Ymateb Brys a Sefydlogi. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bryd hynny na fyddai arian y Cyngor ei hun yn diwallu anghenion cynyddol a thaer y sector ac y byddai angen rhaglen gymorth genedlaethol.

Cafodd cylch cyntaf y Gronfa Adferiad Diwylliannol ei lansio ym mis Awst 2020, a daeth cyllid ychwanegol i'r sector gyda dau gylch arall yn y flwyddyn ariannol hon – Cronfa Adferiad Diwylliannol 2 ym mis Ebrill 2021 a Chronfa Adferiad Diwylliannol 3 ym mis Ionawr 2022 – gan ddarparu buddsoddiad ychwanegol yn sector y celfyddydau yng Nghymru o fwy na £31 miliwn dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf.

Bydd partneriaeth y Cyngor gyda Llywodraeth Cymru a'i swyddogion wrth greu a rheoli'r ymateb hwn i'r argyfwng yr oedd sector y celfyddydau yng Nghymru'n ei wynebu yn dod â buddion mawr yn y blynyddoedd i ddod, ar yr amod y gellir cynnal camau gweithredu targededig a pharhaus. Bydd yn cymryd misoedd, os nad blynyddoedd, i ailadeiladu ymgysylltiad â digwyddiadau celfyddydol, a mynychiad ynddynt, a dod o hyd i dalent a sgiliau allweddol newydd yn lle'r rhai a gollwyd yn ystod y pandemig, a hynny wedi'i gymhlethu gan bwysau economaidd cynyddol. Nid yw cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd

hirdymor a dod yn ystwyth wrth ymateb i amgylchiadau sy'n newid yn gyflym erioed wedi bod mor angenrheidiol i Gyngor y Celfyddydau a sector y celfyddydau.

Yn ogystal â'r cylchoedd eraill o gymorth argyfwng a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, parhaodd cymorth gan y Loteri i fod yn dda wrth i gyfran y Cyngor o'r derbyniadau fod yn fwy na £18 miliwn, yr un lefel ag yn 2020/21. Mae cynlluniau Cysylltu a Ffynnu a Chreu, a ariennir gan y Loteri, wedi darparu cymorth sylweddol i brosiectau yn y sector, ac mae rhai mentrau newydd beiddgar a chreadigol yn cael effaith erbyn hyn.

Mae Camau Creadigol wedi galluogi'r Cyngor i fwrw ymlaen i gynorthwyo prosiectau sydd wedi'u halinio â'i Gynllun Ehangu Ymgysylltiad a'i bartneriaeth ag Amgueddfa Cymru. Denodd rhaglen y Celfyddydau ac Iechyd gyllid ychwanegol a sefydlodd bartneriaethau newydd gyda Byrddau Iechyd, ac arweiniodd y bartneriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi gweithgarwch y maes y celfyddydau a'r amgylchedd at sefydlu swydd newydd i ddatblygu rhaglen genedlaethol.

Yn y cyfamser, er y bu cyfyngiadau ar deithiau rhyngwladol, ni chyfyngwyd ar waith rhyngwladol y Cyngor. Mae'r ffaith ei fod wedi mynychu llawer o ddigwyddiadau rhithwir, ac y sefydlwyd rhwydweithiau a pherthnasoedd newydd pwysig, yn dod â buddion sylweddol i ymgysylltiad rhyngwladol ym maes y celfyddydau yng Nghymru.



Aurora Trinity Collective,  
Enciliad Creadigol, rhan o'r  
bartneriaeth a ariennir gan  
y Loteri 'Cysylltu a Ffynnu',  
The Aurora Phenomenon.  
(Llun: Megan Murray-Read)

Rwyf yn edmygu cyflawniadau niferus y Cyngor yn fwy byth oherwydd y wybodaeth rwyf wedi ei chael am frwdfrydedd, proffesiynoldeb, arbenigedd a chyflymder gweithredu'r Cyngor a'i staff wrth gael cymorth i'r manau lle roedd yn cyfrif, ac yntau ar yr un pryd yn wynebu her sylweddol. Cafodd effaith ymddeoliad Nick Capaldi fel Prif Weithredwr hirsefydlog a hynod effeithiol Cyngor y Celfyddydau ym mis Medi 2021 ac, ar yr un pryd, ymddeoliad oherwydd afiechyd ei ddarpar olynnydd, Siân Tomos, a oedd yn uchel ei pharch, ei themlo'n arw iawn.

Roedd Phil George, Cadeirydd y Cyngor, a'r tri aelod o'r uwch tîm arwain oedd ar ôl – Rebecca Nelson, Diane Hebb a Richard Nicholls – yn llwyddiannus iawn wrth ysgwyddo'r her ychwanegol sylweddol a greodd hyn ar adeg dyngedfennol i'r sector a'r genedl. Felly roedd yn ffrainc cael fy ngwahodd i ymuno â'r tîm arbennig hwn ym mis Mawrth 2022 fel Prif Weithredwr Dros Dro i helpu i ddarparu sefydlogrwydd, cymorth a chyfeiriad ychwanegol hyd nes i Brif Weithredwr parhaol newydd gael ei benodi a gallu ymgymryd â'r swydd.

Er gwaethaf y newidiadau hyn ymysg yr arweinwyr, roedd y Cyngor yn hyderus wrth ddechrau paratoi ei Gynllun Strategol nesaf sydd i gael ei weithredu o 1 Ebrill 2023 ymlaen a dechreuodd ar ei Adolygiad Buddsoddi ar gyfer y cyfnod ar ôl 1 Ebrill 2024. Bydd y ddau'n hanfodol i waith y Cyngor dros y blynyddoedd sydd ar ôl o'r degawd a'i gyfraniad at adferiad, trawsnewidiad a chynaliadwyedd sector y celfyddydau. Mae gan y Cyngor benderfyniad diysgog i sicrhau y bydd y celfyddydau'n ffynnu unwaith eto ac i fwrw ymlaen â'i waith ymgysylltu a chyd-greu gyda chymunedau a phobl amrywiol Cymru wrth ddilyn saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



**Michael Elliott**

**Prif Weithredwr Dros Dro**

Gwneud y celfyddydau'n  
ganolog i fywyd a llesiant  
y genedl

Ein cenhadaeth a'n  
blaenoriaethau



# Ein strategaeth ar gyfer adfer ac adnewyddu

## Yr egwyddorion sy'n ysgogi ein gwaith

Ein gweledigaeth yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau'n ganolog i fywyd a llesiant y genedl.

Ein nod yw ailadeiladu Cymru greadigol lle caiff ein talentau gorau eu datgelu, eu meithrin a'u rhannu; gwlad lle caiff y trawstoriad ehangaf posibl o bobl Cymru eu galluogi i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau; gwlad lle mae gwaith rhagorol yn cael ei werthfawrogi, ei ddiogelu a'i gynorthwyo i dyfu. Disgrifir hyn yn fanylach yn ein cynllun corfforaethol – Er Budd Pawb.

Mae dwy flaenoriaeth yn sail i'r strategaeth hon, sef:

1. Hybu Cydraddoldebau fel y sylfaen i ymrwymiad clir i ymgynraedd yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru.
2. Cryfhau Gallu a Gwytnwch y sector, gan ei gwneud yn bosibl i dalent greadigol ffynnu

Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi cam gweithredu arall i gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r ddwy flaenoriaeth hyn:

3. Ei gwneud yn bosibl i Gyngor y Celfyddydau weithio'n fwy effeithiol, gan gydweithredu mewn modd mwy dychmygus â phartneriaid o'r un anian ledled Cymru

## Ymateb i Covid-19

Roedd 2021/22 yn flwyddyn heriol ac anrhagweladwy arall, gyda chyfyngiadau symud yn cael eu gosod ar bobl Cymru, eu llacio, a'u gosod eto drachefn. Gwelsom bobl yn dychwelyd at y celfyddydau, er nad i'r lefel cyn y pandemig, a gwelsom bwysau penodol ar leoliadau celfyddydol gan i niferoedd cynulleidfaoedd fethu â dychwelyd. Gwnaethom barhau i eirioli dros yr angen am gyllid argyfwng ar raddfa fawr i'r sector gyda'r Llywodraeth. Roedd cylchoedd ariannu 2 a 3 y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn hollbwysig i oroesiad ariannol llawer.

Mae'r pandemig Covid 19 wedi newid y ffordd rydym i gyd yn byw, ein hagweddau a'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'r celfyddydau, diwylliant a chreadigrwydd. Yn y bôn, mae'r celfyddydau'n brofiad cymdeithasol yn ogystal â diwylliannol. Wrth inni ddod allan o'r pandemig, bydd cynulleidfaoedd a chyfranogwyr yn awchu am yr agweddau cymdeithasol ac ymgysylltiol ar y celfyddydau a diwylliant yn fwy nag arfer. Wrth iddynt wneud hynny, maen nhw'n debyg o gymryd mwy o ddi-ddordeb yn y ffordd mae'r celfyddydau'n cysylltu â nhw fel unigolion a chymunedau. Bydd ein gwaith cyllido'n adlewyrchu'r hyn sy'n berthnasol ac yn gyflawnadwy o gofio anghenion ac amgylchiadau.

Celfyddydau Cenedlaethol  
Teuencid Cymru  
(Llun: Jamie Chapman)



## Llywodraeth Cymru

Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru'n gosod y cyd-destun cyffredinol i'n gwaith. Nodir yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl oddi wrthym yn y Llythyr Cylch Gwaith blynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

### 1. Unedig a Chysylltiedig

“Ein nod yw meithrin cenedl lle y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn eu hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, ac yn ein lle yn y byd.”

### 2. Uchelgeisiol ac yn Dysgu

“Ein nod yw creu'r awydd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau.”

### 3. Ffyniannus a Diogel

“Ein nod yw creu economi yng Nghymru sy'n cynnig cyfleoedd i bawb ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant i unigolion ac i'n cenedl.”

### 4. Iach ac Egniol

“Ein nod yw gwella iechyd a lles yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau... ac i newid ein ffordd o weithio, gan newid y pwyslais o drin cyflyrau i atal cyflyrau.”

O ganlyniad i etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, bu oedi cyn cyhoeddi ein Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2021/22. Sefydlwyd Llywodraeth newydd yng Nghymru ac yn y broses ddilynol o ad-drefnu'r Cabinet, penodwyd Dawn Bowden AoS yn Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon. Lluniwyd Rhaglen Lywodraethu newydd ar gyfer tymor 5-mllynedd y Llywodraeth.



A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn gweithredu o fewn rhwydwaith cymhleth o bolisiau, strategaethau a deddfwriaeth cyhoeddus. Y pwysicaf o'r rhain yw deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae llesiant a chynaliadwyedd yn sylfaenol i'n gwaith. Mae ein gweithgareddau'n rhoi sylw i bob un o'r saith nod llesiant:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Rydym hefyd yn mabwysiadu, wrth gynllunio ac wrth gyflawni ein gwaith, "pum ffordd o weithio" y deddfwriaeth: **Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys.**

2021/22

**8,976**

o ddigwyddiadau  
celfyddydol a  
gynhaliwyd gan  
ein portffolio  
o sefydliadau  
a ariannwn,  
gan gynhyrchu

**1,961,888**

o fynychiadau

2021/22

**38,981**

o sesiynau  
cyfranogol a  
gynhaliwyd gan  
ein portffolio  
o sefydliadau  
a ariannwn,  
gan arwain at

**383,695\***

o fynychiadau

2021/22

**3,142**

o sesiynau  
cyfranogol a  
gynhaliwyd gan  
ein portffolio  
o sefydliadau  
a ariannwn yn  
Gymraeg, gan  
arwain at

**75,316\***

o fynychiadau

2021/22

**7,415**

o sesiynau  
cyfranogol a  
gynhaliwyd gan  
ein portffolio o  
sefydliadau a  
ariannwn oedd  
wedi'u targedu  
at bobl yn y grŵp  
nodweddion  
gwarchoddedig

2020/21

**2,196**

o ddigwyddiadau  
celfyddydol a  
gynhaliwyd gan  
ein portffolio  
o sefydliadau  
a ariannwn,  
gan gynhyrchu

**857,233**

o fynychiadau

2020/21

**33,297**

o sesiynau  
cyfranogol a  
gynhaliwyd gan  
ein portffolio  
o sefydliadau  
a ariannwn,  
gan arwain at

**952,483\***

o fynychiadau

2020/21

**3,617**

o sesiynau  
cyfranogol a  
gynhaliwyd gan  
ein portffolio  
o sefydliadau  
a ariannwn yn  
Gymraeg, gan  
arwain at

**104,382\***

o fynychiadau

2020/21

**7,276**

o sesiynau  
cyfranogol a  
gynhaliwyd gan  
ein portffolio o  
sefydliadau a  
ariannwn oedd  
wedi'u targedu  
at bobl yn y grŵp  
nodweddion  
gwarchoddedig

\* Cynhaliwyd llawer o'r sesiynau cyfranogol ar lein yn ystod y cyfyngiadau symud yn 2020/21 gan ddenu mwy o gyfranogwyr na'r sesiynau a drefnwyd mewn lleoliadau yn ystod 6 mis cyntaf 2021/22.

# Bydd i'r Cyhoedd

## Gwneud y celfyddydau'n ganolog i fywyd a llesiant y genedl

Wrth bennu ein hamcanion a chynllunio ein gwaith, mae aelodau'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ddifrifol i ganllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd i'r cyhoedd. Mae budd i'r cyhoedd yn ganolog i bob agwedd ar ein gwaith. Caiff yr ymrwymiad hwn ei gryfhau gan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn dyrannu arian y trethdalwr er budd i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae gan yr arian a ddosbarthwn nifer o ddibenion cyhoeddus:

- mae'n helpu i sicrhau y gall cynulleidfaoedd yng Nghymru fwynhau a chymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol o ansawdd da
- mae'n ei gwneud yn bosibl buddsoddi mewn comisiynu, cynhyrchu ac arddangos y celfyddydau, gan helpu i gynnal gyrfaedd gweithwyr creadigol proffesiynol yng Nghymru
- mae'n gwneud y celfyddydau'n fwy fforddiadwy, gan ddod â nhw o fewn cyrraedd mwy o bobl
- mae'n hybu arloesi a chymryd risgiau, gan wella ansawdd ac amrywiaeth y celfyddydau sy'n cael eu creu a'u hyrwyddo yng Nghymru
- mae'n hyrwyddo blaenoriaethau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd y Rhaglen Lywodraethu

Mae arian cyhoeddus hefyd yn helpu i fynd i'r afael â 'bylchau' yn y farchnad drwy fuddsoddi yn y gweithgareddau hynny na wnaiff, neu na all, y sector masnachol eu cefnogi. Ym mhob achos, bwriedir i'r arian a roddwn hybu'r gorau o'r celfyddydau a galluogi cynifer o bobl ag sy'n bosibl i fwynhau a chymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.

Rydym yn gwneud gwaith ymchwil manwl bob blwyddyn i asesu i ba raddau yr ydym yn cyflawni'r nodau hyn. Yn y tudalennau canlynol, rydym yn nodi prif uchafbwyntiau ein gwaith yn ystod 2021/22 a'r budd i'r cyhoedd mae'r gweithgareddau hyn yn ei sicrhau.

**1,587**

o geisiadau am gyllid  
a broseswyd

(2020/21: 1,705)

**330**

o ysgolion a  
gymerodd ran yn  
y rhaglen **Dysgu  
Creadigol** drwy'r  
Celfyddydau

**85**

o ysgolion a  
gymerodd ran ym  
mlwyddyn 2 eu  
prosiectau **Cynllun  
Ysgolion Creadigol  
Arweiniol**

Mwy na

**450**

o athrawon a  
gymerodd ran yn  
y rhaglen **Dysgu  
Creadigol**

Mwy na

**20,500**

o ddysgwyr a  
gymerodd ran yn  
y rhaglen **Dysgu  
Creadigol**

**108**

o berfformiadau  
a gefnogwyd gan  
gynllun **Noson Allan  
Cyngor y Celfyddydau**

(2020/21: 0\*)

**5.6%**

o gostau rhedeg  
Cyngor y Celfyddydau  
fel cyfran o'i holl  
incwm (y Cyngor  
cyfan)

(2020/21: 4.7%)

Cadwasom achrediad  
**y Ddraig Werdd  
Lefel 5** sef y categori  
uchaf o berfformiad  
amgylcheddol

**853**

o fenthyciadau'r  
**Cynllun Casglu** i  
gynorthwyo â phrynu  
celfyddyd gyfoes

(2020/21: 478)

\* Golygodd y cyfyngiadau symud o ganlyniad i ddyfodiad Covid-19 fod yr holl ddigwyddiadau Noson Allan ar gyfer 2020/21 wedi cael eu canslo ac na chafodd bwciadau ar gyfer y dyfodol eu derbyn. Talwyd ffioedd canslo i berfformwyr ar gyfer y 105 o ddigwyddiadau oedd wedi'u bwcio eisoes drwy'r cynllun pan ddechreuodd y cyfyngiadau symud.

# Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

Mae Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: cynllun gweithredu ar gyfer Cymru 2015-2020, wedi gwednewid profiadau dysgu disgyblion ledled Cymru ers 2015. Drwy wneud y celfyddydau a chreadigrwydd yn ganolog i addysg, mae'r rhaglen arloesol hon wedi cynorthwyo ysgolion i ddatblygu ymagweddau newydd at gynllunio'r cwricwlwm. Mae hefyd wedi cynorthwyo athrawon i ymchwilio i ymagweddau arloesol at addysgu ac wedi cynorthwyo disgyblion i dyfu fel dysgwyr creadigol annibynnol sy'n fwy ymgysylltiedig, yn fwy hyderus ac yn cyflawni mwy.

Ym mis Chwefror 2020, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, roedd Cyngor Celfyddydau Cymru'n falch i gyhoeddi ail gam i'r rhaglen. Yn yr ail gam hwn roeddem yn canolbwyntio ar barhau i gynorthwyo ysgolion ar y daith at ddatblygu a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi parhau i fod yn ganolog i gyflawni'r rhaglen, gan ddarparu cyfleoedd i fwy o ysgolion, disgyblion ac athrawon brofi'r ymagwedd weddnewidiol hon at ddysgu ac addysgu.

Mae'r cam hwn wedi'i fwriadu i:

- gynorthwyo mwy o ysgolion i ddatblygu ymagweddau creadigol at ddysgu ac addysgu, gan adeiladu ar wybodaeth ac arbenigedd yr ysgolion sydd eisoes yn cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol
- darparu cyfleoedd Dysgu Proffesiynol Parhaus i athrawon ac artistiaid
- cynorthwyo ysgolion i ymchwilio i ymagweddau creadigol at ddatblygu a chynllunio'r cwricwlwm
- cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu sgiliau creadigol ein dysgwyr
- parhau i ehangu cyfleoedd i ddysgwyr gael profiadau celfyddydol a diwylliannol o ansawdd da drwy gynllun **Ewch i Weld**



## Gwaith allweddol yn 2021/22

- 330 o ysgolion wedi ymgysylltu ag ail gam y rhaglen
- Mwy na 20,500 o ddysgwyr wedi ymgysylltu â gweithgareddau Dysgu Creadigol
- Mwy na 450 o athrawon wedi ymgysylltu â'r rhaglen
- Mwy na 500 o weithwyr creadigol proffesiynol wedi ymgysylltu â'r rhaglen
- Cymerodd 34 o ysgolion rhan mewn fersiwn ar-lein o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud
- Dyfarnwyd 58 o grantiau Ewch i Weld ers ail-agor y cynllun ym mis Hydref 2021, er budd mwy na 4,500 o ddysgwyr
- 42 o grantiau Ewch i Greu wedi cynorthwyo mwy na 2,000 o ddysgwyr
- 133 o grantiau'r Gronfa Adferiad Dysgu Creadigol wedi cynorthwyo mwy na 6,000 o ddysgwyr i ddechrau i'r ysgol
- 85 o ysgolion yn cymryd rhan yn ail flwyddyn/ym mlwyddyn 2 eu prosiectau Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a lanswyd ym mis Medi 2020
- 19 o ysgolion uwchradd wedi cymryd rhan yng nghynllun Cynnig Gwell i Ysgolion Uwchradd er mwyn eu cynorthwyo i archwilio, datblygu a gwreiddio ymhellach eu dealltwriaeth o ddysgu creadigol ar y cyd yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad ac archwilio sut i gynllunio a darparu'r cwricwlwm wrth ymbaratoi at y Cwricwlwm i Gymru.
- Mae 4 ysgol, mwy na 1,200 o ddysgwyr a 22 o ymarferwyr creadigol wedi cymryd rhan ym mhrosiect Cynefin, yn archwilio amrywiaeth yng Nghymru, yn y gorffennol ac yn y presennol
- ynghyd â'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru, buom yn gweithio/gweithiasom gyda chohort o 10 uwch arweinydd o ledled Cymru
- mwy na 800 o athrawon ac ymarferwyr creadigol wedi mynychu sesiynau hyfforddiant Dysgu Creadigol


# Ein perfformiad

## Blwyddyn o berfformiad cryf yn erbyn ein hamcanion corfforaethol

Ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2021/22 a roddodd y ffocws ar gyfer ein gwaith. Roedd ynddo 37 o dasgau allweddol, pob un a'i thargedau ei hun, ar draws 7 maes gweithgaredd strategol. Cafodd cynnydd ei fonitro gydol y flwyddyn drwy adroddiadau cynnydd chwarterol a gyflwynwyd i'r Cyngor. Buom hefyd yn cyfarfod pob chwarter â swyddogion Llywodraeth Cymru.

Llwyddasom i gyflawni yn erbyn pob un o'r 7 maes strategol a mwy na 75% o'n tasgau. Ar ddiwedd y flwyddyn:

- roedd 29 o dasgau wedi'u cwblhau'n llwyddiannus
- cafwyd cynnydd mewn 8 tasg



Drwy gydol 2021/22, roedd ymateb i effaith Covid-19 yn dal i fynnu cryn dipyn o sylw a gweithgarwch gennym. Cynigiasom gymorth parhaus i'r Sector er mwyn diogelu gweithgarwch creadigol i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr.

Gohiriwyd ein Hadolygiad Buddsoddi er mwyn caniatáu mwy o amser i sefydliadau ymadfer a datblygu o'r effaith a'r cyfyngiadau a osodwyd oherwydd y pandemig. Bydd gweithgarwch yr Adolygiad Buddsoddi'n ail-ddechrau yn 2022/23.



Ar yr un pryd, roedd angen inni sicrhau ein bod yn addasu ein sefydliad ni mewn ymateb i'r pandemig ac i gefnogi ein staff. Roedd heriau adnoddau corfforol yn gefndir i hyn, gan nad oedd gennym Brif Weithredwr na Chyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau am ran sylweddol o'r flwyddyn.

Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru a gafodd groeso mawr ar ddiwedd mis Rhagfyr 2021, am gynnydd 1.5% mewn cyllid ar gyfer 2022/23, a phenodiadau llwyddiannus i swyddi Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau a Phrif Weithredwr Dros Dro, roedd ein sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, o'i chymharu â'r targedau yn ein Cynllun Gweithredu 2021/22 fel a ganlyn.

**Gwnaethom amddiffyn cynaliadwyedd y Sector, sefydliadau celfyddydol ac artistiaid unigol, gan gynyddu ein cymorth i helpu'r broses ymadfer ar ôl y pandemig Covid-19**

- mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, darparasom gyllid refeniw ychwanegol gwerth £4 miliwn trwy ein Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol, ar gyfer trydydd cylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol
- rhoesom gyllid sylweddol i sefydliadau ac unigolion trwy ein rhaglenni Loteri newydd – Cysylltu a Ffynnu a Chreu – ochr yn ochr â Chamau Creadigol a buddsoddiad cyfalaf, a'n rhaglen dreigl o grantiau bach a mawr
- bu cynnydd yn ein hymgysylltu â'n Cydweithwyr Celfyddydol, gan eu cynnwys mewn asesiadau grant er mwyn sicrhau bod penderfyniadau gwybodus yn cael eu gwneud gan leisiau nas clywyd o'r blaen, ar sail eu profiadau byw amrywiol



Rhosesom nifer o weithgareddau ar waith er mwyn ehangu ein hymgysylltiad â chymunedau a'r unigolion maen nhw'n eu gwasanaethu. Gweithiasom i ddileu rhwystrau i ymgysylltu â'r celfyddydau a chyfranogi ynddynt:

- mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, cyhoeddasom Adroddiadau a gomisiynwyd ar gyfer ymchwil benodol i ymgysylltiad cymunedol, i gynnwys ffactorau cymdeithasol ac economaidd a ffactorau'n ymwneud ag anabledd ac ethnigrwydd, a'r Cyd-gynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad dilynol.
- penodasom Asiant er Newid er mwyn helpu i symud ymlaen â'n Hagenda Cydraddoldebau, ac yn fwy diweddar, penodasom Gynorthwydd i'r Asiant er Newid fel rhan o'r rhaglen Kickstart
- trwy ein rhaglenni Loteri Genedlaethol, cynyddodd ein ffocws ar gydraddoldebau, gan bwysleisio pwysigrwydd hyrwyddo cynigion cydweithredol rhwng unigolion a sefydliadau creadigol a fydd yn helpu i gyrraedd yn ehangach ac yn ddyfnach i gymunedau
- caewyd ein cynllun Noson Allan am y rhan fwyaf o'r flwyddyn oherwydd Covid-19. Ailagorodd yn raddol i dderbyn bwciadau gan hyrwyddwyr cymunedol a bu'n llywio a galluogi'r broses o ailgyflwyno digwyddiadau tra'n helpu hyrwyddwyr i gydymffurfio â rheoliadau Covid-19 Llywodraeth Cymru. Cafodd 108 o ddigwyddiadau eu bwcio trwy'r cynllun yn 2021/22, 35 ohonynt mewn ardaloedd a elwid gynt yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf

**Aethom ymlaen â'n hymrwymiad i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y celfyddydau, a chyflwyno nifer o fentrau newydd. Rydym wedi:**

- penodi Ysgogwr y Gymraeg i fwrw ymlaen â'n gwaith i hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y celfyddydau. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu Strategaeth Gymraeg newydd, a gaiff ei chwblhau a'i chyhoeddi yn 2022
- datblygasom broses asesu Cymraeg newydd ar gyfer yr holl swyddi newydd a swyddi gwag gyda Chyngor y Celfyddydau
- cynigiasom gyfleoedd yn ystod oriau gwaith i gyflogeion gael hyfforddiant yn y Gymraeg
- gwnaethom fwrw ymlaen â'r argymhellion yn ein hymateb cyhoeddedig i Adroddiad Mapio'r Gymraeg
- datblygasom bartneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- lansiasom ein pecyn Hyrwyddo Dwyieithrwydd er mwyn annog sefydliadau yn sector y celfyddydau i ystyried sut y gallant roi hwb i'w gweithgarwch yn Gymraeg, ac i roi cyngor ar sut i gyflawni hyn
- cynyddasom y pwyslais ar ystyriaeth o'r Gymraeg yn ein cynigion prosiect mewn ceisiadau grant



### Aethom ymlaen ag ail gam Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau:

- yn ystod y flwyddyn academaidd, aeth 85 o Ysgolion Creadigol Arweiniol ymlaen â'u prosiectau blwyddyn 2. Mae'r ysgolion bellach wedi cyrraedd eu cam gwerthuso. Mae'r prosiectau hyn wedi cynnwys mwy na 2,500 o ddysgwyr ac wedi creu cyfleoedd i 180 o Ymarferwyr Creadigol weithio yn ein hysgolion
- aethom ymlaen â'n cynllun a lansiwyd yn ddiweddar, sef Cynefin: Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Cymru. Daeth cohortau cyntaf y prosiectau i ben gydag athrawon o 24 o ysgolion, 708 o ddysgwyr a 22 o Ymarferwyr Creadigol yn archwilio Cymru fel cymdeithas amlddiwylliannol
- lansasom y Gronfa Adfer Dysgu Creadigol. Lluniwyd y gronfa i gynorthwyo ysgolion i ailfywiogi, ailddychmygu ac ailymgysylltu dysgwyr â'u dysgu. Mae mwy na 5,900 o ddysgwyr o 133 o ysgolion wedi gweithio gyda 148 o athrawon a gweithwyr creadigol proffesiynol i ailgysylltu â'u hystafelloedd dosbarth
- lansasom y Gronfa Ewch i Greu i ysgolion er mwyn dod ag ymarferwyr creadigol i ysgolion i gynnig profiadau creadigol byrion yn canolbwyntio ar ymgysylltu a llesiant, yn unol â nodau adfer dysgu. Dyfarnwyd 59 o grantiau Ewch i Greu gennym, yn ogystal â 94 o grantiau Ewch i Weld
- rydym wedi sicrhau parhad y rhaglen Dysgu Creadigol, gydag estyniad o 3 blynedd hyd fis Mawrth 2025

## Gwnaethom barhau i fwrw ymlaen â'n Rhaglen ar y Celfyddydau ac Iechyd:

- aethom ymlaen â'n rhaglen Meithrin Gallu sy'n cefnogi swydd cydgysylltydd celfyddydol arbenigol ym mhob Bwrdd Iechyd. Symudodd 2 o'r 7 Bwrdd Iechyd o dderbyn ein cyllid 3 blynedd gan edrych ar gynnal y swyddi trwy arian craidd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)/arian elusennol. Comisiynir gwerthusiad annibynnol o'r swyddi hyn yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf
- cynaliasom gyfarfodydd partneriaeth rheolaidd â Chydffederasiwn GIG Cymru, gan gynnwys cyfranogi ar banel arbennig i Gymru yn y Gynhadledd Diwylliant, Iechyd a Lles Ryngwladol ym mis Mehefin 2021. Daeth 500 o bobl o 30 o wledydd i'r gynhadledd, ac roedd llawer o ddiddordeb yn nhrefnadaeth y panel o Gymru
- mae'r rhaglen ariannu Iechyd, Celfyddydau, Ymchwil a Phobl (HARP) ar fin dod i ben. Byddwn wedyn yn cyhoeddi ymagwedd at/canllaw ar gyfer datblygu arloesi ym maes y Celfyddydau ac Iechyd, ynghyd â chyfres o argymhellion
- lansiasom ein cronfa Loteri Genedlaethol ar gyfer y Celfyddydau, Iechyd a Lles ym mis Ebrill 2021. Dros ddau gylch, dyfarnasom fwy na £48,000 i 16 o brosiectau partneriaethol, gyda nifer o'r prosiectau'n cael sylw ar y cyfryngau
  - › Prosiect canu ac anadlu Opera Cenedlaethol Cymru gyda gwasanaethau adsefydlu Bwrdd Iechyd, i gefnogi pobl sy'n ymadfer o 'Covid hir', a ddefnyddir fel esiampl gan Lywodraeth Cymru
  - › Prosiect partneriaethol Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru Moving Beyond Compliance/ Symud tu hwnt i Gydymffurfiaeth gydag elusen Cartrefi Cymru, yn archwilio sut y gall symud fod o fudd i staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal
  - › Prosiect Ysbyty Brenhinol Pobl Lle Dyfodol Caerdydd a'r Fro
- lansiasom Cultural Cwtch, gwefan o adnoddau creadigol i gefnogi llesiant staff y GIG a gofal cymdeithasol drwy gydol cyfnod y pandemig a'r tu hwnt. Hyd yma, comisiynwyd mwy na 30 o artistiaid a gwneuthurwyr ffilmiau i greu cynnwys fideo deniadol
- lansiasom Celf a'r Meddwl/Arts & Minds, partneriaeth newydd gyda Sefydliad Baring i gynorthwyo a datblygu gwaith ym maes y celfyddydau ac iechyd meddwl ar raddfa genedlaethol. Mae'r Sefydliad wedi ymrwymo i roi £100,000 y flwyddyn am dair blynedd o 2021/22 i 2023/24 a byddwn yn rhoi arian cyfatebol. Yn y flwyddyn gyntaf hon, rhoddwyd £28,600 yr un i'r 7 Bwrdd Iechyd i ddatblygu ymyriadau creadigol er mwyn cynorthwyo iechyd meddwl pobl

## Cyflawnasom raglen helaeth o weithgarwch rhyngwladol – Bro a Byd – nodau llesiant lleol a byd-eang:

- diwygiasom ac ail-lansio ein Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol a gafodd ei hatal dros dro oherwydd Covid-19
- cwblhaom y rhaglen Watch Africa Cymru yng Nghymru, gan archwilio mewn cymunedau rhyngwladol. Mae trafodaethau ar gyfer ail brosiect ar y gweill
- lansiodd y bartneriaeth lwyddiannus gyda Chelfyddydau Anabledd Cymru ei hymgyrch ryngwladol Dewch â'n Hawliau Creadigol: Maniffesto Diwylliannol a Rhyngwladol Pobl Anabl ar Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anableddau
- buom yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i ddatblygu gweithgarwch rhyngwladol, gan gynnwys cymorth i ddigwyddiad Fringe Cymru ar ddiwrnod olaf Cynhadledd y Cenedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd 2021 (COP26)
- cynaliasom ddigwyddiad digidol gyda Creative Carbon Scotland a Theatre Forum Ireland lle bu siaradwyr gwadd rhyngwladol yn canolbwyntio ar deithio a dosbarthu'r celfyddydau a'r argyfwng hinsawdd. Roedd hwn yn rhan o raglen Wythnos Hinsawdd Cymru Llywodraeth Cymru.
- roedd ein hymgyrch #pethaubychain ar y cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar
  - › 'Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang'
  - › yr argyfwng hinsawdd
  - › 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', gan ganolbwyntio'n benodol ar y Gymraeg a'i pherthynas ag ieithoedd eraill
  - › Iwerddon, gyda'r curadur gwadd Fearghus Ó Conchúir





- comisiynasom waith i ddatblygu fframwaith gwerthuso a fydd yn mesur effaith gwaith rhyngwladol yng nghyd-destun nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gellir ystywto'r fframwaith wedyn a'i gymhwyso i feysydd gweithgarwch eraill ar draws y Cyngor Celfyddydau
- gwnaethom fwrw ymlaen â Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gweithgarwch gydag Iwerddon, yr Almaen, Japan a Canada
- trefnasom gyflwyniad hybrid o Gymru yn nigwyddiad Showcase Scotland 2022. Bu pedwar o'r chwe artist yn perfformio i gynulleidfaoedd byw yn Glasgow, ond buont hefyd yn elwa o gyflwyno asedau digidol i gynulleidfaoedd byd-eang. O ganlyniad i bartneriaeth gan y cyfryngau rhwng darlledwyr yng Nghymru a'r Alban ar gyfer Showcase Scotland 2022, crëwyd rhaglenni dynodedig ar gyfer S4C, BBC Cymru Wales, BBC Radio Cymru a BBC Alba, ynghyd â BBC iPlayer a S4C Clic
- datblygasom set newydd o nodau i Gymru yn Fenis 10, gan gynnwys rhaglen Gymrodoriaeth i ddatblygu cyfres o gyfleoedd comisiynu ar gyfer artistiaid fel rhan o'r Rhaglen Greadigol yn 2022/23
- rydym yn dal i weithio ar y prosiect Arts Infopoint UK mewn partneriaeth â'r pedwar Cyngor Celfyddydau, gan gynnig cymorth a chyngor ar symudedd artistiaid o'r DU i'r Undeb Ewropeaidd
- gwnaethom barhau i feithrin a chryfhau ein perthnasoedd â Rhwydweithiau Ewropeaidd allweddol megis yr Informal European Theatre Movement (IETM), On the Move a Culture Action Europe

Gweithio mewn partneriaeth â'r rhai sy'n rhannu ein gwerthoedd i greu cyfleoedd na allem eu creu ar ein pen ein hunan. Yn ogystal â'r partneriaethau a restrir uchod:

- BBC Cymru – mae 49 o artistiaid o wahanol genre a chefnidir wedi cael budd o gyllid y Gronfa Lansio. Hefyd, cynigiwyd rhaglen ddysgu ar-lein i artistiaid llwyddiannus
- dechreuasom drafodaeth cam cyntaf gyda Nesta ynghylch gweithio cydweithredol yn y dyfodol a chydfuddsoddi yng nghreadigrwydd y blynyddoedd cynnar
- gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, lansiasom Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol a'r ymagweddau gweithio datblygol, er mwyn canfod meysydd cydweithredu gan ganolbwyntio ar rannu adnoddau a gwneud y defnydd mwyaf ohonynt, er mwyn cynorthwyo'r sector creadigol i symud tuag at garbon sero net
- Mae blwyddyn 2 Ffolio, ein partneriaeth gyda BBC Arts, BBC Wales, BBC Cymru a Ffilm Cymru Wales yn mynd rhagddi, gan greu cyfleoedd ar gyfer talent sydd heb blatfform digonol. Mae 4 comisiwn sain a 4 comisiwn ffilm wedi cwblhau'r broses cynhyrchu
- mae ein partneriaeth gyda Sefydliad Jerwood wedi cynorthwyo 7 Cymrawd Creadigol yng Nghymru. Mae'r rhaglen wedi cyrraedd ei misoedd olaf
- Mae cynllun Accelerator a Power Up! y Sefydliad PRS yn cynorthwyo cerddorion, ac yn ddiweddar, cerddorion duon yn benodol
- bu rhaglen Rhwydwaith y Celfyddydau, Iechyd a Lles Cymru yn canolbwyntio ar brosesau datblygu a hyfforddi cymheiriaid, gan ganolbwyntio ar les
- bu rhaglen datblygu sector traws-greadigol S4C a Ffilm Cymru Wales Labordy yn canolbwyntio ar gynhyrchwyr oedd eisiau gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Dewiswyd 5 cynhyrchydd i gymryd rhan
- roedd arwain ar waith datblygu Contract Diwylliannol newydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys comisiynu Cynghrair Diwylliant Cymru i gynnal cyfres o sgysiau ar draws y diwydiannau diwylliannol a chreadigol ochr yn ochr â chynnal arolwg i archwilio opsiynau ar gyfer fframwaith priodol
- gwnaethom recriwtio cohort newydd o 191 o unigolion â gwybodaeth, sgiliau a phrofiad gwahanol sydd wedi mynegi diddordeb mewn gweithio gyda ni fel Cydweithwyr Celfyddydol posibl. Bydd hyn yn gwella ansawdd y cyngor a gawn ar draws ein gwaith ac yn sicrhau bod y mewnbyn mwyaf perthnasol ar gael ar gyfer ein cyfarfodydd i wneud penderfyniadau ariannol








Annes Elwy a Nia Roberts mewn ffilm eco-arswyd Gymraeg *Gwledd / The Feast*, wedi'i chyfarwyddo gan Lee Haven Jones, wedi'i hysgrifennu a'i chynhyrchu gan Roger Williams

# Llywodraethu Corfforaethol

## Ein Hymddiriedolwyr

Aelodau'r Cyngor a wasanaethodd ers 1 Ebrill 2020 oedd:

Presenoldeb Ymddiriedolwyr mewn cyfarfodydd yn ystod 2021/22

|  | Cyngor                           | Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | Pwyllgor Cyfalaf | Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol | Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol | Pwyllgor y Gymraeg | Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol |
|--|----------------------------------|-----------------------------------|------------------|--|---------------------------------|--------------------|---------------------------------|
|  | Nifer o gyfarfodydd a gynhaliwyd |                                   |                  |  |                                 |                    |                                 |
|  | 10                               | 5                                 | 3                | 3  | 3                               | 4                  | 9                               |
|  <b>Phil George</b><br>Cadeirydd<br>ers 1 Ebrill 2016   | 10                               |                                   |                  |  |                                 |                    |                                 |
|  <b>Kate Eden</b><br>ers 1 Ebrill 2017<br><b>Is-gadeirydd</b><br>ers 1 Ebrill 2021<br>Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg<br>Aelod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol | 10                               | 5                                 |                  | 2  |                                 |                    |                                 |
|  <b>Iwan Bala</b><br>ers 1 Tachwedd 2016 i 21 Gorffennaf 2021<br>Aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Cymru yn Fenis hyd 21 Gorffennaf 2021   | 2/3                              |                                   |                  |  |                                 |                    |                                 |
|  <b>Lhosa Daly</b><br>ers 1 Ebrill 2019<br>Cadeirydd Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol  | 10                               |                                   |                  |  |                                 |                    | 6                               |
|  <b>Ceri Ll Davies</b><br>ers 1 Ebrill 2021<br>Aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol  | 10                               |                                   |                  |  | 3                               |                    |                                 |

Presenoldeb Ymddiriedolwyr mewn cyfarfodydd yn ystod 2021/22



**Devinda De Silva**  
ers 1 Ebrill 2019  
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldebau Strategol



**Andy Eagle**  
ers 1 Tachwedd 2016  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfalaf



**Ruth Fabby MBE**  
ers 1 Ebrill 2021



**Professor Tudur Hallam**  
ers 1 Ebrill 2019  
Cadeirydd Pwyllgor y Gymraeg



**Gwennan Mair Jones**  
ers 1 Ebrill 2019  
Aelod o Bwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol



**Tafsila Khan**  
ers 1 Ebrill 2021  
Aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf

| Cyngor                           | Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | Pwyllgor Cyfalaf | Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnybuddiaeth Ariannol | Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol | Pwyllgor y Gymraeg | Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol |
|----------------------------------|-----------------------------------|------------------|--|---------------------------------|--------------------|---------------------------------|
| Nifer o gyfarfodydd a gynhaliwyd |                                   |                  |  |                                 |                    |                                 |
| 10                               | 5                                 | 3                | 3  | 3                               | 4                  | 9                               |
| 8                                |                                   |                  |  | 2                               |                    |                                 |
| 7                                |                                   | 2                |  |                                 |                    |                                 |
| 10                               |                                   |                  |  |                                 |                    |                                 |
| 7                                |                                   |                  |  |                                 | 4                  |                                 |
| 6                                |                                   |                  |  |                                 |                    | 5                               |
| 8                                |                                   | 3                |  |                                 |                    |                                 |

Presenoldeb Ymddiriedolwyr mewn cyfarfodydd yn ystod 2021/22

|   | Cyngor                           | Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | Pwyllgor Cyfalaf | Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol | Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol | Pwyllgor y Gymraeg | Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol |
|---|----------------------------------|-----------------------------------|------------------|--|---------------------------------|--------------------|---------------------------------|
|   | Nifer o gyfarfodydd a gynhaliwyd |                                   |                  |  |                                 |                    |                                 |
|   | 10                               | 5                                 | 3                | 3  | 3                               | 4                  | 9                               |
|  <p><b>Alison Mears Esswood</b><br/>ers 1 Ebrill 2019<br/>Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol</p> | 8                                |                                   |                  | 3  |                                 |                    |                                 |
|  <p><b>Keith Murrell</b><br/>ers 1 Ebrill 2021<br/>Aelod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol</p>         | 10                               |                                   |                  | 2  |                                 |                    |                                 |
|  <p><b>Victoria Provis</b><br/>ers 1 Ebrill 2019<br/>Aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf</p>  | 10                               |                                   | 3                |  |                                 |                    |                                 |
|  <p><b>Dafydd Rhys</b><br/>ers 1 Ebrill 2017<br/>Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg</p>                           | 9                                | 5                                 |                  |  |                                 |                    |                                 |
|  <p><b>Elen ap Robert</b><br/>ers 1 Ebrill 2021<br/>Aelod o Bwyllgor y Gymraeg</p>   | 10                               |                                   |                  |  |                                 | 3                  |                                 |
|  <p><b>Prue Thimbleby</b><br/>ers 1 Ebrill 2021<br/>Aelod o Bwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol</p>                            | 9                                |                                   |                  |  |                                 |                    | 7                               |
|  <p><b>Dr Sarah Younan</b><br/>ers 1 Ebrill 2019<br/>Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg</p>                       | 6                                | 2                                 |                  |  |                                 |                    |                                 |

Presenoldeb aelodau annibynnol o Bwyllgorau mewn cyfarfodydd yn ystod 2021/22

|                                      | Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | Pwyllgor Cyfalaf | Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydinabyddiaeth Ariannol | Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol | Pwyllgor y Gyfraeg | Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol |
|--------------------------------------|-----------------------------------|------------------|---|---------------------------------|--------------------|---------------------------------|
|                                      | Nifer o gyfarfodydd a gynhaliwyd  |                  |   |                                 |                    |                                 |
|                                      | 5                                 | 3                | 3   | 3                               | 4                  | 9                               |
| Andrew Butler                        | 5                                 |                  |   |                                 |                    |                                 |
| Elid Morris                          | 3                                 |                  |   |                                 |                    |                                 |
| Arwel Thomas                         | 3                                 |                  |   |                                 |                    |                                 |
| Ruth Cayford                         |                                   | 2                |   |                                 |                    |                                 |
| Mark Davies i 18/06/2021             |                                   | 1/1              |   |                                 |                    |                                 |
| Roland Evans                         |                                   | 2                |   |                                 |                    |                                 |
| Michael Gwyther-Jones ers 01/10/2021 |                                   | 2/2              |   |                                 |                    |                                 |
| Alan Hewson i 18/06/2021             |                                   | 1/1              |   |                                 |                    |                                 |
| Jayne Woods ers 01/10/2021           |                                   | 2/2              |   |                                 |                    |                                 |
| Valerie Ellis i 26/01/2022           |                                   |                  | 1   |                                 |                    |                                 |
| Philip Westwood                      |                                   |                  | 2   |                                 |                    |                                 |
| Ruth Gould ers 01/10/2021            |                                   |                  |   | 1                               |                    |                                 |
| Guto Gwilym-Taylor                   |                                   |                  |   | 2                               |                    |                                 |
| Ele Hicks                            |                                   |                  |   | 2                               |                    |                                 |
| Lara Ratnaraja                       |                                   |                  |   | 2                               |                    |                                 |
| Shereen Williams                     |                                   |                  |   | 0                               |                    |                                 |

Yn unol â Chod Ymarfer Gorau'r Cyngor, mae aelodau o'r Cyngor ac aelodau annibynnol o Bwyllgorau'n gwneud datganiadau o fuddiant mewn perthynas â chyfarwyddiaethau, aelodaeth o fyrddau rheoli (neu gyrff cyfatebol) neu gyflogaeth a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau parthed Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae cofrestr buddiannau Aelodau'r Cyngor ac aelodau annibynnol o Bwyllgorau ar gael i'r cyhoedd ei gweld, o wneud apwyntiad, ym mhob un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol.

Caiff pob trafodyn ariannol rhwng aelodau a'r Cyngor, ac eithrio cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd, eu datgelu yn y datganiadau ariannol o dan *Drafodion â phartion cysylltiedig*.

## Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Mae gan y Cyngor reolaethau a pholisïau ar waith i sicrhau cyfanrwydd data. Mae systemau TGCh yn sicrhau bod rheolaeth gaeth ar ddiogelwch ffisegol y data. Cafwyd tri achos pitw o dor diogelwch data personol yn ystod y flwyddyn. Cafodd pob un ei asesu'n briodol ac nid oedd yr un ohonynt yn y categori o fod angen rhoi gwybod amdano i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Ein Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Cyfrifyddu

Michael Elliott

## Ein swyddfeydd

|  |  |  |
|--|--|--|
| <b>Canolbarth a Gorllewin Cymru:</b><br>Y Mwnt<br>18 Stryd y Frenhines<br>Caerfyrddin<br>SA31 1JT  | <b>Gogledd Cymru:</b><br>Parc y Tywysog II<br>Rhodfa'r Tywysog<br>Bae Colwyn<br>LL29 8PL                                     | <b>De Cymru a'r sywddfa genedlaethol:</b><br>Plas Bute<br>Caerdydd<br>CF10 5AL             |
| <b>Archwilydd – Gweithgareddau Cyffredinol</b><br>Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Archwilio Cymru<br>24 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd<br>CF11 9LJ | <b>Archwilwyr ariannol mewnol</b><br>i 31 Mawrth 2022<br>Deloitte L LP<br>5 Sgwâr Callaghan<br>Caerdydd<br>CF10 5BT          | <b>Cyfreithwyr</b><br>Geldards LLP<br>Tŷ Dumfries<br>Plas Dumfries<br>Caerdydd<br>CF10 3ZF |
| <b>Archwilydd – Gweithgareddau Cyffredinol</b><br>Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol<br>157-197 Buckingham Palace Road<br>Llundain<br>SW1W 9SP    | <b>Archwilwyr ariannol mewnol</b><br>ers 1 Ebrill 2022<br>TIAA Ltd<br>Artillery House<br>Fort Fareham<br>Fareham<br>PO14 1AH | <b>Bancwyr</b><br>Santander UK p.l.c.<br>9 Heol y Frenhines<br>Caerdydd<br>CF10 2UD        |



# Datganiad Llywodraethu

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn gyfrifoldeb personol i mi, Michael Elliott, Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr Dros Dro Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n disgrifio trefniadau llywodraethu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae hefyd yn disgrifio sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau am sicrhau ein bod yn cynnal ein busnes, o ran gweithgarwch y trysorlys a'r Loteri, yn unol â'r gyfraith. Mae hyn yn cynnwys darparu'r sicrwydd angenrheidiol ein bod yn cadw at y safonau priodol ac yn sefydlu'r trefniadau diogelu angenrheidiol i amddiffyn y defnydd o arian y cyhoedd.

Rwy'n esbonio sut y cyfrifyddir yn iawn am yr arian hwn a sut y caiff ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol i gynorthwyo â chyflawni ein cynlluniau a'n blaenoriaethau.

## Y fframwaith deddfwriaethol

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd cyfreithiol sydd wedi'i bennu a'i reoleiddio'n ofalus. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn atebol i Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon Llywodraeth Cymru. Mae ein gwaith hefyd yn destun craffu gan Bwyllgorau Senedd Cymru. Rydym yn gweithio o fewn fframwaith sy'n nodi'r telerau a'r amodau y mae Gweinidogion Cymru'n darparu ein cyllid cymorth grant o danynt, a sut y gallwn ddefnyddio'r cyllid hwn. Rydym yn rheoli ein harian gydag uniondeb ac er budd y cyhoedd ac, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn cadw at yr egwyddorion a geir yn y ddogfen Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

A ninnau'n ddsbarthwr arian y Loteri o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd), rydym yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cawn ein cyfarwyddiadau ariannol oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol a'n cyfarwyddiadau polisi gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn nodi sut mae'n rhaid inni weithredu o ran gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. Daeth cyfarwyddiadau ariannol diwygiedig y Loteri i rym ar 1 Ebrill 2022.

Mae'n ofynnol inni roi cyfrif am ein gweithgarwch dosbarthu arian y Loteri ar wahân i weddill ein gwaith, ac mae gennym drefniadau priodol ar waith i sicrhau y cynhyrchwn ddwy set o gyfrifon cyhoeddedig. Mae ein cyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri yn cael eu harchwilio o dan gontract gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gan Archwilio Cymru. Mae Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol.



*Wild Thoughts*, Cwmni Dawns  
Cenedlaethol Cymru  
(Llun: Mark Douet)

A ninnau'n elusen, mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion Deddfau'r Elusennau 1960, 2006, 2011 a 2016. Felly, dilynwn ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau, gan weithredu'n unswydd i gyflawni ein hamcanion elusennol a siartredig.

Mae'r gweithgareddau yr ydym yn eu cyflawni mewn cysylltiad â'n Cynllun Casglu yn ddarostyngedig i Ddeddf Credyd Defnyddwyr ac i'r canllawiau a gyhoeddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Rydym wedi dylunio ein systemau, ein prosesau a'n rheolaethau i gymryd i ystyriaeth y gwahanol gyfrifoldebau hyn. O fewn y fframweithiau hyn gwnawn benderfyniadau annibynnol ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad, cyllid grantiau, a phenderfyniadau ariannol eraill.

Mae asesu a rheoli risg yn sylfaenol i'n gweithrediadau a dylid darllen y Datganiad Llywodraethu hwn ar y cyd â'r adran Prif risgiau ac ansicrwydd yn yr Adroddiad ar Berfformiad.

Pe bai'r angen yn codi, gall y cyrff canlynol ymchwilio i fusnes y Cyngor: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu, y Comisiwn Elusennau, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, y Comisiynydd Gwybodaeth, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac Archwilio Cymru.



*Ripples of Kindness,*  
Canolfan Mileniwm Cymru  
(Llun: Polly Thomas)

## Ein trefniadau Llywodraethu

Cawn ein llywodraethu gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr – y Cyngor – sy'n cynnwys Cadeirydd a hyd at ddau ar bymtheg o aelodau annibynnol eraill, a phenodir un ohonynt yn Is-gadeirydd. Caiff ein Hymddiriedolwyr eu penodi gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon drwy broses ddethol agored. Gwneir penodiadau fel arfer am gyfnod o dair blynedd a gellir ei adnewyddu am ddau gyfnod ychwanegol ar y mwyaf.

Daw pob Ymddiriedolwr ag arbenigedd a gwybodaeth penodol i'r broses o arolygu a datblygu ein gweithgareddau. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd ein Cyngor yn cynnwys y Cadeirydd ac un ar bymtheg o aelodau.

Caiff Cadeirydd y Cyngor gydnabyddiaeth ariannol ar raddfa a bennir pob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Mae pob Ymddiriedolwr arall yn rhoi o'i amser a'i arbenigedd yn wirfoddol. Fodd bynnag, cânt eu had-dalu am dreuliau parod yr aed iddynt ar fusnes y Cyngor.

## Rydym yn hyrwyddo gwerthoedd llywodraethu da

Rydym yn cadw at saith Egwyddor yr Arglwydd Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob un o'n cyflogeion, ein Hymddiriedolwyr, aelodau o'n Pwyllgorau a'n Cydweithwyr Celfyddydol yn deall a chymhwyso'r Egwyddorion hyn ac yn cadw atynt.

I gefnogi hyn, mae gennym God Ymarfer Gorau sy'n helpu i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion wedi'u diffinio'n glir. Mae hefyd yn cynnwys y safonau o briodoldeb y disgwylir y dylai aelodau a'r staff gadw atynt. Caiff y Cod ei adolygu a'i ddiweddarau o leiaf unwaith pob dwy flynedd.

Yn unol â'r Cod, mae'n ofynnol i bob aelod o'r Cyngor, pob aelod o bob Pwyllgor a phob un o'n Cydweithwyr Celfyddydol a phob aelod o'n staff gwblhau Datganiad o Fuddiant blynyddol, a sicrhau nad oes oedi wrth roi gwybod inni am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau. Maent yn gwneud datganiadau o fuddiant mewn perthynas â chyfarwyddiaethau, aelodaeth o fyrddau rheoli (neu gyrff cyfatebol) neu gyflogaeth a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau parthed Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r gofrestr fuddiannau ar gael i'r cyhoedd ei gweld, o wneud apwyntiad, ym mhob un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol. Caiff pob trafodyn ariannol rhwng aelodau a'r Cyngor ei ddatgelu yn y datganiadau ariannol o dan y pennawd Trafodion â phartion cysylltiedig.



Cyflawnodd y Cyngor, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol adolygiad hunanasesu o'u perfformiad yn ystod y flwyddyn. Roedd canfyddiadau'r gwerthusiadau hyn yn gadarnhaol. Caiff meysydd a nodwyd i'w gwella eu nodi mewn cynlluniau gweithredu. Yn benodol, daeth adolygiad hunanasesu blynyddol y Cyngor yntau i'r casgliad bod y mwyafrif helaeth o'i ddangosyddion effeithiolrwydd wedi'u cyflawni.

Roedd y Cyngor yn fodlon ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd yn adolygiad y llynedd. Cydnabu'r Cyngor bwysigrwydd sicrhau cymysgedd ac amrywiaeth priodol o arbenigedd a sgiliau celfyddydol ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr wrth i aelodau newydd gael eu penodi. Bydd y meysydd arbennig i ganolbwyntio arnynt yn cynnwys adferiad a datblygiad gweithgarwch celfyddydol ar ôl Covid-19, ein hadolygiad cyfnodol o aelodau ein Portffolio trwy ein Hadolygiad Buddsoddi, ysgogi rhagor o ymrwymiad i Gydraddoldeb a'r Gymraeg ymysg y sefydliadau a ariannwn, a'r defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Nid yw'r cod Corporate governance in central government departments: code of good practice, a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, yn uniongyrchol berthnasol i Gyngor Celfyddydau Cymru. Fodd bynnag, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n fodlon bod y trefniadau sydd gennym ar waith yn adlewyrchu arfer da. Rwyf hefyd yn credu bod Cyngor y Celfyddydau wedi cydymffurfio â'r egwyddorion o atebolrwydd, effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth a fynegir yng Nghod y Trysorlys, i'r graddau y bônt yn berthnasol i Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Dosbarthwyr Arian y Loteri. Mae'r Cyngor yn cytuno â'r farn hon.

## Chwythu'r chwiban

Mae gan y Cyngor bolisi sefydledig ar chwythu'r chwiban. Tynnir sylw'r staff at hwn yn ystod y cyfnod sefydlu ac mae ar gael yn llawlyfr gweithredol y Cyngor ac ar ei fewnrwyd. Caiff y polisi ei adolygu o leiaf pob tair blynedd. Ni roddwyd gwybod am unrhyw ddiwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

## Gwneud penderfyniadau gwybodus

Mae'r penderfyniadau a wneir gan ein Cyngor a'n Pwyllgorau'n cael eu llywio gan gyngor a ddarparwyd gan staff Cyngor y Celfyddydau. Disgwylir i bapurau ac adroddiadau a gynhyrchir gan swyddogion ddangos yn glir yr holl wybodaeth berthnasol mae ei hangen i alluogi gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r holl bapurau allweddol yn nodi: goblygiadau ariannol ac o ran adnoddau dynol a 5 ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; risgiau; a datganiad o sicrwydd.

Caiff y papurau eu dosbarthu cyn pob cyfarfod o'r Cyngor a'r Pwyllgorau; ni chaiff eitemau a gyflwynir ac adroddiadau ar lafar eu derbyn ond mewn amgylchiadau eithriadol. Yn ystod y flwyddyn, roedd y Cyngor yn fodlon ar amseroldeb ac ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd ar ei gyfer. Yn yr achosion prin pan nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn bodloni'r safonau gofynnol, caiff y papur ei wrthod a chaiff un arall ei gomisiynu yn ei le. Ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o hyn yn 2021/22.

Lle bo'n briodol ac yn berthnasol, mae cyngor gan swyddogion yn cael ei ategu gyda chyngor arbenigol a barn gan gyfreithwyr. Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod ganddo ddigon o amser a gwybodaeth i drafod polisi yn iawn ac ystyried cyfeiriad y sefydliad i'r dyfodol. Ymgynghorir â'r cyhoedd ynghylch cynigion polisi allweddol. Mae'r ymatebion a'r adborth yn darparu rhagor o wybodaeth ar gyfer trafodaethau'r Cyngor cyn y rhoddir y wedd derfynol ar bolisiau.

## Rydym yn darparu arian i drydydd partïon

Un o ddyletswyddau pwysicaf y Cyngor yw dosbarthu arian i ddatblygu a chynorthwyo'r celfyddydau yng Nghymru. Rydym yn ddsbarthwr pwysig o arian – oddi wrth Lywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol a ffynonellau eraill.

Rydym wedi datblygu systemau a gweithdrefnau cadarn ac atebol i gefnogi'r gweithgarwch allweddol hwn. Mae ein prosesau rhoi a monitro

grantiau'n cael eu hadolygu pob blwyddyn gan ein harchwilwyr mewnol. Mae Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein gweithgareddau rhoi grantiau pob blwyddyn. Mae'r holl argymhellion a wneir gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu monitro gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith mewn da bryd.

## Diogelwch data

Rydym yn dal llawer iawn o ddata ac rydym yn cymryd o ddifrif ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Diogelu Data sy'n ymgorffori'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae ein systemau a rheolau TGCh yn sicrhau bod rheolaeth gaeth ar ddiogelwch data. Rydym yn asesu ein trefniadau diogelwch yn rheolaidd ac wedi cymryd camau i'w gwneud yn gadarnach.

Nid amlygodd yr adolygiad lefel uchel o reolaethau TG a wnaed gan ein harchwilwyr allanol, na'n rhaglen o adolygiadau archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn, unrhyw broblemau difrifol. Yn yr un modd, ni thynnodd yr adolygiad diogelwch blynyddol ar ran Llywodraeth Cymru sylw at unrhyw faterion oedd yn peri pryder difrifol yn y maes hwn. Cafwyd tri achos pitw o dor diogelwch data personol yn ystod y flwyddyn. Cafodd pob un ei asesu'n briodol ac nid oedd yr un ohonynt yn y categori o fod angen rhoi gwybod amdano i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Cwynion


Ymchwilir i gwynion am ein gwaith yn unol â'n Polisi Cwynion. Weithiau mae'n ofynnol gan ein polisi i Adolygydd Cwynion Annibynnol ymchwilio i gwyn. Am resymau bod yn agored a thryloyw, rydym yn cyhoeddi'r holl adroddiadau terfynol gan yr Adolygydd. Ni chafodd unrhyw gwynion eu cyfeirio at yr Adolygydd Annibynnol yn 2021/22.

## Cyfarwyddiadau gan Weinidogion

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn ddarostyngedig i offerynnau anstatudol, sy'n cynnwys Cyfarwyddiadau priodol. Ni chyflwynwyd inni unrhyw Gyfarwyddiadau yn ystod y flwyddyn oddi wrth Lywodraeth Cymru. Cawsom gyfarwyddiadau ariannol diwygiedig y Loteri oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2022.

## Ein Strwythur Llywodraethu

I helpu i gynorthwyo â'i waith, mae'r Cyngor wedi penodi chwe phwyllgor i ddarparu cyngor arbenigol. Dyma nhw: y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg; y Pwyllgor Cyfalaf; y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol; y Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol; Pwyllgor y Gymraeg a Phwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd pwyllgor ymgynghorol ar bresenoldeb Cymru yn y Biennale Celf rhyngwladol yn Fenis, a Grŵp Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch.





Ngaay-Konesans, Shiraz  
Bayjoo a Brook Andrew,  
Oriol Gelf Glynn Vivian  
(Llun: Polly Thomas)



Mae pob Pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r Cyngor, y mae un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd, ac mae darpariaeth ar gyfer aelodau annibynnol o'r pwyllgor a benodir drwy broses ddethol agored oherwydd eu sgiliau arbenigol a'u profiad. Darperir cofnodion pob un o gyfarfodydd y Pwyllgorau i'r Cyngor i gael eu trafod a'u nodi. [Gellir gweld cylch gorchwyl pob pwyllgor, sy'n cael ei adolygu pob blwyddyn, ar ein gwefan.](#)

Mae pob aelod newydd o'r Cyngor ac o bob Pwyllgor yn mynd drwy broses sefydlu sy'n briodol i'w rôl, a chaiff ei annog i barhau â'i ddatblygiad yn ystod cyfnod ei benodiad.

Yn ystod y flwyddyn parasom i fanteisio ar wasanaethau a phrofiad ein cohort o **Gydweithwyr Celfyddydol**. Mae'r Cydweithwyr, a ddechreuodd eu gwaith yn ystod 2019/20, yn cynorthwyo staff gweithredol. Mae eu gwybodaeth arbenigol yn cyfrannu at ddatblygu polisiau, asesu ceisiadau am grantiau, a chyngor i swyddogion.

# Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gyfeiriad strategol ein sefydliad ac am ei reoli. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau, drwy'r Prif Weithredwr, ein bod yn gweithredu o fewn y gwahanol atebolrwyddau sy'n ofynnol inni.

Mae aelodau o'r Cyngor yn gyfrifol am benderfyniadau allweddol ar bolisi corfforaethol: llunio ein Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol ac unrhyw newidiadau o bwys i delerau ac amodau gwasanaeth y staff.

Mae'r Cyngor yn pennu'r gyllideb flynyddol, yn penderfynu ar ddyraniad blynyddol y grantiau i sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru, ac yn cymeradwyo pob grant dros £50,000, neu dros £250,000 yn achos prosiectau cyfalaf a gyllidir gan arian y Loteri a dyfarniadau Gwytnwch dros £100,000. Dirprwyir y penderfyniadau ar grantiau sy'n is na'r trothwyon hyn i aelodau awdurdodedig o'r staff ac i'r Pwyllgor Cyfalaf.

Mae'r aelodau yn cynorthwyo â Phwyllgorau'r Cyngor. Gallant hefyd fynychu digwyddiadau celfyddydol ledled Cymru fel cynrychiolwyr o'r Cyngor.

**Mae gweithgareddau'r Cyngor a gyflawnwyd yn ystod 2021/22 yn cynnwys:**

1. Wrth iddo graffu'n barhaus ar **Lywodraethu**, paratoi a monitro'r **Cynllun Gweithredol** am y flwyddyn. Hefyd derbyniodd a nododd y Cyngor adroddiadau diwedd blwyddyn y **Pwyllgorau** i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ei **Ddatganiad Llywodraethu** fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol hwn a chymeradwyodd **Ddatganiadau Ariannol Blynyddol 2020/21** a dyraniadau'r **Gyllideb** ar gyfer 2021/22
2. cymryd rhan mewn gweithdy'n ymwneud â'r Adolygiad Buddsoddi ym mis Gorffennaf 2021
3. cymeradwyo ein hymagwedd ar gyfer cylchoedd 2 a 3 y **Gronfa Adferiad Diwylliannol** a gyflawnir mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru
4. cymeradwyo'r mesurau dros dro sydd ar waith ar lefel yr Uwch Tîm Rheoli
5. cymeradwyo'r **Ddogfen Fframwaith** newydd, yn pennu'r berthynas weithredol rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru
6. cymeradwyo **mandad banc** newydd gyda Santander
7. derbyn canfyddiadau'r **Adroddiadau Ehangu Ymgysylltiad**, a chynnal cyd-gyfarfod gydag Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru.

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor oddeutu pob 6 wythnos fel arfer. Fodd bynnag, yn achlysurol, trefnwyd cyfarfodydd ychwanegol eleni i ystyried ymatebion i'r pandemig. [Gellir gweld copïau o agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Cyngor ar ein gwefan.](#)

Cyfarfu'r Cyngor 10 gwaith yn ystod 2021/22 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 150 o weithiau allan o 173 posibl.

## Ein hymateb o ran llywodraethu i Covid-19

Am y rhan fwyaf o 2021/22 buom yn gweithredu mewn ffordd debyg iawn i'r flwyddyn flaenorol, gyda mwyafrif y staff yn parhau i weithio gartref. Agorasom ein swyddfeydd ym Mae Colwyn a Chaerdydd i'r staff yr oedd angen iddynt weithio ynddynt fel rhan o'u rôl neu i staff yr oedd angen gofod swyddfa arnynt am resymau llesiant.

Mae'r rhan fwyaf o'n prosesau mewnol yn electronig ac wedi parhau i weithio'n dda o bell. Mae llofnodion electronig a thrywyddau archwilio drwy e-bost wedi disodli llofnodion ffisegol. Cafodd ein cynllun archwilio mewnol ei gyflawni o bell, heb unrhyw effaith sylweddol ar berfformiad na chanlyniadau.

Rydym yn dal i ddefnyddio nifer o ystafelloedd cyfarfod rhithwir i gynnal cyfarfodydd ein holl bwyllgorau a'r Cyngor. Mae dyletswyddau pob pwyllgor wedi aros yr un peth ac nid yw gallu'r Cyngor i wneud penderfyniadau wedi cael ei beryglu yn ystod cyfnod y pandemig. Rydym wedi diweddarau ein Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol a'n Cofrestr Risgiau Gorfforaethol yn unol â hynny.

Darparasom y Gronfa Adferiad Diwylliannol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Buom yn cysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru drwy gydol y broses hon er mwyn canfod unrhyw geisiadau dyblyg a lleihau risg cyllid dyblyg. Rydym yn dal i adrodd i Lywodraeth Cymru bob wythnos ar bob taliad a wneir o'r gronfa hon.

Hefyd diweddarasom ein gweithdrefnau gwrth-dwyll mewnol i gynnwys ystyriaeth o unrhyw drefniadau gweithio diwygiedig neu newydd a gyflwynwyd o ganlyniad i'r pandemig a'r gofyniad i weithio gartref.

Yn ein barn ni nid yw effeithiolrwydd llywodraethu wedi cael ei beryglu gan y pandemig.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

A ninnau'n stiwardiaid arian cyhoeddus, rhaid inni weithredu mewn modd effeithlon ac atebol. Mae'r Cyngor yn cytuno ar ein blaenoriaethau a phenderfyniadau ariannu yn unol â'r polisiau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'n defnydd o arian cyhoeddus. Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymïadau hyn, gan wneud hynny mewn ffyrdd sy'n dryloyw, yn atebol ac yn gydnerth.

Mae rhaglen helaeth o waith archwilio mewnol yn ein cynorthwyo gyda'r gwaith hwn, gan asesu ansawdd ein gwaith cyflawni yn erbyn y safonau rydym wedi'u gosod.

Mae'r gweithgareddau a gyflawnodd y Pwyllgor yn ystod 2021/22 yn cynnwys y canlynol:

1. craffu'n rheolaidd ar ein **Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol** a'n **Cofrestr Risgiau Gorfforaethol**, ac ystyried ac ailgymeradwyo trefniadau rheoli risgiau'r Cyngor. Mae hyn wedi rhoi inni ddarlun cliriach o'r trefniadau er mwyn ymateb i'r gwendidau posibl yn ein gweithrediadau
2. adolygu ein hamddiffynfeydd rhag **Twyll** a **Seiberdroseidd**, gan gynnwys rhoi ystyriaeth benodol i Becyn Cymorth Seiberddiogelwch i Fyrddau y Ganolfan Ddiogelwch Genedlaethol a sut y gallwn ei ddefnyddio. Rydym mewn sefyllfa well i wrthsefyll nifer fwy a natur fwy soffistigedig ceisiadau allanol i dorri ein diogelwch, yn enwedig wrth ystyried y cynnydd posibl mewn bygythiadau diogelwch allanol drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud
3. craffu ar iechyd sefydliadol ac ariannol sefydliadau **Portffolio Celfyddydol Cymru**, trwy drefniadau adrodd gwell i asesu maint effaith y pandemig Covid-19
4. adrodd i'r Cyngor ar ganlyniad **adolygiadau archwilio mewnol** a gomisiynwyd gan y Pwyllgor a monitro cynnydd o ran rhoi argymhellion gweithredu'r archwilydd ar waith



“Mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo ein trefniadau llywodraethu mewn modd trylwyr. Mae'n craffu ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ein systemau rheolaeth fewnol, ac yn rhoi prawf ar ein trefniadau rheoli risg. Ein rôl yw cynorthwyo'r sefydliad i fod mor effeithlon ag y gall fod, gan sicrhau bod gwaith y Cyngor wrth gyflawni gweithgarwch yn effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian.”

Kate Eden

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

5. deall agweddau allweddol ar weithrediadau'r Cyngor, megis ein hymateb parhaus yn allanol ac yn fewnol i **Covid-19**, disodli ein **system rheoli grantiau**, gwaith paratoi ar gyfer ein Hadolygiad Buddsoddi arfaethedig, craffu ar ein **Hadroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol**, a'r broses o gaffael darparwr newydd ar gyfer y Gwasanaethau Archwilio Mewnol i olynw cwmni Deloitte, y daeth ein contract â nhw i ben ar 31 Mawrth 2022.

Cadwyd at amserlen cyfarfodydd arferol y Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn, ond gan ystyried y cyfyngiadau symud oherwydd y pandemig, cafodd y cyfarfodydd eu cynnal yn rhithwir gan defnyddio gweithrediadau ar-lein.

Cyfarfu'r Pwyllgor 5 gwaith yn ystod 2021/22 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 23 o weithiau allan o 30 posibl.

## Canlyniadau archwiliadau

Adroddir canfyddiadau archwiliadau blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg sy'n ystyried y canfyddiadau ac yn eu monitro i sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol yn brydlon. Bydd rhoi grantiau yn parhau'n ganolog i waith rheoli a sylw'r Pwyllgor.

Rhoddodd ein harchwilydd mewnol hyd 31 Mawrth 2022, Deloitte LLP, y farn ganlynol yn ei adroddiad blynyddol:

“Ar sail casgliadau ein gwaith, gallwn roi i Gyngor y Celfyddydau **sicrwydd sylweddol** mewn perthynas â threfniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Nid yw ein barn wedi'i chyfyngu gan unrhyw ddiffyg adnoddau, absenoldeb sgiliau, neu unrhyw gyfyngiad sylweddol ar gwmpas gweithgarwch archwilio mewnol a fyddai'n cael effaith andwyol ar ein gallu i lunio barn.”

## Pwyllgor Cyfalaf

Ers mwy nag ugain mlynedd mae'r Cyngor wedi bod yn buddsoddi arian o'r Loteri Genedlaethol mewn prosiectau cyfalaf. Ledled Cymru rydym ni'n helpu sefydliadau i wella ac ehangu eu gweithgareddau drwy ariannu'r gwaith o greu adeiladau rhagorol, gan weddnewid y lleoedd yng Nghymru lle mae pobl yn mwynhau ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau.

Yn 2012, neilltuodd y Cyngor ryw £22 miliwn ar gyfer rhaglen gyfalaf. Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi goruchwyllo nifer sylweddol o brosiectau yn amrywio o brynu offer i greu cyfleusterau celfyddydol newydd. Rydym yn dal i oruchwyllo sawl prosiect sydd wedi bod yn cael eu datblygu ers nifer o flynyddoedd, yn ogystal ag ystyried ceisiadau newydd am fuddsoddiad a dargedir i wella mynediad, mentrau ynni cynaliadwy a mân addasiadau i adeiladau mewn ymateb i Covid-19.

Wrth i'r rhaglen gyfalaf gyrraedd diwedd ei chylch a bod dyraniad y gyllideb a neilltuwyd yn cael ei fuddsoddi, mae nifer y ceisiadau mae'r Cyngor wedi gallu eu derbyn wedi lleihau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn dal i graffu ar y prosiectau sy'n parhau ac i dderbyn ceisiadau am y prosiectau a ddaeth i mewn i'r rhaglen yn gynharach ac sy'n mynd ymlaen i gamau diweddarach cynllun gwaith RIBA. Er bod llai ohonynt, mae angen mwy o waith monitro ac asesu manwl ar y prosiectau hyn sy'n cyrraedd y camau diweddarach. I rai sefydliadau, gall hyn gynnwys cryn dipyn o gymorth a chynghor gan staff y Cyngor, yn enwedig i sefydliadau llai o faint sy'n cyflawni eu prosiect cyfalaf cyntaf.

Mae'r prosiectau sydd ar y safle ar hyn o bryd yn cynnwys: YMCA Pontypridd; Cwmni'r Frân Wen, Bangor; Theatr y Borough, Y Fenni; a Theatr Brycheiniog, Aberhonddu.

Mae'r prosiectau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn cynnwys: Oriel Myrddin Gallery, Caerfyrddin; Theatr Bara Caws, Caernarfon; Canolfan Celfyddydau Pontardawe; a Chanolfan Ucheldre, Caerdybi.



“Eleni gwnaethom groesawu dau aelod annibynnol newydd i’r Pwyllgor, a’r ddau’n cynnig profiad ac arbenigedd helaeth. Rydym wedi parhau i oruchwyllo datblygiad nifer o brosiectau cyfalaf sydd ar wahanol gamau datblygu yn y Cynllun Gwaith RIBA. Fwyfwy, mae’r rhain yn mynd trwy gyfnod adeiladu dwysach wrth inni gyrraedd camau diweddarach rhaglen ariannu cyfalaf bresennol y Loteri Genedlaethol. Cafodd mwy o waith ei gwblhau, ond hefyd mae wedi bod yn dda gweld ein harian yn cael ei droi’n adeiladau mewn prosiectau ar safleoedd. Parhaodd y Pwyllgor i wneud argymhellion i’r Cyngor o ran grantiau cyfalaf mawr newydd.”

Andy Eagle  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfalaf

Roedd gweithgareddau’r Pwyllgor yn ystod 2021/22 yn cynnwys:

- craffu ar 5 cais am gyfanswm o 739,000. Llwyddodd pob un a chael ei ariannu’n llawn
- parhau i gynorthwyo â’r gwaith o ddatblygu cynlluniau uchelgeisiol i adnewyddu **Theatr Clwyd**. Y buddsoddiad hwn gwerth £27 miliwn, sy’n cynnwys £22 miliwn gan Lywodraeth Cymru, yw’r swm mwyaf o arian ar gyfer un prosiect a gafodd ei fonitro gan y Pwyllgor erioed. Mae’n pwysleisio cadernid y bartneriaeth rhwng y ddau gorff cyllido, a’r ymddiriedaeth sydd gan Lywodraeth Cymru yn ein prosesau monitro
- sicrhau bod yr holl brosiectau cyfalaf mae’r Cyngor yn buddsoddi ynddynt yn bodloni safonau cynaliadwyedd **Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM)**. Hefyd, rydym yn ystyried a fyddai dulliau eraill o feincnodi prosiectau’n fwy addas i rai, yn arbennig mewn perthynas â chyrraedd carbon sero net a thargedau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

Fel rhan o’i gyfrifoldebau parhaus, ymddiriwyd y dasg o fonitro elfennau cyfalaf rhaglen Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru i’r Pwyllgor hefyd. Mae’n debyg y caiff arian ei ddyfarnu i’r prosiectau cyntaf yn ystod 2022/23 ond mae’n debyg y bydd hon yn elfen sylweddol o waith y Pwyllgor yn y tair blynedd nesaf.

Cyfarfu’r Pwyllgor 3 gwaith yn ystod 2021/22 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 18 o weithiau allan o 21 posibl.

## Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol



“Cyngori ar iechyd a lles staff y Cyngor yw prif swyddogaeth y Pwyllgor. Rydym yn hybu’r gwaith o ddatblygu polisiau ac arferion blaengar ac yn darparu her gadarnhaol a chefnogol i’r ffordd mae ein staff yn cyflawni gweithgareddau adnoddau dynol.”

Alison Mears Esswood,  
Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol a  
Chydnabyddiaeth Ariannol

Mae’r gweithgareddau a gyflawnodd y Pwyllgor yn ystod 2021/22 yn cynnwys y canlynol:

1. cyhoeddi **Datganiad Polisi Cyflogau**. Mae hwn yn cynnwys dadansoddiad manwl o gyfansoddiad ein staff. Mae hefyd yn rhoi sylw i adrodd ar Gydraddoldeb Rhywiol a Chyflogau Cyfartal
2. adolygu canlyniad yr adolygiad gwerthuso swyddi cynhwysfawr diweddar a’r gwaith o **ailstrwythuro graddfeydd tâl a chyflog**
3. adolygu data **gwybodaeth reoli adnoddau dynol ac Adroddiad Llesiant Deloitte** er mwyn monitro perfformiad ac iechyd a lles staff y Cyngor yn ystod y pandemig Covid-19
4. gosod lefelau **cydnabyddiaeth ariannol** a monitro perfformiad y Prif Weithredwr
5. hybu **dysgu a datblygiad** y staff er mwyn cyflawni amcanion corfforaethol, cyrsiau iechyd a diogelwch a chydymffurfiaeth gyffredinol

Penododd y Cyngor Alison Mears Esswood yn Gadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

Cyfarfu’r Pwyllgor 3 gwaith yn ystod 2021/22 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 10 o weithiau allan o 15 posibl.



## Iechyd a Diogelwch



“Mae’r Grŵp Iechyd a Diogelwch wedi parhau i sicrhau bod prosesau a pholisiau ar waith i ddiogelu ein staff rhag risg ac i sicrhau bod y safleoedd, cyfleusterau ac offer maent yn eu defnyddio yn ddiogel o ran Covid.”

Rebecca Nelson

Cadeirydd y Grŵp Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch

Mae’r gweithgareddau a gyflawnodd y Grŵp yn ystod 2021/22 yn cynnwys y canlynol:

1. monitro **Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Covid-19** a’u rhoi ar waith
2. rheoli goblygiadau **aidddefnyddio swyddfeydd**, gan gynnwys monitro’r staff sy’n mynd i’r swyddfeydd ac yn ymweld â digwyddiadau
3. adolygu ein **polisi Gweithiwr Unigol** i ystyried teithio rhyngwladol a gweithio hybrid
4. adolygu’r holl **asesiadau risg** sydd ar waith ar hyn o bryd, yn enwedig yr **Asesiad Risg Beichiogrwydd** a’r **Asesiad Risg Covid**
5. rheoli gwaith **Adrodd ar Ddigwyddiadau** a’u monitro
6. adolygu ein **Canllawiau a Pholisi Mamolaeth**
7. hybu **lles y staff** a chynnal trafodaethau gyda Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i’w cefnogi yn eu rôl

Cyfarfu’r Grŵp 9 gwaith yn ystod 2021/22 i gyflawni ei gyfrifoldebau.



Andrew Smith yng Nghanolfan Gelf  
Mark Rothko, 17eg Symposiwm  
Arlunio Rhyngwladol, Daugavpils,  
Latvija


## Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheolaeth fewnol

Yn fy marn i, mae systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol Cyngor Celfyddydau Cymru yn ddigonol i'm galluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu.



Michael Elliott  
Swyddog Cyfrifyddu  
8 Gorffennaf 2022

Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:



Phil George  
Cadeirydd  
8 Gorffennaf 2022

# Cydraddoldebau

Roedd cwblhau a chyhoeddi'r adroddiadau Ehangu Ymgysylltiad, a gomisiynwyd gennym yn y flwyddyn flaenorol mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, yn rhan fawr o'n gwaith yn 2021/22.

Canolbwyntiodd y tri maes ymchwil ar ymgysylltu â'r cymunedau hynny yr oeddem ni, a'r gwaith a gefnogwyd gennym, wedi methu â'u cyrraedd yn gyson. Roedd y gwaith yn cynnwys clywed lleisiau pobl â phrofiad byw yn rhannu storïau oedd yn anghyfforddus ac yn heriol i'w clywed, ond yn hollbwysig i'r broses o sicrhau'r newid sydd ei angen os ydym ni am gyflawni'r amcanion uchelgeisiol a nodir yn ein cynllun.

Roedd yr adroddiadau terfynol a'r gwaith o ddatblygu cyd-gynllun gweithredu gydag Amgueddfa Cymru wrth wraidd ein gwaith yn ystod y flwyddyn. Galwai'r adroddiadau am weithredu sylweddol i ddatblygu a gwella profiadau celfyddydol i bobl fyddar ac anabl, i bobl o gefndiroedd sy'n amrywiol yn ddiwylliannol ac yn ethnig, ac i'r rhai sy'n dioddef amddifadedd cymdeithasol a thlodi. Galwant am weithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â hiliaeth ac ableddiaeth.

Cyhoeddwyd ein cyd-gynllun gweithredu ym mis Chwefror 2022.

Wrth inni gamu i 2021/22 cyhoeddasom benodiad ein Hasiant er Newid, Andrew Ogun. Yn ystod y flwyddyn, mae Andrew wedi bod wrth wraidd y sgysiau, yn fewnol ac yn allanol, a ganolbwyntiodd ar wneud newidiadau i bolisiau a phrosesau a dileu'r rhwystrau sydd wedi atal mynediad teg i ni ac i'n gwaith.

Effeithiwyd ar sector y celfyddydau a'r gymdeithas ehangach gan Covid-19 eto eleni, ac unwaith yn rhagor, canolbwyntiasom ar gefnogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol wrth iddynt wynebu heriau ailymddangos er mwyn creu a rhannu gwaith gyda chynulleidfaoedd. Roedd trafodaethau'r Pwyllgor yn glir: ni ddylai gwersi'r ddwy flynedd ddiwethaf fynd ar goll wrth inni ailymweld â'n cynllun cydraddoldeb a'i ail-fynegi wrth symud ymlaen. Roedd yr ymgyrch #WeShallNotBeRemoved wedi nodi'n gwbl eglur yr effaith a gafodd y pandemig ar bobl anabl.



“Parhaodd y celfyddydau yng Nghymru i wynebu heriau enfawr o ganlyniad i Covid-19 yn 2021/22 ac, fel yn y flwyddyn flaenorol, ein cymunedau sydd ar y cyrion a welodd yr effaith fwyaf. Hefyd, wrth i'r gwaith Ehangu Ymgysylltiad ddirwyn i ben, roeddem yn wynebu heriau sylweddol ac roedd yn galw arnom i barhau i fyfyrion ddwys ar y gwaith yr ydym wedi'i gyflawni i symud yr agenda cydraddoldebau ymlaen. Mae cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad yn cynrychioli moment dyngedfennol inni ac, wrth i hwn chwarae rhan ganolog yng ngwaith y Pwyllgor hwn yn y dyfodol, mae gen i hyder ein bod ni'n wirioneddol ar lwybr tuag at newid.”

Devinda De Silva

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol

Mae'r gweithgareddau a gyflawnodd y Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol yn ystod 2021/22 yn cynnwys:

1. adolygu blwyddyn gyntaf ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-24**, gan werthuso effaith y camau gweithredu a chanfod set newydd o gamau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ffocws penodol sy'n dod i'r amlwg o'r trafodaethau hyn yw mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan bobl sy'n byw mewn tldi
2. cyhoeddi **Cyd-gynllun gweithredu Ehangu Ymgysylltiad** gydag Amgueddfa Cymru
3. parhau i fonitro ble mae ein harian wedi cyrraedd. Unwaith yn rhagor, mae data wedi dangos cynnydd yn nifer y ceisiadau llwyddiannus am arian, yn enwedig i'n **Cynllun Cysylltu a Ffynnu** newydd, oddi wrth sefydliadau a arweinir gan artistiaid ag anableddeu a'r rhai a arweinir gan artistiaid o gefndiroedd sy'n amrywiol yn ddiwylliannol ac yn ethnig
4. gwerthuso ac adolygu ein **prosesau ariannu**, er mwyn llywio dulliau newydd o gyrraedd artistiaid a sefydliadau celfyddydol sydd wedi wynebu rhwystrau yn draddodiadol
5. parhau i gynorthwyo sefydliadau ar eu taith datblygu busnes, trwy ein cynllun **Camau Creadigol** a bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu edefyn ar gyfer artistiaid a gweithwyr creadigol unigol
6. gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Celfyddydol eraill y DU i archwilio cynllun Cerdyn Mynediad i'r Celfyddydau i'r DU-gyfan, yn seiliedig ar ein cynllun hynod llwyddiannus sef **Hynt**

Penododd y Cyngor Devinda De Silva yn Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

Cyfarfu'r Pwyllgor 3 gwaith yn ystod 2021/22 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 12 o weithiau allan o 21 posibl.

# Y Gymraeg



“Dywedir yn aml, ‘mae’r Gymraeg yn drysor’. Ond nid yw’n rhywbeth i’w gloi i ffwrdd a’i arddangos o bell. Rhaid i’r iaith fod yn hoff degan inni hefyd, yn rhywbeth i’w dal, ei theimlo a’i chario gyda ni i bobman. Felly rhan o waith y Cyngor yw creu cyfleoedd i artistiaid o bob cefndir fod yn greadigol trwy gyfrwng y Gymraeg a rhoi i bobl ledled Cymru a’r byd y cyfle i fwynhau creadigrwydd yr iaith Gymraeg.”

Tudur Hallam

Cadeirydd Pwyllgor y Gymraeg

A ninnau’n sefydliad dwyieithog, mae ein hymrwymiad i’r Gymraeg yn rhan annatod o’n gwaith. Rydym yn hybu’n frwd hawl pobl i ymchwilio i’w diwylliant eu hunain a’u creadigrwydd eu hunain drwy eu dewis iaith, boed fel defnyddiwr, cyfranogwr neu artist, ac wedi ymrwymo i archwilio posibiliadau creadigol i’r dyfodol trwy lens y Gymraeg.

Yn ei strategaeth, Cymraeg 2050, mae Llywodraeth Cymru’n nodi mai ei tharged hirdymor yw sicrhau un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym ni’n credu y gallwn, wrth weithio drwy’r celfyddydau, gynorthwyo Llywodraeth Cymru i wireddu ei themâu strategol yn hyn o beth, yn arbennig mewn perthynas â’r canlynol:

- cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg
- creu amodau ffafriol yn sector y celfyddydau i’r iaith ffynnu.

Mae'r gweithgareddau a gyflawnodd Pwyllgor y Gymraeg yn ystod 2021/22 yn cynnwys y canlynol:

1. monitro **cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor o ran y Gymraeg**, gan nodi i'r Cyngor ble mae angen mwy o gynnydd
2. sicrhau y rhoddir **Safonau'r Gymraeg** ar waith, a'u cynnal, yn llwyddiannus, a gweithredu pan na fydd y Safonau wedi'u bodloni.
3. datblygu disgrifiad swydd a chyfrannu at y broses o benodi **Ysgogwr y Gymraeg** ac, ynghyd â Chyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau, cefnogi ei gwaith i'n helpu ni i baratoi strategaeth Gymraeg newydd i Gyngor y Celfyddydau
4. darparu aelodau panel mewn perthynas â recriwtio i swyddi uwch Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau a Rheolwr Portffolio
5. ynghyd ag eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, archwilio ffyrdd o ddatblygu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith priodol a chysiau rhagfarn ddjarwybod mewn perthynas â'r Gymraeg
6. darparu cyngor perthnasol mewn perthynas â'r Adolygiad Buddsoddi nesaf
7. datblygu ymhellach y bartneriaeth â'r **Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol** i wella neu fireinio sgiliau iaith staff ac artistiaid yn sector y celfyddydau, gan gynnwys partneru â **Theatr Genedlaethol Cymru** ar ail gwrs Iaith Gwaith
8. gwneud cynnydd o ran gweithredu 7 o'r 10 argymhelliad a nodir yn **Adroddiad Mapio'r Gymraeg**, trwy lunio a chomisiynu ymchwil i bennu'r anghenion a chyfleoedd ar gyfer llwybrau datblygiad Cymraeg yn celfyddydau i weithwyr creadigol, a chreu'r Consortïwm Celfyddydau Cymraeg cyntaf
9. gwahodd sefydliadau Cymraeg fel Urdd Gobaith Cymru i siarad â Phwyllgor y Gymraeg am eu gwaith

Penododd y Cyngor Tudur Hallam yn Gadeirydd Pwyllgor y Gymraeg o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

Cyfarfu'r Pwyllgor 4 gwaith yn ystod 2021/22 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 7 o weithiau allan o 8 posibl.

# Cenedlaethau'r Dyfodol



“Nod ein gwaith yn 2021/22 oedd sicrhau bod y Cyngor yn parhau i symud tuag at y weledigaeth a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef Cymru deg, ffyniannus a chynaliadwy, sy'n gwella ansawdd bywyd pobl yn ei holl gymunedau. Bu'n hanfodol inni sicrhau ein bod ni'n parhau i symud ymlaen yn sgil y pandemig.

“Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi edrych ar Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol i lywio ein gwaith ar Gynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad, ac i lywio ein prosesau monitro ac asesu yn y dyfodol wrth inni gynllunio ar gyfer Cynllun Strategol ac Adolygiad Buddsoddi nesaf y Cyngor. Rydym yn parhau i greu mudiad dros newid drwy blaenoriaethu cynnwys ac ymgysylltu â'r amrywiaeth fwyaf o bartneriaid a'r cyhoedd yn y broses hon. Hefyd, rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar gynaliadwyedd amgylcheddol, yn dilyn COP26 a'r ffocws ar fynd i'r afael ag anghyfiawnder hinsawdd a'r argyfwng natur.”

Lhosa Daly

Cadeirydd Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ddeddf o bwys sydd â'r nod o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n un o'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf sy'n gorfod cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Mae'r Ddeddf wedi bod yn sail i'n cenhadaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn ymdrechu i gyflawni ein gwaith mewn ffordd gynaliadwy, gan ystyried yr effaith mae ein gwaith yn ei chael ar bobl sy'n byw, yn profi ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru – yn awr ac yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi coleddu egwyddor y Ddeddf ac yn ei hystyried yn gyfle hollbwysig i gyfrannu fel sector celfyddydol at y 7 Nod Llesiant. Drwy ddefnyddio dull gweithredu cyfannol gallwn ddod â chreadigrwydd a dychymyg i lawer o agweddau ar fywyd cyhoeddus er budd pawb.



Mae'r gweithgareddau a gyflawnodd y Pwyllgor yn ystod 2021/22 yn cynnwys y canlynol:

1. parhau i wreiddio **Pum Ffordd o Weithio** Cenedlaethau'r Dyfodol (Cynnwys, Cydweithio, Atal, Integreiddio, Hirdymor) yn ein polisiau a'n strategaethau ac yn y ffordd y gwnawn ein gwaith.
2. trafod ystyriaethau Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â'r gwaith sydd ar y gweill i ddatblygu'r **Cynllun Strategol a'r Adolygiad Buddsoddi**, gan ganolbwyntio'n benodol ar adolygu targedau amgylcheddol sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru
3. dysgu o waith sefydliadau eraill, a Creative Carbon Scotland yn benodol, a'i waith i ddatblygu'r **dull sgaffaldio i gynorthwyo sefydliadau a ariennir** i fod yn gynaliadwy yn amgylcheddol
4. monitro'r gwaith o ddatblygu'r **fframwaith gwerthuso** er mwyn gwneud cynnydd ar a gwerthuso effaith gwaith Cyngor y Celfyddydau yn erbyn 7 nod llesiant y Ddeddf
5. adolygu a diweddarau adroddiadau a chynlluniau gweithredu gan gynnwys **Adroddiad Blynyddol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2020-21, Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad, a Chynllun Gweithredu Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol 2021-23**
6. sicrhau ein bod yn cadw ein **Hachrediad Draig Werdd Lefel 5** am gynaliadwyedd amgylcheddol
7. lleihau ein hól troed carbon yn sylweddol trwy ddefnyddio ein **seilwaith technoleg gwybodaeth** a'n galluogodd i weithredu o bell drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud

Cyfarfu'r Pwyllgor 9 gwaith yn ystod 2021/22 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 18 o weithiau allan o 27 posibl.

# Perfformiad amgylcheddol

Rydym yn hybu lleihau gwastraff cymaint ag sy'n bosibl ymhlith ein staff drwy eu hannog i leihau, aildefnyddio ac ailgylchu a didoli gwastraff, gan leihau'r hyn a anfonir i safleoedd tirlenwi.


| <b>GWASTRAFF</b><br><b>Anariannol (tunelli)</b> | <b>2021/22</b> | <b>2020/21</b> |
|---|----------------|----------------|
| Tirlenwi  | 0              | 0.001          |
| Aildefnyddiwyd/ailgylchwyd                      | 0              | 0.009          |

Rydym yn aildefnyddio neu'n ailgylchu ein hoffer TG a swyddfa sy'n ddiangen neu'n rhy hen i'w defnyddio. Rydym yn defnyddio sefydliadau trwyddedig a phriodol i waredu ein gwastraff. Yn ystod 2021/22, pan oedd ein swyddfeydd ar gau o hyd i'r cyhoedd, ataliwyd y casgliadau gwastraff.

Mae gan bob un o'n prif gyflenwyr cyfarpar a chyflenwadau swyddfa bolisiâu a systemau adrodd amgylcheddol ar waith, ac rydym yn ystyried perfformiad ac ymwybyddiaeth amgylcheddol wrth ddethol contractwyr a chyflenwyr.

Rhoddir adroddiadau misol i'n rheolwyr a'n staff, yn dadansoddi gweithgarwch argraffu a chopïo, er mwyn eu hannog i leihau eu defnydd yn gyffredinol. Mae ein systemau adrodd mewnol yn ei gwneud yn bosibl inni gofnodi a mesur manylion ein defnydd o nwyddau traul, gwastraff, ynni a theithio gan ein staff, ac felly ein hallyriadau cyfwerth o garbon deuocsid (CO<sub>2</sub>e) er mwyn i'n staff reoli eu defnydd o adnoddau.

### Allyriadau CO<sub>2</sub>e (tunelli) – tuedd 5 mlynedd



| YNNI <sup>1</sup>  | 2021/22 | 2020/21 |
|--|---------|---------|
| <b>Allyriadau nwyon tŷ gwydr =(tunelli CO<sub>2</sub>e)</b>  |         |         |
| Allyriadau gros, cwmpas 2 a 3 (anuniongyrchol)   | 18      | 17      |
| <b>Defnydd ynni (kWh)</b>  |         |         |
| Trydan (adnewyddadwy)  | 68,809  | 59,193  |
| Nwy  | 9,068   | 9,247   |
| <b>Dangosyddion ariannol (£)</b>   |         |         |
| Gwariant – ynni  | 11,608  | 10,049  |
| Costau cyflenwi dŵr (ystâd swyddfeydd) – methu asesu ar hyn o bryd, wedi’u cynnwys yn y tâl gwasanaeth | N/A     | N/A     |

<sup>1</sup> Swyddfeydd yn unig. Nid yw effaith gweithio gartref wedi’i phennu

Mae pob un o'n tair swyddfa wedi'u lesio mewn adeiladau sy'n cael ei rhannu ag eraill, gyda rhai costau wedi'u cynnwys yn ein taliadau gwasanaeth. Mae hyn yn cyfyngu ar ein gallu i asesu'n gywir ein holl effaith amgylcheddol o'r defnydd o ynni. Yn ein swyddfa yng Nghaerdydd y defnyddiwn drydan fwyaf ac mae'r landlord wedi cadarnhau y daw 100% o'r cyflenwad o ffynonellau adnewyddadwy naturiol dilysadwy (gwynt, dŵr a hydro).

Rydym yn hyrwyddo defnyddio ffyrdd amgylcheddol-gyfeillgar o deithio, ac yn annog ein staff i deithio yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl, gan roi ystyriaeth i ffactorau amgylcheddol ac ariannol. Mae'n rhaid inni gydbwysu hyn yn erbyn y gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau strategol i ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru, ac i hyrwyddo celfyddydau ac artistiaid Cymru'n rhyngwladol. Hyd nes y pandemig ac wedi hynny, mae hyn yn dal i fod yn her ymarferol sylweddol. Mae amrywiadau anochel yn lefel yr allyriadau CO<sub>2</sub>e y gellir eu priodoli i deithio pan fyddwn yn cymryd rhan mewn prosiectau rhyngwladol.

Yn y byd ar ôl Brexit, bydd y farchnad ryngwladol yn fwyfwy pwysig ond rydym yn mynd ati i leihau'r effaith amgylcheddol a byddwn yn parhau i wneud hynny pan fydd ein gweithrediadau'n mynd yn ôl i lefelau mwy arferol.

| TEITHIO STAFF   | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---------|---------|
| <b>Allyriadau teithio (tunelli CO<sub>2</sub>e)<sup>1</sup></b> |         |         |
| Trenau  | 1       | 0       |
| Awyrennau <sup>2</sup>  | 1       | 0       |
| Ceir/faniau   | 4       | 0       |
| <b>Costau teithio (£)</b>                                       |         |         |
| Trenau  | 2,919   | 8       |
| Awyrennau   | 609     | 0       |
| Ceir/faniau   | 6,365   | 635     |
| <b>Teithio (milltiroedd)</b>                                    |         |         |
| Trenau  | 10,013  | 24      |
| Awyrennau   | 3,133   | 0       |
| Ceir/faniau   | 14,144  | 1,410   |

<sup>1</sup> Roedd yr allyriadau CO<sub>2</sub>e oedd yn gysylltiedig â'r nifer gyfyngedig iawn o deithiau a wnaed gan staff yn ystod 2020/21 yn llai nag 1 dunnell ar gyfer pob math o drafnidiaeth.

<sup>2</sup> Yn cynnwys dylanwad y newid yn y cydbwysedd ymbelydrol mewn allyriadau teithio mewn awyren i gofnodi'r effaith fwyaf ar yr hinsawdd. Mae'r newid yn y cydbwysedd ymbelydrol yn fesur o effaith amgylcheddol allyriadau NO<sub>x</sub> (ocsidau nitrus) ac anwedd dŵr o'u hallyrru ar uchder mawr.



Nnane Ntube, 'Talk to  
Coco', Watch Africa Cymru  
– Crossroads of Cultures,  
Cymru-Cameroon

# Y prif risgiau ac ansicrwydd

## Rheoli ein busnes yn effeithiol

A ninnau'n stiwardiaid arian cyhoeddus rhaid inni weithredu mewn modd effeithlon ac atebol. Mae'r Cyngor yn cytuno ar ein blaenoriaethau a phenderfyniadau ariannu yn unol â'r polisiâu a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'n defnydd o arian cyhoeddus. Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymïadau hyn, gan wneud hynny mewn ffyrdd sy'n dryloyw ac yn atebol ac sy'n rhoi gwerth am arian. Mae rhaglen helaeth o waith archwilio mewnol yn ein cynorthwyo gyda'r gwaith hwn.

## Diogelu arian y cyhoedd

Rhan bwysig o waith y Pwyllgor fu adolygu ein hamddiffynfeydd yn erbyn Twyll a Seiberdroseidd. Mae ceisiadau i gael mynediad yn anghyfreithlon i'n harian a'n systemau TGCh yn digwydd yn rheolaidd. Mae'r Cyngor yn cymryd y materion hyn o ddifrif ac mae'r Pwyllgor wedi edrych yn ofalus ar ein polisiâu a'n prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ac yn ddiogel. Ni chafwyd unrhyw ymosodiadau llwyddiannus yn ystod y flwyddyn.

*Draenen Ddu,  
Theatr Bara Caws*



## Cymryd risgiau: dull cytbwys

Mynediad anawdurdodedig i'n systemau yw un yn unig o amrywiaeth o risgiau posibl a allai beryglu ein perfformiad a'n henw da. Disgwyliwn i'r sefydliadau a ariannwn fod wedi'u rheoli'n dda ac iddynt roi gwerth da am arian. Mae ein gwaith monitro parhaus yn asesu i ba raddau mae hyn yn digwydd. Ond rhaid inni beidio â mynd mor ofnus o risg nes ein bod yn anwybyddu cyfleoedd pwysig i arloesi a thyfu. Ein nod yw cymryd risgiau priodol, ond yn wybodus, yn ôl yr amgylchiadau. Serch hynny, ni fyddem yn ymddwyn yn ddi-hid; ni fyddem chwaith yn gwario arian cyhoeddus yn wastraffus nac yn peryglu ein henw da am gyflenwi mewn modd call ac effeithiol.

Mae ein systemau rheolaeth fewnol yn nodi ac yn blaenoriaethu'r risgiau a allai ein hatal rhag cyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Cyngor. Maent yn gwerthuso'r tebygolrwydd y gwireddir y risgiau, yn ystyried eu heffaith pe digwyddent ac yn ceisio eu rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rydym yn ceisio gwella ein systemau rheolaeth fewnol o hyd.

Parhaodd y Pwyllgor i adolygu pa mor drylwyr ac addas yw'r agwedd hon ar waith y Cyngor. Craffwyd ar y Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol a'r **Gofrestr Risgiau Gorfforaethol** ar wahân yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Cafodd cofrestr risgiau ychwanegol ei chreu i gofnodi risgiau ledled y sefydliad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r pandemig Covid-19. Rhoddodd hyn fwy o eglurder i'r aelodau am y lefelau sicrwydd sydd ar waith ar draws holl weithgareddau'r Cyngor ac unrhyw risgiau cyfatebol a ganfyddir. Adolygodd y Pwyllgor yr adran Sganio'r Gorwel o'r Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol ym mhob un o'i gyfarfodydd.

## Risg ariannol a rheoli cyfalaf

Deil y Cyngor offerynnau ariannol yn bennaf i gyllido ei weithrediadau, er enghraifft, dyledwyr a chredydwyr masnachol a balansau arian sy'n deillio'n uniongyrchol o'i weithrediadau. Gwneir y gwaith o reoli risgiau ariannol sy'n deillio o fasnachu offerynnau ariannol, dyledwyr a chredydwyr masnachol yn bennaf, drwy gyfres o bolisiau a gweithdrefnau.

Caiff y risgiau eu rheoli fel a ganlyn:

- **Risg twyll** – mae Cyngor y Celfyddydau, fel y rhan fwyaf o sefydliadau eraill, yn agored i risg twyll ar raddfa gynyddol a mwyfwy soffistigedig. Nodasom y potensial am fwy o risg twyll o gofio'r sefyllfa bresennol gyda Covid-19 a diweddarasom ein rheolaethau a gwiriadau gwrth-dwyll mewnol mewn ymateb i hyn.
- **Risg hylifedd** – mae'r Cyngor yn fodlon fod ganddo adnoddau hylifedd digonol, ar ffurf arian yn y banc ac arian y cytunwyd arno ar gyfer 2021/22, i fodloni pob ymrwymiad cyfredol a gontractiwyd. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau yn agored i unrhyw risg sylweddol o ran hylifedd.
- **Risg cyfraddau llog** – delir balansau arian a chyfwerth ag arian mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol sy'n caniatáu cael yr arian ar unrhyw adeg. Ar gyfartaledd 0.02% oedd y gyfradd llog yn y flwyddyn (2020/21: 0.15%).

Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau yn agored i risgiau sylweddol o ran cyfraddau llog.

- **Risg arian tramor** – nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran cyfnewid arian tramor.
- **Risg llif arian** – nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran llif arian.
- **Risg credyd** – nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risg sylweddol o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o'r dyledwyr yn gysylltiedig ag incwm gan Lywodraeth Cymru.



## Y risgiau i'n perfformiad: y risgiau a sut yr ydym yn ymdrin â nhw

| Prif risgiau   | Camau lliniaru allweddol   |
|--|--|
| <p><b>Coronafeirws</b></p> <p>Staff yn dal y feirws yn golygu nad oes modd i Gyngor y Celfyddydau / timau / gwasanaethau weithredu</p> <p>Covid-19 yn cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar y sector gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• artistiaid a gweithwyr unigol llawrydd</li> <li>• sefydliadau/ Portffolio Celfyddydol Cymru</li> </ul> | <p>Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi parhau i weithio gartref am ran sylweddol o'r flwyddyn. Fodd bynnag, mae trefniadau bellach ar y gweill i staff ddychwelyd i'r swyddfa ar drefniant hybrid yn dilyn symud i Rybudd Lefel 0 a chodi'r cyfyngiadau symud. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro iechyd a lles y staff a chyngor Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae darparu ail a thrydydd cylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, wedi helpu i gynnal sefydliadau hyd nes y gallant ailafael mewn gweithgarwch hygyrch i'r cyhoedd ar y lefelau a welwyd cyn y pandemig. Ochr yn ochr â'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, cyflwynwyd y Contract Diwylliannol a luniwyd i annog sefydliadau i fabwysiadu ymrwymadau newydd sy'n sicrhau y caiff buddsoddiad cyhoeddus ei ddefnyddio gyda diben cymdeithasol. Rydym yn arwain ar ddatblygu'r gwaith hwn ar ran Llywodraeth Cymru.</p> <p>Gwnaethom groesawu'r cynnydd mewn cyllid ar gyfer 2022/23 a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru yn ei gyhoeddiad am y Gyllideb ym mis Rhagfyr 2021 ac eto yn Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth. Cytunodd y Cyngor i basio'r cynnydd 1.5% ymlaen at sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru yn 2022/23 i helpu i'w cynnal yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.</p> <p>Datblygwyd nifer o raglenni Loteri newydd. Lansiodd 'Cysylltu a Ffynnu' er mwyn annog cydweithrediadau rhwng sefydliadau a gweithwyr llawrydd a 'Chreu' i ariannu'r gwaith o ddatblygu a chreu profiadau celfyddydol o ansawdd da sy'n helpu unigolion a sefydliadau i ymgysylltu a chysylltu â'r cyhoedd.</p> <p>Cynaliasom werthusiad Sicrwydd Sefydlogrwydd o holl sefydliadau'r Portffolio. Hefyd, cawsom drafodaethau gyda grwpiau ffocws allanol a datblygasom Gynllun Cyfathrebu ar gyfer ein Hadolygiad Buddsoddi a aildrefnwyd.</p> <p>Diwygiasom adnoddau Dysgu Creadigol i ystyried cyfyngiadau Covid-19 ac edrychasom ar gydweithrediadau pellach â phartneriaid allanol (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru) yn sgil effaith y pandemig.</p> |

| Prif risgiau   | Camau lluniaru allweddol   |
|--|--|
| <p><b>Llywodraethu</b></p> <p>Arweinia adnoddau annigonol a/neu reoli gwael at fethiant sylweddol i gyflawni'r amcanion allweddol mewn cynlluniau corfforaethol a gweithredol</p>  | <p>Sefydlwyd trefniadau dros dro gennym yn dilyn lleihau nifer aelodau'r Uwch Tîm Rheoli.</p> <p>Cafodd y 7 aelod o'r Cyngor yr oedd tymor cyntaf eu swyddi wedi dod i ben eu hailbenodi am dymor arall.</p> <p>Mae'r amcanion allweddol wedi'u diffinio'n glir. Defnyddiwn ddisgyblaethau rheoli prosiectau i gynorthwyo swyddogion y Cyngor i gyflawni eu gwaith. Cyflwynir adroddiad cynnydd ffurfiol i'r Cyngor bob chwarter. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn sail i'r Cyfarfodydd Monitro Chwarterol rhwng uwch tîm arwain y Cyngor a swyddogion Llywodraeth Cymru..</p>   |
| <p><b>Cynllunio, strategaeth a chyflawni</b></p> <p>Mae gwybodaeth wael yn peryglu ansawdd gwaith penderfynu'r Cyngor, yn enwedig os yw'r pandemig wedi tarfu ar fusnes a gweithrediadau</p>   | <p>Diwygiwyd ein strategaeth ymchwil i roi ystyriaeth i effaith Covid-19 ar y sector, a chyfyngiadau ôl-Covid. Yn y cyfamser, roeddem yn adolygu'r trefniadau presennol yn barhaus ac yn ystyried cynlluniau wrth gefn priodol.</p> <p>Aildrefnwyd ein Hadolygiad Buddsoddi nesaf, a fydd yn cynnwys ymgysylltu'n ehangach â'r cyhoedd a'r sector i fynd i'r afael â'r meysydd hynny nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd. Bydd amcanion yr Adolygiad yn cyd-fynd â'n hamcanion siartredig ac elusennol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Gwnaethom ehangu ein cohort o Gydweithwyr Celfyddydol er mwyn cynnwys arbenigedd a phrofiad ychwanegol ac ehangach. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol sef cydraddoldebau a chydnerthedd, gan ehangu'r gwaith o ymgysylltu â meysydd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd. Gwnaethom ymgysylltu â nhw mewn llawer o weithgareddau, gan gynnwys rhoi grantiau, datblygu arian loteri, yr Adolygiad Buddsoddi, cydraddoldebau a strategaethau'r dyfodol.</p> |
| <p><b>Ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid</b></p> <p>Mae toriadau i gyllid a newidiadau i strwythurau awdurdodau lleol wedi cael effaith sylweddol ar ein partneriaethau a pherthnasoedd ariannu</p> <p>Rydym yn methu â chydabod gwerth ein perthnasoedd a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu</p> | <p>Cafodd y sefyllfa ei monitro'n agos. Rhoddwyd ystyriaeth reolaidd i adroddiadau ar doriadau posibl/tebygol i gyllid a newidiadau arfaethedig gan Awdurdodau Lleol</p> <p>Er mwyn helpu i gyflawni amcanioWn, cynyddasom nifer ein partneriaethau ffurfiol â rhanddeiliaid allanol.</p> <p>Cynyddasom y gwaith ymgysylltu â grwpiau targededig oedd heb gynrychiolaeth ddigonol.</p>   |

| Prif risgiau  | Camau lliniaru allweddol   |
|---|--|
| <p><b>Cyllid</b></p> <p>Gallai methiant un neu ragor o'n sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru neu doriadau i gyllid sector cyhoeddus niweidio'r celfyddydau ledled Cymru</p>  | <p>Grantiau craidd i sefydliadau'r Portffolio yw'r rhan fwyaf o'n cyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Cafodd effeithiolrwydd artistig, ariannol a gweithredol y Portffolio ei fonitro'n agos gan swyddogion. Cyflwynwyd diweddariadau rheolaidd ar iechyd, llywodraethu a sefydlogrwydd ariannol y sefydliadau i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac i'r Cyngor. Pan fo angen, mae gennym ymagwedd ragweithiol at weithio'n uniongyrchol gyda sefydliadau sy'n cael anhawster, gan fuddsoddi amser ac arbenigedd i'w helpu nhw i ddatrys materion sy'n destun pryder.</p> <p>Gwnaethom barhau i sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl yn ein costau rhedeg ein hunain er mwyn helpu i sicrhau bod cymaint o arian ag sy'n bosibl ar gael ar gyfer gwariant uniongyrchol ar y celfyddydau.</p> <p>Y meysydd risg allweddol yw effaith ariannol Covid-19 a'r gostyngiadau parhaus yn arian awdurdodau lleol i'r celfyddydau. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, ein partneriaid sy'n awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill i edrych ar strategaethau gwahanol i ddiogelu'r gefnogaeth i weithgarwch creadigol.</p> |
| <p><b>Rheoli grantiau</b></p> <p>Golyga ceisiadau gwael neu dwyllodrus am gyllid na ddefnyddir cyllid cyhoeddus at y dibenion a fwriedir</p> <p>Mae cyflwyno system newydd o reoli grantiau'n peryglu gallu'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau hollbwysig</p> | <p>Defnyddiwn ddull seiliedig ar risg i asesu'r ceisiadau ac i fonitro'r grantiau a ddyfernir. Defnyddiwn wybodaeth a gesglir oddi wrth y rhai sy'n cael grantiau fel rhan o'n gweithdrefnau monitro er mwyn sicrhau y cafodd y canlyniadau datganedig y rhoesom gyllid ar eu cyfer eu cyflawni.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cymryd twyll, llygredigaeth a chamweinyddu o ddifrif, ac mae ganddo bolisiau i'w hatal rhag digwydd ac i ymdrin â nhw, gan gynnwys polisiau chwythu'r chwiban a gwrth-dwyll.</p> <p>Cafodd y prosiect i ddisodli ein system rheoli grantiau ei fonitro'n agos. Caeodd Cam 1 ym mis Rhagfyr 2021 a chynhaliwyd ymarfer gwerthuso wedyn er mwyn llywio Cam 2. Cyflawnasom Gylch 3 y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn llwyddiannus trwy'r porth grantiau newydd, ochr yn ochr â'n rhaglen gylchol o grantiau Loteri.</p>   |
| <p><b>Brexit</b></p> <p>Caiff yr ansicrwydd parhaus ynghylch amgylchiadau ôl-Brexit effaith niweidiol ar weithrediad y sefydliadau a ariannwn ac ar ein hystyriaethau ninnau o ran diogelu data a rhannu data</p>   | <p>Rydym yn parhau i fonitro datblygiadau'n agos.</p> <p>Mae gennym Grŵp Gorchwyl sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Chynghorau Celfyddydau'r Deyrnas Unedig, i nodi risgiau posibl, lobio Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chynnig cyngor i'r sector. Ynghyd â Chynghorau Celfyddydau eraill y DU, rydym wedi lansio Arts InfoPoint i gynnig cymorth a chyngor ar symudedd artistiaid o'r DU i wledydd sy'n aelodau o'r Undeb Ewropeaidd (UE).</p> <p>Diwygiasom ein hystyriaethau diogelu data i adlewyrchu Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR) a chydymffurfio â Chytundeb Digonolrwydd yr UE/DU.</p>  |

| Prif risgiau   | Camau lliniaru allweddol  |
|--|---|
| <p><b>Prosiectau cyfalaf</b></p> <p>Rheolaeth wael o brosiectau Cyfalaf Loteri allweddol yn achosi oedi sy'n gosod beichiau cyllidol ychwanegol ar Gyngor y Celfyddydau</p>  | <p>Rydym yn gweithredu prosesau trylwyr i fonitro prosiectau a rhyddhau taliadau. Mae cytundebau contractiol ar waith sy'n diogelu buddsoddiad Cyngor y Celfyddydau a chaiff cyllid ei dalu yn erbyn hawliadau ardystiedig am waith a gwblhawyd. Mae aseswyr annibynnol arbenigol yn darparu adroddiadau technegol a ddefnyddir i friffio'r Pwyllgor Cyfalaf, a'r Cyngor yn y pen draw.</p>   |
| <p><b>TG</b></p> <p>Toriadau anrhagweledig neu annisgwyl i'r cyflenwad trydan yn peryglu parhad di-dor y busnes</p> <p>Mae achos o dorri ein diogelwch TG</p>  | <p>Mae cynllun Adfer Ar Ôl Trychineb llawn yn bodoli ac yn cael ei brofi pob blwyddyn. Pe bai toriad yn digwydd, mae cyfleusterau TG eraill oddi ar y safle ar gael. Mae ein staff wedi cael yr offer i weithio o bell ac wedi gwneud hynny trwy gydol y pandemig heb unrhyw broblemau sylweddol o ran TG.</p> <p>Cynhelir profion seiberddiogelwch a hacio TG pob blwyddyn. Rydym yn cydymffurfio â safonau diogelwch IASME.</p> <p>Mae gennym drefniadau adrodd ac ymchwilio cadarn ar waith ar gyfer achos o dor diogelwch neu dor diogelwch data.</p> |
| <p><b>Data Personal</b></p> <p>Caiff data personol eu colli, eu peryglu neu eu dwyn</p>  | <p>Mae gan y Cyngor reolaethau a pholisïau ar waith i sicrhau diogelwch a chyfanrwydd data. Mae systemau TG wedi'u hamgryptio'n sicrhau bod diogelwch ffisegol data'n cael ei reoli'n gaeth. Mae staff yn cwblhau sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth yn rheolaidd.</p>  |
| <p><b>Staffio</b></p> <p>Pwysau cyson i dorri costau'n lleihau capasiti'r staff i lefel annerbyniol</p>  | <p>Mae cyflawni rhaglen o weithgarwch sy'n ehangu gyda llai o staff yn destun pryder parhaus i'r Cyngor. Mae gwaith ar y gweill i gyflawni prosiectau sy'n cefnogi ffyrdd newydd o weithio. Caiff y cynnydd yn erbyn cynlluniau ei fonitro'n ofalus a'i adolygu pob chwarter, a gwneir pob ymdrech i roi arferion busnes effeithlon ar waith.</p>   |
| <p><b>Rheoli Risgiau</b></p> <p>Mae ein polisïau a rheolaethau presennol yn methu â'n hamddiffyn rhag gweithgarwch twyllodrus posibl, yn enwedig yn yr amgylchiadau presennol a gyda'r dulliau presennol o weithio</p> | <p>Caiff polisïau rheoli risg y Cyngor eu hadolygu'n rheolaidd. Rydym yn rhannu arferion da gyda Chyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer asesu a monitro ar waith yn ein holl feysydd gweithgarwch er mwyn sicrhau y caiff arian grant ei ddefnyddio at y diben a nodir.</p>  |

| Prif risgiau  | Camau lliniaru allweddol   |
|---|--|
| <p><b>Amgylchedd</b></p> <p>Caiff y strategaeth gyhoeddedig i ddatblygu a hyrwyddo'r celfyddydau yng Nghymru ac yn rhyngwladol effaith niweidiol ar dargedau amgylcheddol y Cyngor</p> <p>Mae ein hól-troed carbon yn tyfu wrth i'r cyfyngiadau symud godi, wrth i'r staff ddychwelyd i'n swyddfeydd a'r gweithgarwch allanol ailddechrau</p> | <p>Mae'n ofynnol i brosiectau a gweithgarwch a gefnogwn yn ariannol trwy geisiadau am grantiau a chaffael ddangos dealltwriaeth neu ddatblygiad o ystyriaethau amgylcheddol.</p> <p>Mae gennym achrediad Draig Werdd lefel 5 ac rydym yn mabwysiadu ystyriaethau gwytnwch Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys ystyriaethau Masnach Deg, argraffu / nwyddau traul, defnydd o ynni ac ailgylchu ledled ein swyddfeydd. Mae ein Polisi Teithio a Chynhaliath wedi'i seilio ar arferion a chyfraddau cytunedig Cyllid a Thollau EM a Llywodraethau.</p> <p>Mae trefniadau gweithio hybrid yn cael eu cyflwyno yn sgil y pandemig. Mae'n annhebygol y bydd yr holl staff yn dychwelyd i'r swyddfa yn barhaol.</p> <p>Byddwn yn parhau i ddefnyddio rhith-gyfarfodydd, lle bo'n briodol, er mwyn arbed teithio ac amser. Rhoddwyd canllawiau i staff ynghylch mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau allanol.</p> <p>Yn y flwyddyn nesaf, yn unol â Rhaglen Lywodraethu a thargedau lleihau carbon Llywodraeth Cymru, byddwn yn canolbwyntio fwyfwy ar ein hól-troed carbon ni ac ôl-troed y gweithgarwch a ariannwn. .</p> |
| <p><b>Cydraddoldeb</b></p> <p>Ychydig o gynnydd neu ddim o gwbl a wnawn mewn perthynas â'n hagenda cydraddoldeb</p>   | <p>Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'n hangenda trwy'r cyd-gynllun gweithredu â chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ni. Yn ogystal, mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, cyhoeddasom adroddiadau ymchwil ar ymgysylltu â'r gymuned oedd yn cynnwys ffactorau cymdeithasol, economaidd, anabledd ac ethnigrwydd. Arweiniodd hyn at gyd-gynllun gweithredu Ehangu Ymgysylltiad.</p> <p>Penodasom Asiant er Newid ar ddechrau'r flwyddyn, ac yn fwy diweddar, Cynorthwydd i'r Asiant, trwy raglen Kickstart.</p> <p>Mae ein Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol yn asesu ein perfformiad yn erbyn ein hymrwymyadau cyhoeddedig ac yn adrodd i'r Cyngor.</p> <p>.</p>   |

# Adolygiad ariannol a busnes

Mae gan y Cyngor ddwy brif ffynhonnell cyllido: cymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru; ac, a ninnau'n un o'r cyrff sy'n gyfrifol am ddsbarthu arian ymhlith achosion da, cyfran o'r arian a godir gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfrifyddu ar wahân am ei weithgareddau cymorth grant a dosbarthu arian y loteri.

## Polisiau rhoi grantiau

Mae'r Cyngor yn gwahodd ceisiadau am grantiau rheolaidd ac untro gan sefydliadau ac unigolion ac yn monitro'r defnydd priodol ac effeithiol o'r grantiau hynny. Yn ogystal â bodloni amcanion strategol y Cyngor, rhaid i geisiadau ddangos budd i bobl Cymru ledled yr holl sectorau rhanbarthol, diwylliannol ac economaidd. Caiff grantiau rheolaidd eu cyllido o gymorth grant yn unig ond gellir cyllido grantiau untro o gymorth grant neu incwm y Loteri. O dan delerau ei Gyfarwyddiadau Polisi Loteri mae'r Cyngor yn rhoi grantiau i gynorthwyo prosiectau cyfalaf ac eraill o dan gynlluniau refeniw sy'n ymwneud â'r celfyddydau yng Nghymru.

Rhoddir grantiau rheolaidd, neu refeniw blynyddol, i bortffolio o sefydliadau i ddarparu gwasanaethau artistig o ansawdd da – **Portffolio Celfyddydol Cymru**. Mae ystyried statws refeniw i unrhyw sefydliad yn dibynnu ar argaeledd cyllid, cynaliadwyedd y sefydliad, a phrawf ei fod yn cydweddu'n gryf â blaenoriaethau strategol y Cyngor. Ar hyn o bryd, mae pob sefydliad refeniw yn ymrwymo i gytundeb cyllido am gyfnod rhwng un a thair blynedd sy'n nodi'r lefel o gyllid a ragwelir, y rhaglen weithgarwch i'w chyflawni, gofynion monitro ac adolygu pob blwyddyn, amodau safonol grant ac unrhyw amodau ychwanegol.

Mae grantiau cyfalaf y Loteri, i sefydliadau yn unig, yn cynorthwyo â phrynu, gwella, adfer, adeiladu neu greu ased a gaiff ei ddefnyddio er budd y cyhoedd i ddatblygu gwaith y sefydliad.

**Mae'r Cyngor yn dirprwyo ei waith rhoi grantiau Loteri** mewn nifer o feysydd strategol i Ffilm Cymru Wales, Nesta, BBC Cymru Wales, Llenyddiaeth Cymru a Thŷ Cerdd. Nodir telerau'r dirprwyo allanol mewn cytundebau ffurfiol a bodlonant amodau Datganiad o Ofynion Ariannol y Cyngor.

Ni newidir rhwymedigaethau Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor gan y dirprwyo. Ond mae wedi'i fodloni ei hun bod y sefydliadau a'u systemau'n addas i gyflawni'r swyddogaethau dirprwyedig, gan gynnwys: asesu ceisiadau am gyllid; dal arian y Loteri a ddyrennir iddynt gan y Cyngor at y diben hwnnw, rhoi cyfrif amdano a'i ddsbarthu; a monitro'r prosiectau a gyllidir.

Mae'r cytundebau dirprwyo yn caniatáu ar gyfer mynediad priodol at y sawl y dirprwyir iddynt gan archwilwyr mewnol y Cyngor a chan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol er mwyn adolygu'r ffordd y gweithredir y swyddogaethau dirprwyedig.

Mae grantiau untro ar gael i helpu i gyllido prosiectau artistig cyfyngedig o ran amser, o ansawdd da, a fodlona flaenoriaethau cyllido'r Cyngor yn y modd gorau. Mae gwaith i fonitro ein rhaglenni grant yn barhaus yn ein rhybuddio am unrhyw broblemau penodol o ran risg. Mae risgiau a nodir yn arwain at godi lefel y monitro ac, os oes angen, yn gallu arwain at beidio â thalu cyllid a/neu ohirio ei dalu.

## **Cronfeydd arian parod wrth gefn – Gweithgareddau Cyffredinol**

Polisi'r Cyngor ar gronfeydd cyfyngedig yw cofnodi ar wahân grantiau, rhoddion a ffynonellau incwm eraill a geir ar gyfer diben neu brosiect penodol, neu lle bo'r cyfyngiadau a osodir yn gulach nag amcanion cyffredinol y Cyngor. Mae'r holl adnoddau hyn a ddaeth i mewn wedi cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn at eu diben bwriadedig.

Neilltuir y rhan fwyaf o gyllid anghyfyngedig y Cyngor yn ystod y flwyddyn, yn unol ag amodau'r cymorth grant a roddir gan Lywodraeth Cymru. Caiff unrhyw arian dros ben ei gario ymlaen a'i ddefnyddio i hyrwyddo amcanion siartredig y Cyngor yn y flwyddyn wedyn. Nid oedd unrhyw arian dynodedig ar 31 Mawrth 2022.

Cyfyngir ar ein gallu i ddal cronfeydd arian parod wrth gefn gan gyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ar hyblygrwydd diwedd mis a diwedd blwyddyn. O fewn y paramedrau hynny, ein polisi yw rheoli llif arian drwy dynnu arian i lawr bob mis i dalu gwariant wedi'i gynllunio, gyda lwfans bach ar gyfer gofynion arian parod tymor byr nas rhagwelwyd. Adolygwn y polisi hwn a'n sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn.

Ar 31 Mawrth 2022 £335,000 oedd y cronfeydd arian parod anghyfyngedig (2021: £0.593m).

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw ac nid oes unrhyw ansicrwydd sylweddol ynghylch ein gallu i barhau i weithredu.

## Buddsoddi

Rheolir pwerau buddsoddi gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000, y Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a'r Cyfarwyddiadau Ariannol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Polisi'r Cyngor yw cael yr elw mwyaf posibl o fewn y telerau hyn. Cawn log ar gyfradd wedi'i negodi cysylltiedig â chyfradd sylfaenol y banc ar bob balans credyd yng nghyfrifon cyfredol y Cyngor. O bryd i'w gilydd, gallai cyfraddau uwch fod ar gael ar gyfer cronfeydd cyfyngedig ar adnau hirdymor.

Darperir gwasanaeth bancio'r Cyngor gan **Santander UK plc**.

Caiff yr holl log ac incwm arall o fuddsoddiadau a enillir ar arian parod a balansau banc sy'n codi o ganlyniad i gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru ei ildio i Drysorlys Ei Mawrhydi drwy Gronfa Gyfunol Cymru.


Erys balansau a ddelir yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, felly, er bod y Cyngor yn cael incwm o fuddsoddiadau ar ei gyfran yntau o'r fath falansau, nid oes gan y Cyngor unrhyw bwerau buddsoddi dros y Gronfa.



## Talu credydwy

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 a Chod Ymarfer Talu Gwell Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n ofynnol i'r Cyngor dalu anfonebau cyflenwyr lle na cheir anghydfod yn eu cylch cyn pen 30 diwrnod ar ôl cael nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Ein nod yw talu'r holl anfonebau, gan gynnwys anfonebau y cafwyd anghydfod yn eu cylch ar ôl i'r anghydfod gael ei ddatrys, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, talodd y Cyngor 99% (2020/21: 99%) o'r holl anfonebau yn unol â thelerau ei bolisi talu.



Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, mae gan y Cyngor nod pellach o dalu anfonebau cyn pen 10 diwrnod. Ar gyfer 2021/22, talwyd 87% (2020/21: 95%) o anfonebau cyn pen 10 diwrnod.

Ni ragwelir y bydd ein polisi'n newid yn y blynyddoedd i ddod a byddwn yn parhau i fabwysiadu targedau perfformiad heriol.

## Canlyniadau ariannol – Gweithgareddau Cyffredinol

|   | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|---|------------------|------------------|
| <b>Penawdau o'r cyfrifon Gweithgareddau<br/>Cyffredinol:</b>  |                  |                  |
| Cyfanswm incwm am y flwyddyn  | 48,000           | 55,281           |
| Gwarged gwariant dros incwm   | (47)             | (374)            |
| Asedau cyfredol net   | 2,382            | 2,432            |
| Cyfanswm y balansau arian ar 31 Mawrth  | 2,419            | 2,466            |
| Blaenymrwymiadau grantiau ar gyfer y<br>flwyddyn wedyn  | 27,484           | 27,082           |
| <b>Dengys y cyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri ar<br/>wahân:</b>   |                  |                  |
| Cyfran y Cyngor o'r derbyniadau o'r Loteri<br>Genedlaethol  | 18,078           | 18,138           |
| <b>Y cyfuniad:</b>  |                  |                  |
| Cyfanswm yr incwm ar gyfer gweithgareddau<br>cyffredinol a Loteri oedd                                  | 66,242           | 73,478           |
| <b>a</b>  |                  |                  |
| Chyfanswm y gwariant elusennol ar y<br>celfyddydau ar gyfer gweithgareddau cyffredinol<br>a Loteri oedd | 70,563           | 67,718           |


Roedd incwm y Cyngor ar gyfer 2021/22 £7.3 miliwn (13%) yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Y prif reswm oedd y swm llai o Gyllid Adferiad Diwylliannol cyfyngedig a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i sefydliadau celfyddydol yn ystod blwyddyn arall a ddiffiniwyd gan y pandemig Covid-19. Eleni cawsom £12.7 miliwn ar gyfer cylchoedd 2 a 3 y Gronfa, o gymharu â £18.3 miliwn ar gyfer y cylch cyntaf yn 2020/21.

Cafwyd gostyngiad net o £47,000 yn y cronfeydd: gostyngodd y cronfeydd anghyfyngedig £629,000 a chynyddodd y cronfeydd cyfyngedig £582,000.

Mae'r gostyngiad yn y cronfeydd anghyfyngedig yn adlewyrchu ein defnydd o gronfeydd wrth gefn o'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r cynnydd yn y cronfeydd cyfyngedig yn gysylltiedig yn bennaf â'r oedi parhaus, anochel, yn y gwaith o gyflawni ein Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, oherwydd y tarfu parhaus a fu ar weithgarwch mewn ysgolion. Mae'r rhaglen wedi cael ei hymestyn am dair blynedd arall, felly bydd yr holl gyllid yn cael ei drosglwyddo i ddatblygiadau yn y dyfodol.

Ar 31 Mawrth 2022 roedd gennym gronfeydd wrth gefn anghyfyngedig o £0.7 miliwn (2021: £1.3 miliwn) a chronfeydd wrth gefn cyfyngedig o £1.8 miliwn (2021: £1.2m). Ceir effaith uniongyrchol ar lefel ein cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig gan bolisi Llywodraeth Cymru ar falansau arian parod diwedd blwyddyn, fel y nodir yn yr adran *Cronfeydd arian parod wrth gefn* uchod. Caniateir i'r Cyngor gario drosodd o'r naill flwyddyn ariannol i'r nesaf ddim mwy na 2% o gyfanswm ei incwm na ddaw o'r Loteri. Roeddem o fewn y cap hwn ar 31 Mawrth 2022 ond roedd £300,000 o gymorth grant arian parod eleni heb ei dynnu a chaiff ei dynnu i lawr yn ystod 2022/23 i dalu rhwymedigaethau a gronwyd yn 2021/22 ac a gynhwysir yn natganiadau ariannol eleni.



*Automa,*  
James Nash / Cwmni  
Theatr Volcano

## Canlyniadau ariannol – Dosbarthu Arian y Loteri

|  | 2021/22<br>£'000  | 2020/21<br>£'000 |
|--|-------------------|------------------|
| <b>Penawdau o gyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri:</b>                                 |                   |                  |
| Cyfran o'r derbyniadau o'r Loteri Genedlaethol                                       | 18,078            | 18,138           |
| Grantiau net a roddwyd<br>(Gwariant)/incwm net am y flwyddyn                         | 20,637<br>(6,165) | 9,827<br>4,382   |
| Balans a ddaliwyd yng Nghronfa Dosbarthu<br>Arian y Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth | 26,165            | 22,121           |
| Cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth   | <b>6,180</b>      | 12,345           |

### Grantiau a broseswyd

|   | 2021/22       | 2020/21       |
|---|---------------|---------------|
| <b>Nifer y ceisiadau a ddaeth i law:</b>      |               |               |
| Cynlluniau cyfalaf                            | 6             | 5             |
| Cronfa Gwytnwch y Celfyddydau (Covid-19)      | -             | 446           |
| Cynlluniau refeniw                            | 766           | 161           |
|   | <b>772</b>    | <b>612</b>    |
| <b>Nifer y grantiau a roddwyd:</b>            | <b>374</b>    | <b>387</b>    |
| <b>Gwerth y grantiau a roddwyd:</b>           | £'000         | £'000         |
| Cynlluniau cyfalaf                            | 5,739         | 1,990         |
| Cronfa Gwytnwch y Celfyddydau (Covid-19)      | -             | 2,994         |
| Cynlluniau refeniw                            | 15,179        | 5,030         |
|   | <b>20,918</b> | <b>10,014</b> |
| <b>Grantiau oedd yn daladwy ar 31 Mawrth:</b> |               |               |
| Cynlluniau cyfalaf                            | 9,143         | 4,643         |
| Cronfa Gwytnwch y Celfyddydau (Covid-19)      | 11            | 244           |
| Cynlluniau refeniw                            | 11,339        | 6,000         |
|   | <b>20,493</b> | <b>10,887</b> |

Roedd ein derbyniadau o'r Loteri Genedlaethol yn fwy na'r hyn a gyllidebwyd yn wreiddiol, yn bennaf oherwydd cynnydd sydyn mewn incwm tua diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'n fanwl y duedd o ran y gyfran o'r derbyniadau a geir gan yr achosion da a'r effaith bosibl ar raglenni a ariennir gan y Loteri yn y dyfodol.

Mae neilltuo cyllid ar gyfer ein rhaglen Cyfalaf barhaus a chynnydd gwaith datblygu'r prosiectau allweddol hynny yn dal i gael effaith ar ein llif arian blynyddol. Neilltuodd y Cyngor £22 miliwn ar gyfer y rhaglen yn 2012/13 am gyfnod o bum mlynedd. Fodd bynnag, mae nifer o brosiectau blaenoriaeth yn dal i gael eu datblygu ac mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn bwysig dangos ymrwymiad iddyn nhw, ac arianwyr eraill, trwy adael y cynigion cyllido dangosol yn eu lle. Felly mae ein dyraniad yn y gyllideb cyfalaf sy'n weddill gwerth oddeutu £1.8 miliwn wedi'i drosglwyddo i 2022/23.

Yn y flwyddyn ariannol flaenorol, 2020/21, cafodd y pandemig effaith ddifrifol ar ein gallu i roi cyllid y Loteri ac adroddasom tanwariant sylweddol. Cafodd gweithgarwch celfyddydol a ariennir fel arfer gan dderbyniadau o'r Loteri Genedlaethol ei gwtogi gan effaith y cyfyngiadau symud a chadw pellter cymdeithasol, felly newidiasom defnydd cyllid i gefnogi ein Cronfeydd Ymateb Brys a Sefydlogi. Eleni rhoesom fwy o grantiau trwy ein cynlluniau Cysylltu a Ffynnu a Creu, sy'n cynnig ffordd newydd o feddwl yn y sector sy'n canolbwyntio ar weithio cydweithredol. Hefyd, dyfarnasom grant cyfalaf gwerth £5 miliwn i'r gwaith o ailddatblygu Theatr Clwyd. Neilltuwyd y swm gan y Cyngor beth amser yn ôl, yn ychwanegol i'r rhaglen Gyfalaf barhaus, ond mae hwn eto yn brosiect a ohiriwyd gan y pandemig.

O ganlyniad i'r ymrwymadau grant newydd a gohiriedig hyn, mae ein gwariant yn 2021/22 wedi bod £6.2 miliwn yn fwy na'n hincwm yn ystod y flwyddyn, gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd blaenorol.

Ar ddiwedd y flwyddyn £20.493 miliwn oedd cyfanswm y grantiau taladwy (2021: £10.887 miliwn). £27.966 oedd cyfanswm yr arian nas tynnwyd i lawr yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol plws arian parod a chyfwerth ag arian parod (2021: £24.264 miliwn). Cynyddodd ein cyfran ni o'r balansau a ddelir yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol oddeutu 18% o'r flwyddyn ddiwethaf.

# Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff

## Cyfle cyfartal

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i bolisi cyfle cyfartal yn ei arferion cyflogi. Yn benodol, nod y Cyngor yw sicrhau nad yw unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai gwirioneddol yn cael triniaeth fwy neu lai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws o ran priodas neu fod yn rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi **Datganiad Polisi Cyflogau** bob blwyddyn. Mae hwn yn cynnwys dadansoddiad manwl o gyfansoddiad ein staff. Mae hefyd yn rhoi sylw i adrodd ar Gydraddoldeb Rhywiol a Chyflogau Cyfartal.

Mae'r Cyngor yn sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael i gyflogeion anabl. Mae arwyddion cyhoeddus hefyd yn hyrwyddo'r Cyngor fel sefydliad dwyieithog.

## Ein polisiau Adnoddau Dynol

Nod y Cyngor yw bod yn gyflogwr blaengar sy'n ystyriol o deuluoedd. Rydym yn gweithredu nifer o bolisiau Adnoddau Dynol sy'n adlewyrchu ein rhwymedigaethau cyfreithiol fel cyflogwr. Mae polisiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau perthnasol yn y ddeddfwriaeth. Caiff y ffordd y rheolir polisiau Adnoddau Dynol y Cyngor ei monitro gan y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol.

## Cyfathrebu, ymgynghori a negodi â'r cyflogeion

**Unite** yw'r undeb llafur a gydnabyddir gan y Cyngor, ac mae wedi dod i gytundeb gweithdrefnol ag ef; mae cynrychiolwyr y rheolwyr a'r undeb yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion o bryder cyfredol.

Rydym yn cynnal arolygon staff yn rheolaidd er mwyn canfod unrhyw broblemau neu feysydd ar gyfer gwella.

## Cydnabyddiaeth ariannol

Cytunir â Llywodraeth Cymru ar delerau penodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Mae'r Cyngor yn talu gweddill y staff yn unol â system gyflog a graddio y cytunwyd arni.

Gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau caiff y Cadeirydd gydnabyddiaeth ariannol ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu ymroddiad amser lleiaf i fusnes y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi cyngor ar y cynnydd blynyddol yng nghyflog y Cadeirydd ond ni chaiff daliadau bonws ac nid yw'n aelod o gynllun pensiwn Cyngor y Celfyddydau.

Mae cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr yn cynnwys cyflog sylfaenol a chymhwysedd i gael bonws blynyddol. Mae'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol yn argymhell bonysau blynyddol i'r Cyngor ar ôl ystyried perfformiad y Prif Weithredwr yn ôl nifer o amcanion a bennir ymlaen llaw.

Caiff aelodau'r Cyngor eu penodi gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd a gellir eu hailbenodi am gyfnod pellach. Cymerodd y Cadeirydd presennol, Phil George, y gadeiryddiaeth drosodd ar 1 Ebrill 2016. Mae bellach yn cyflawni ei drydydd tymor, a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023.

Caiff y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr – yr Uwch Tîm Arwain – eu cyflogi ar gontractau parhaol yn unol â thelerau ac amodau safonol y Cyngor. Mae hawl ganddynt i gael rhybudd o 13 wythnos o derfynu eu cyflogaeth. Cyflogwyd y Prif Weithredwr dros dro ar gontract dros dro, am gyfnod o chwe mis i ddechrau hyd ddiwedd mis Awst 2022.

Dyddiadau dechrau a therfyn y gyflogaeth yw:



Phil George  
Cadeirydd  
1 Ebrill 2016



Michael Elliott  
Prif Weithredwr dros dro  
7 Mawrth 2022



Nicholas Capaldi  
Prif Weithredwr  
15 Medi 2008 hyd 30 Medi  
2021



Siân Tomos  
Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau o  
1 Chwefror 2012 hyd 5 Medi 2021  
Prif Weithredwr o 6 Medi 2021 ymlaen  
3 Mai 1994 i 19 Tachwedd 2021



Richard Nicholls  
Cyfarwyddwr Gweithrediadau  
28 Medi 2020



Rebecca Nelson  
Cyfarwyddwr Cyllid a  
Gwasanaethau Busnes  
17 Mehefin 2019



Diane Hebb  
Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r  
Celfyddydau o 1 Chwefror 2012  
ymlaen  
13 Ionawr 1992

## Trosiant staff

Ar draws y Cyngor cyfan:

|   | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---------|---------|
| Nifer gyfartalog y cyflogeion (cyfrif pennau) | 86.25   | 81.75   |
| Ymadawyr/Rhai sy'n ymadael                    | 4       | 9       |
| Dechreuwy                                     | 11      | 5       |
| Trosiant cyfartalog                           | 4.64%   | 11.01%  |

Cyfrifir y trosiant cyfartalog fel y ganlyn:

$$\frac{\text{cyfanswm nifer yr ymadawyr yn y flwyddyn}}{\text{cyfanswm cyfartalog y rhai a gyflogwyd yn y flwyddyn}} \times 100$$




## Absenoldeb salwch

Ar draws y Cyngor cyfan

|   | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---------|---------|
| Diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch                   | 532     | 240.5   |
| Nifer gyfartalog y cyflogeion (cyfrif pennau)         | 86.25   | 81.75   |
| Nifer gyfartalog y diwrnodau a gollwyd fesul cyflogai | 6.17    | 2.94    |

Cyfradd absenoldeb o 2.46% yw hon (2020/21: 1.17%) ar sail 250.5 (2020/21: 250.5) o ddyddiau gweithio. Mae hyn yn dychwelyd i lefelau mwy normal ar ôl blwyddyn gyntaf y pandemig lle cafwyd llawer llai o absenoldeb salwch oherwydd y cyfyngiadau symud cenedlaethol.



## Ymhynghoriaeth

Yn ystod 2021/22 ni thalodd y Cyngor unrhyw gostau ymgynghoriaeth (2020/21: £2,000) mewn perthynas â chyngor a barn arbenigol a gafwyd i gynorthwyo â gwneud penderfyniadau strategol. Ni chodir swm (2020/21: £2,000) yn y datganiadau ariannol hyn.

Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor. Roedd eu gwir daliadau a'u buddion pensiwn fel y'u dangosir yn y tablau canlynol.

Mae swm y buddion pensiwn am y flwyddyn sy'n cyfrannu at gyfanswm ffigurau unigol cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei gyfrifo mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth, ac mae wedi'i seilio ar wybodaeth a gafwyd oddi wrth actiwari Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994.

Dyma sut y cyfrifir gwerth buddion pensiwn:

$(\text{gwir gynnydd yn y pensiwn}^* \times 20) + (\text{gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad}) - (\text{cyfraniadau a wnaed gan yr aelod})$

\*gan eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu leihad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid swm yw hwn a dalwyd i unigolyn gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ond cyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn, e.e. newidiadau yng nghyflog rhywun, a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol at y cynllun pensiwn o'i gyflog ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyffredinol.

Cyfanswm ffigurau unigol cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Tîm Arwain (wedi'i archwilio):

| Enw Swydd   | 2021/22 £'000    |                 |   | 2020/21 £'000  |                 |   |
|---|------------------|-----------------|---|----------------|-----------------|---|
|   | Band taliadau    | Buddion pensiwn | Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth ariannol | Band taliadau  | Buddion pensiwn | Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth ariannol |
| Michael Elliott <sup>1</sup><br>Prif Weithredwr dros dro o 7 Mawrth 2022 ymlaen<br>Cyfwerth â blwyddyn llawn                                      | 5-10<br>100-105  | -               | 5-10                                    | N/A            | N/A             | N/A                                     |
| Siân Tomos<br>Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau hyd 5 Medi 2021<br>Prif Weithredwr o 6 Medi 2021 i 19 Tachwedd 2021<br>Cyfwerth â blwyddyn llawn | 50-55<br>90-95   | 55              | 105-110                                 | 75-80          | 32              | 105-110                                 |
| Nicholas Capaldi<br>Prif Weithredwr i 30 Medi 2021<br>Cyfwerth â blwyddyn llawn   | 50-55<br>100-105 | 5               | 55-60                                   | 100-105        | 30              | 130-135                                 |
| Richard Nicholls <sup>2</sup><br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau o 28 Medi 2020<br>Cyfwerth â blwyddyn llawn   | 85-90            | 20              | 105-110                                 | 35-40<br>75-80 | 1               | 40-45                                   |
| Diane Hebb <sup>2</sup><br>Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau   | 85-90            | 72              | 155-160                                 | 75-80          | 26              | 100-105                                 |
| Rebecca Nelson <sup>2</sup><br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes   | 85-90            | 25              | 110-115                                 | 70-75          | 18              | 90-95                                   |

<sup>1</sup> Mae'r Prif Weithredwr dros dro wedi ethol/dewis peidio ag ymuno â chynllun pensiwn. Nid oes unrhyw rheidrwydd i'w gofrestru'n awtomatig.

<sup>2</sup> Mae taliadau 2021/22 yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb ychwanegol gwerth £5,000-£10,000.

Buddion pensiwn yr Uwch Tîm Arwain (wedi'u harchwilio):

|   | 2021/22<br>£'000  | 2021/22<br>£'000  | 2021/22<br>£'000  | 2020/21<br>£'000  | 2021/22<br>£'000  |
|---|---|---|---|---|---|
| <b>Enw</b><br>Swydd   | <b>Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 65 oed</b> | <b>Cyfanswm pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31/03/22, neu ddyddiad ymadael os yw'n gynharach, a chyfandaliad cysylltiedig</b> | <b>Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod<sup>1</sup> ar 31/03/22, neu ddyddiad ymadael os yw'n gynharach</b> | <b>Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/21</b> | <b>Gwir gynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod<sup>2</sup></b> |
| <b>Siân Tomos</b><br>Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau hyd 5 Medi 2021<br>Prif Weithredwr o 6 Medi 2021 i 19 Tachwedd 2021 | Pension 2.5-5<br>Lump sum 7.5-10  | Pension 30-35<br>Lump sum 95-100  | 733   | 633   | 52  |
| <b>Nicholas Capaldi</b><br>Prif Weithredwr i 30 Medi 2021   | Pension 0-2.5<br>Lump sum 0-2.5   | Pension 15-20<br>Lump sum 45-50   | 359   | 338   | 5   |
| <b>Richard Nicholls</b><br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau o 28 Medi 2020  | Pension 0-2.5<br>Lump sum 2.5-5   | Pension 0-5<br>Lump sum 0-5   | 17  | 1   | 11  |
| <b>Diane Hebb</b><br>Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau   | Pension 2.5-5<br>Lump sum 10-12.5                                       | Pension 20-25<br>Lump sum 70-75   | 469   | 421   | 62  |
| <b>Rebecca Nelson</b><br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes   | Pension 0-2.5<br>Lump sum 2.5-5   | Pension 0-5<br>Lump sum 5-10  | 40  | 27  | 12  |

<sup>1</sup> **Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod** – Ystyr Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd gan actiwari. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol a ddelir i'w briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymdrin â'r buddion mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w holl aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i Gynllun Ymdddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnodd yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Gyfadrant Actiwariaid ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawli'r buddion pensiwn.

<sup>2</sup> **Gwir gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod** – Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir, i bob pwrpas, gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiau cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Caiff y Cadeirydd gydnabyddiaeth ariannol am ei wasanaethau ond ni chaiff unrhyw daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn. Nid yw Aelodau eraill o'r Cyngor nac Aelodau o'r Pwyllgorau yn cael unrhyw dâl am eu gwasanaethau. Ad-dalwyd swm crynswth o £185 (2020/21: £16) i 1 (2020/21: 1) aelod o'r Cyngor am gostau teithio a chynhaliaeth yr aed iddynt ar fusnes y Cyngor. Y swm crynswth a ddyrennir i Weithgareddau Cyffredinol oedd £96 (2020/21: £8) ac i weithgareddau Dosbarthu Arian y Loteri £89 (2020/21: £8).

Roedd cyfanswm y gwir daliadau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cynnwys (wedi'u harchwilio):

|   | 2021/22<br>£ | 2020/21<br>£ |
|---|--------------|--------------|
| <b>Cadeirydd</b>  |              |              |
| Cyflog  | 43,810       | 43,810       |
| <b>Prif weithredwyr</b>   |              |              |
| <b>Cyn Brif Weithredwr (hyd 30 Medi 2021) – Nicholas Capaldi</b>              |              |              |
| Cyflog  | 51,548       | 101,830      |
| Cyfraniad pensiwn y cyflogwr  | 10,077       | 21,282       |
|   | 61,625       | 123,112      |
| <b>Cyn Brif Weithredwr (o 6 Medi i 19 Tachwedd 2021) – Siân Tomos</b>         |              |              |
| Cyflog  | 21,751       | -            |
| Cyfraniad pensiwn y cyflogwr  | 4,546        | -            |
|   | 26,297       | -            |
| <b>Prif Weithredwr dros dro Presennol (o 7 Mawrth 2022) – Michael Elliott</b> |              |              |
| Cyflog  | 7,413        | -            |
| <b>Cyfanswm y Prif Weithredwyr</b>  |              |              |
| Cyflog  | 80,712       | 101,830      |
| Cyfraniad pensiwn y cyflogwr  | 14,623       | 21,282       |
|   | 95,335       | 123,112      |

Caiff 66% (2020/21: 67%) o daliadau'r Cadeirydd a 72% (2020/21: 72%) o daliadau'r Prif Weithredwr eu codi ar Weithgareddau Cyffredinol a 34% (2020/21: 33%) o daliadau'r Cadeirydd a 28% (2020/21: 28%) o daliadau'r Prif Weithredwr eu codi ar Ddosbarthu Arian y Loteri.

| Costau teithio a chynhaliaeth yr aed iddynt ac a ad-dalwyd ar fusnes y Cyngor: | 2021/22<br>£ | 2020/21<br>£ |
|--|--------------|--------------|
| Cadeirydd  | £185         | £16          |
| Prif Weithredwr  | £627         | £41          |

Caiff 52% (2020/21: 51%) o dreuliau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr eu codi ar Weithgareddau Cyffredinol a 48% (2020/21: 49%) ar Ddosbarthu Arian y Loteri.

|   | 2022                   | 2021                   |
|---|------------------------|------------------------|
| Dyma ystod y gydnabyddiaeth ariannol flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth (Cyngor cyfan): | £21,064 to<br>£101,830 | £23,419 to<br>£101,830 |

Y Prif Weithredwr yw'r aelod staff sy'n cael y cyflog mwyaf. Ni newidiodd cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr yn ystod y flwyddyn (2020/21: cynnydd o 2.5%). Cafodd y staff cyfan godiad cyflog o 2.75% (2020/21: cynnydd o 2.5%).

| Dyma gydnabyddiaeth ariannol flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) y cyflogeion a'r cymarebau rhwng pob un o'r rhain a chyflog y Prif Weithredwr ar 31 Mawrth (y Cyngor cyfan): |                  |                  |
|---|------------------|------------------|
| Canradd 25  | £30,142<br>1:3.4 | £33,890<br>1:3.0 |
| Canradd canolrifol (50)   | £43,829<br>1:2.3 | £42,656<br>1:2.4 |
| Canradd 75  | £43,829<br>1:2.3 | £52,919<br>1:1.9 |

Dim ond cyflog yw'r gydnabyddiaeth ariannol flynyddol. Ni thalwyd unrhyw fuddion. Mae'r gwahaniaethau rhwng y cymarebau cydnabyddiaeth ariannol ar 31 Mawrth 2022 a 2021 yn adlewyrchu effaith:

- (a) cynnydd yn nifer y staff a gyflogir;
- (b) codiad cyflog i'r holl staff cymwys nad oedd yn gymwys i'r Prif Weithredwr; ac
- (c) ymarfer ailwerthuso swyddi a gafodd ei setlo yn 2020/21.

| Cyfansoddiad y staff ar 31 Mawrth (cyfwerth ag amser llawn - y Cyngor gyfan) | 2022      |           |           | 2021      |           |           |
|--|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|
|  | Gwryw     | Benyw     | Cyfanswm  | Gwryw     | Benyw     | Cyfanswm  |
| Uwch Tîm Arwain  | 2         | 2         | 4         | 2         | 3         | 5         |
| Rheolwyr Portffolio/Penaethiaid Adrannau                                     | 7         | 8         | 15        | 6         | 8         | 14        |
| Uwch Syddogion   | 13        | 20        | 33        | 13        | 18        | 31        |
| Swyddogion   | 2         | 9         | 11        | 2         | 9         | 11        |
| Cydgysylltwyr Timau/<br>Cynorthwyr Personol                                  | 2         | 16        | 18        | 2         | 12        | 14        |
|  | <b>26</b> | <b>55</b> | <b>81</b> | <b>25</b> | <b>50</b> | <b>75</b> |
|  | 32%       | 68%       |           | 33%       | 67%       |           |

# Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio (wedi'i archwilio)

## Rhwymedigaethau wrth gefn annhebygol

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r Cynllun yn gynllun buddion diffiniedig a gyllidir a hefyd yn gynllun cyflogwyr lluosog lle na all y cyflogwyr sy'n cyfranogi nodi eu cyfrannau o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

Pe bai cyflogwr yn tynnu'n ôl, byddai'r ddyled a gâi ei hysgogi o dan adran 75 o Ddeddf Pensiynau 1995 yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio diffyg solfedd y Cynllun cyfan, nid cyfran asedau a rhwymedigaethau'r cyflogwr ei hun. Hefyd, pe câi'r Cynllun ei ddirwyn i ben, gan mai trefniant "y dyn olaf ar ei draed" yw'r Cynllun, byddai'r holl gyflogwyr yn atebol ar y cyd ac yn unigol am gyfanswm y diffyg yn y Cynllun.

Nid yw'n ymarferol amcangyfrif yr effaith ariannol.


## Colledion, taliadau arbennig a rhoddion

Ni chafodd y Cyngor unrhyw golledion yn ystod y flwyddyn ac ni roddodd unrhyw daliadau arbennig na rhoddion.

Yn ystod y flwyddyn gwnaeth y Cyngor gytundeb setlo a gwneud taliad ex-gratia i gyn gyflogai. Codir yn llawn am y taliad hwn yng nghyfrifon y Gweithgareddau Cyffredinol.


## Incwm o ffioedd a thaliadau

Nid oes gan y Cyngor unrhyw incwm perthnasol o'r math hwn.




**Michael Elliott**  
Swyddog Cyfrifyddu  
8 Gorffennaf 2022

## Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:



**Phil George**  
Cadeirydd  
8 Gorffennaf 2022



THE WATER THAT FLOWS AWAY  
DOES NOT COME BACK

آب هڪڙي  
ڪنڊ تائين  
ڪڍي ويندي آهي  
جتي  
وڌيڪ آڻي نٿو  
سگهجي

MAE'R DŴR SYDD YN LLIFO I  
FFWRDD DDIM YN DOD YN ÔL

[www.saharSaki.com](http://www.saharSaki.com)



# Y flwyddyn i ddod: 2022/23

Wrth inni ddod allan o gyfnod y cyfyngiadau symud ac i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf, rydym yn wynebu cymdeithas sydd wedi newid yn sylfaenol. Mae gennym sector sydd wedi gweld argyfyngau gwirioneddol ac sy'n dal i ymadfer. Rydym yn canolbwyntio ar sut olwg ddylai fod ar sector y celfyddydau yng Nghymru yn y dyfodol. Gan ddechrau ar ein Hadolygiad Buddsoddi ar y cyd â'n Cynllun Corfforaethol newydd, rydym wedi llunio rhaglen waith uchelgeisiol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

*Symud i du hwnt i gydymffurfio, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn cyflwyno mewn partneriaeth gyda Chartrefi Cymru i archwilio sut mae symudiad yn gallu elwa lles staff sydd yn gweithio mewn lleoliadau gofal (Llun: Jim Elliot)*



Mae ein Cynllun Gweithredu ar gyfer 2022/23 wedi cael ei ddatblygu o dan fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i lywio gan flaenoriaethau'r Cyngor a gofynion y Rhaglen Lywodraethu a gynhwysir yn ein Llythyr Cylch Gwaith.

Mae'r Cynllun yn nodi 9 maes rhaglen allweddol:

- Adolygiad Buddsoddi
- Adferiad a thrawsnewidiad
- Ehangu ymgysylltiad a chydaddoldeb
- Y celfyddydau, iechyd a lles
- Pobl ifanc a Dysgu Creadigol
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y celfyddydau a thrwyddynt
- Rhyngwladol
- Y celfyddydau a chyfiawnder hinsawdd
- Ffyrdd o weithio yn y dyfodol i Gyngor y Celfyddydau

Mae pob maes rhaglen yn nodi pa un o 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae'n cyfrannu ato a sut mae'r 5 ffordd o weithio'n cael eu cymhwyso i'w weithgarwch sylfaenol. Mae pob maes rhaglen hefyd yn nodi gofynion priodol ein Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth

Ddwy flynedd ar ôl dechrau'r pandemig, mae'r byd yn lle gwahanol

iawn erbyn hyn. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sydd gennym ar hyn o bryd, sy'n cynnwys:

- datblygu amcanion a dull gweithredu ein Hadolygiad Buddsoddi yn erbyn cefndir yr effaith sylweddol mae'r pandemig wedi'i chael ar sefydliadau celfyddydol
- bwrw ymlaen â'n hymrwymadau i'n hagenda Cydraddoldeb trwy ein cynlluniau gweithredu cyhoeddus
- datblygu ymrwymadau i gynyddu cymorth a chyfleoedd i bobl ifanc a hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol trwy fwrw ymlaen â'n rhaglenni blaenllaw ym meysydd Dysgu Creadigol a'r Celfyddydau ac Iechyd
- gwerthuso iechyd y sector ar hyn o bryd a chwilio am ffyrdd y gallwn gynnig cymorth targededig i feysydd a ffurfiau celf penodol lle bo angen
- adolygu ein gweithgarwch rhyngwladol, yn enwedig wrth i gyfyngiadau ar deithiau lacio, er mwyn sicrhau y manteisiwn i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi a hyrwyddo Cymru ac artistiaid Cymru yn y byd a chyfrannu at Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys tonnau newydd posibl o'r pandemig a'r angen am ymrwymiad i gyfiawnder hinsawdd
- ymrwymo i gamau gweithredu, trwy'r sector a'n gweithgarwch ein hunain, i helpu i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o Garbon Sero Net erbyn 2030
- adolygu ac ailddiffinio ein gweithgarwch a'n trefniadau gweithio ein hunain yn sgil y pandemig, gan gynnwys datblygu ein Cynllun Corfforaethol nesaf a symleiddio ein gweithgareddau rhoi grantiau

## Adolygiad Buddsoddi

Yn ystod y flwyddyn hon byddwn yn aildechrau'r gwaith a gafodd ei ohirio ar ein Hadolygiad Buddsoddi – ein hadolygiad cyfnodol o Bortffolio Celfyddydol Cymru. Nod yr Adolygiad Buddsoddi yw canfod y sefydliadau a all ein helpu orau i gyflawni ein blaenoriaethau diwylliannol.

Rhaid i'r gwaith hwn gyrraedd y cam lle rhoddwyd cyfle i grŵp ehangach a mwy amrywiol o bobl a sefydliadau gyflwyno eu meddyliau ac i'r rhain gael eu dwyn ynghyd mewn dogfen 'gweledigaeth' newydd.

Bydd y ddogfen gweledigaeth yn cynnwys ystyriaeth o feysydd allweddol o flaenoriaethau Cyngor y Celfyddydau, megis y rhai a gyhoeddwyd yn ein Cynllun Corfforaethol, **Er budd pawb**, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y fersiwn derfynol o'r Contract Diwylliannol a meddyliau ar ddod allan o'r pandemig a geir yn **Ail-osod y llwyfan**.

Dan ddylanwad y weledigaeth, byddwn yn diffinio'r cylch gorchwyl i'r Adolygiad a'r canlyniadau allweddol yr ydym eisiau eu cyflawni. Byddwn hefyd yn ystyried y broses ymgeisio, gan sicrhau ei bod yn glir ac yn hygyrch.

Mae'r Adolygiad i fod i agor ar gyfer ceisiadau ym mis Mawrth 2023. Bydd y gwaith asesu a phenderfynu'n digwydd trwy gydol 2023/24 a bydd cyllid ar gyfer y Portffolio newydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2024.

### Ein camau gweithredu allweddol:

1. datblygu a chyhoeddi ein gweledigaeth ar gyfer Portffolio Celfyddydol Cymru newydd
2. datblygu a chyhoeddi'r cylch gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi
3. datblygu a chyhoeddi'r broses ymgeisio ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi

## Adferiad a thrawsnewidiad

Mae golwg wahanol iawn ar y byd heddiw o'i gymharu â'r byd cyn Covid 19. Rydym wedi gweld effaith ddigynsail ar ein heconomi, ein diwylliant a'n ffordd o fyw. Dros nos, arweiniodd y pandemig byd-eang at atal yr holl weithgareddau cyhoeddus a dymchwel amgylchedd cymdeithasol, byw a gweithio pawb.

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ein safle arferol oedd 'ymateb i'r argyfwng'. Yn awr, wrth inni ddechrau dysgu byw gyda'r pandemig ac ystyried 'beth nesaf', ni ellir seilio hyn ar 'fusnes fel arfer'. Yn lle hynny, rhaid inni edrych o'r newydd ar sut y gallwn sicrhau sector celfyddydol cryf a chydnerth sy'n adlewyrchu'n briodol y diwylliant a'r gymdeithas yn y Gymru gyfoes.

Yn ystod y flwyddyn byddwn yn cymryd camau i werthuso effaith y pandemig ar y sector a'i heriau iddo – sefydliadau, unigolion creadigol a gweithwyr llawrydd, a chynulleidfaoedd a chyfranogwyr. Byddwn yn chwilio am ffyrdd o gynnig cymorth a chyfleoedd datblygu i'r rhai sy'n dymuno gweithio yn y celfyddydau a ffyrdd o annog cynulleidfaoedd a chyfranogwyr i ddychwelyd at y celfyddydau.

### Ein camau gweithredu allweddol:

1. deall ac ymateb i'r heriau mae sefydliadau'n eu hwynebu ar ôl y pandemig
2. deall ac ymateb i'r heriau mae unigolion a gweithwyr llawrydd yn eu hwynebu ar ôl y pandemig
3. creu cyfleoedd gyrfa cynhwysol i weithlu'r celfyddydau
4. cyfrannu at a chynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Diwylliant newydd Llywodraeth Cymru
5. datblygu olynydd i Raglen Cyfalaf y Loteri a ymestynnwyd
6. datblygu a chyflawni prosiectau strategol sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau
7. bwrw ymlaen â phrosiect Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol Llywodraeth Cymru
8. bwrw ymlaen â datblygiad cyfalaf Theatr Clwyd

# Ehangu ymgysylltiad a chydoddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ymagwedd at y celfyddydau a diwylliant sy'n mynd ati i ymgysylltu ag unigolion a chymunedau ledled Cymru wrth benderfynu beth sy'n cyfrif fel diwylliant, ble mae'n digwydd a phwy sy'n ei greu a'i brofi.

Mae unigolion a chymunedau'n wynebu heriau a rhwystrau sylweddol mewn perthynas ag ymgysylltu â'r celfyddydau. Dros y blynyddoedd diwethaf cafwyd tystiolaeth o'r rhain trwy leisiau ymgyrchoedd Mae Bywydau Du o Bwys a "WeShallNotBeRemoved" sydd wedi cyfleu'n glir effaith hiliaeth ac ableddiaeth strwythurol sydd wedi bod yn gyffredin yn y gymdeithas yn gyfan ac wedi atal ymgysylltiad â diwylliant a'r celfyddydau. Yn yr un modd clywyd lleisiau'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol, yn dweud wrthym yn glir am y rhwystrau a'r heriau maen nhw'n eu hwynebu wrth greu a chael mynediad at y celfyddydau.

Rydym yn credu'n gryf y dylai diwylliant yng Nghymru adlewyrchu bywydau ei holl ddinasyddion.

Mae pobl a chymunedau sy'n wynebu rhwystrau i ymgysylltiad, pobl niwrowahanol, fyddar ac anabl, a phobl sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol, yn anad dim y rheiny mewn cymunedau ôl-ddiwydiannol, yn rhan annatod a chanolog o'n bywyd diwylliannol. Ac rydym wedi gosod ein blaenoriaethau i ddarparu camau gweithredu targededig i helpu i wneud i hyn ddigwydd.

Byddwn yn cyflawni ein hymrwymadau yn y cynlluniau gweithredu yr ydym wedi'u cyhoeddi a'r Rhaglen Lywodraethu. Byddwn yn gwranddo ac yn deall y rhwystrau a wynebir ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw. Byddwn yn llunio strategaethau newydd ac yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys sefydliadau ein Portffolio, i ddyfnhau a lledaenu ein hymgysylltiad â grwpiau a chymunedau ledled Cymru, yn arbennig y rheiny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, a thrwy gyflawni cynlluniau gweithredu cydraddoldeb targededig.

## Ein cam gweithredu allweddol:

1. cyflawni'r argymhellion ac ymrwymadau a geir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyhoeddedig ac, mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, ein cyd-Gynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad

## Y celfyddydau, iechyd a lles

Mae pwysigrwydd y celfyddydau i iechyd a lles yn ganolog i'n cenhadaeth ac mae'n cael ei dderbyn fwyfwy. Ni fu'r effaith gadarnhaol y mae gweithgareddau creadigol yn ei chael ar ein llesiant erioed yn fwy amlwg nag yn ystod y pandemig pan mae pobl, cymunedau a gweithwyr rheng flaen wedi troi fwyfwy at y celfyddydau fel ffynhonnell hollbwysig mwynhad, cysylltiad, ystyr a chysur.

Mae llesiant yn uchelgais iach sy'n galw am ymagwedd gyfannol ar draws pob agwedd ar fywyd. Mae'r agenda llesiant yn sylfaen i'n strategaeth a gweithgarwch ehangach – nid yw'n gyfyngedig i'r celfyddydau ac iechyd.

Fodd bynnag, bach yw ein hadnoddau mewn perthynas â'r sector iechyd. Dyma pam yr ydym yn alinio ein gwaith â blaenoriaethau'r llywodraeth a'r Byrddau Iechyd, gan gefnogi mentrau Llywodraeth Cymru megis Cymru O Blaid Pobl Hŷn, gwella'r ddarpariaeth iechyd meddwl a chynnal gwaith deiliaid swyddi Cydgysylltwyr Byrddau Iechyd. Rydym eisiau ymateb i her cyflawni ymyriadau a all dyfu ym meysydd allweddol llesiant ac iechyd yng Nghymru. Eleni byddwn hefyd yn sefydlu tîm mewnol rhaglen y Celfyddydau ac Iechyd i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Yn ogystal â'r Byrddau Iechyd, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid sy'n bodoli eisoes megis Cydffederasiwn GIG Cymru a Sefydliad Baring ac yn buddsoddi mewn perthnasoedd â chyrrff strategol allweddol. Byddwn yn parhau â gwaith pwysig megis menter Cartrefi ac yn cefnogi presgripsiynu cymdeithasol i fynd i'r afael ag ynysigrwydd a helpu gyda llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl.

Byddwn yn gwella cyfleoedd i weithwyr rheng flaen gael budd o ymyriadau celfyddydol trwy ddarparu ein hadnodd ar-lein **Cwtsh Creadigol** ac yn ceisio canfod a chael gafael ar arian ychwanegol i gefnogi ein rhaglen y Celfyddydau ac Iechyd.

### Ein cam gweithredu allweddol:

1. atgyfnerthu a datblygu ymhellach ein hymagwedd at y Celfyddydau ac Iechyd yng Nghymru

## Pobl ifanc a Dysgu Creadigol

Gall ymgysylltu'n weithredol â'r celfyddydau weddnewid y ffordd mae plant a phobl ifanc yn dysgu ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Gall newid y ffordd maen nhw'n gweld eu hunain, eu dyheadau, yn ogystal â'u helpu i feithrin yr hunan-barch a'r hunan-werth a fydd yn rhan mor bwysig o'u sgiliau bywyd yn y dyfodol.

Mae Dysgu Creadigol wedi gwneud y celfyddydau a chreadigrwydd yn ganolog i'r cwricwlwm ysgol. Mae wedi defnyddio pŵer y celfyddydau i adfywio'r diwrnod ysgol a thrwy ddatblygiad proffesiynol uchelgeisiol, i ailgynnau creadigrwydd yr athrawon hwythau.

Wrth inni ddechrau ar gam nesaf y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, mae ein strategaeth yn dal i arloesi ffyrdd newydd y gall mwy o ysgolion ddefnyddio ffyrdd ymarferol o ddod â chyffro ac ysbrydoliaeth y celfyddydau i mewn i'r ystafell ddosbarth a datblygu creadigrwydd ein pobl ifanc.

Bydd ein gwaith yn y maes hwn hefyd yn mynd â ni y tu allan i'r ysgol wrth inni archwilio opsiynau i gefnogi 'Haf o Hwyl' gan gynnwys rhaglen cyfoethogi yn ystod gwyliau'r ysgol.

Rydym ni eisiau cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru a chefnogi'r bobl ifanc hynny y mae eu cyfleoedd bywyd o dan anfantais trwy ddylanwadau cymdeithasol ac economaidd.

Rydym ni eisiau i gynifer o bobl ifanc ag sy'n bosibl yng Nghymru gredu bod y cyfle yno iddyn nhw fod y gorau y gallant – ac y maent eisiau – ei fod, gan berfformio gyda'u cyfoedion ar y lefel uchaf, dathlu ac arddangos eu talentau creadigol a bod â llais yn ein strategaethau a fydd yn pennu'r trywydd ar gyfer eu dyfodol. Er mwyn hwyluso hyn byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer creu Rhwydwaith Pobl Ifanc a charfan o Gydweithwyr Ifanc.

Rydym ni eisiau i bobl ifanc gael y cyfle i gynhyrchu, mwynhau a chymryd rhan mewn gweithgarwch creadigol y maen nhw'n ei weld yn berthnasol, yn gyfoes ac yn gyffrous.





### Ein camau gweithredu allweddol:

1. cyflawni blwyddyn 1 o'r estyniad 3-blynedd i raglen Dysgu Creadigol
2. datblygu a chefnogi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymgysylltu â'r celfyddydau y tu allan i'r ysgol
3. gwreiddio'r broses o gynnwys pobl ifanc mewn strategaethau ledled gwaith ehangach y Cyngor

# Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn a thrwy'r celfyddydau

Nid oes dim yn fwy hynod am Gymru na'r Gymraeg. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel cenedl ac mae gennym ran i'w chwarae wrth gyrraedd targed Llywodraeth Cymru sef miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Byddwn yn mynnu triniaeth deg a chyfartal i'r Gymraeg. Nid yw'n fater o gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth y Llywodraeth ar y Gymraeg yn unig. Mae'n fater o ymrwymo i ddatblygiad ac achub ar y cyfleoedd y mae creadigrwydd Gymraeg yn eu cynnig.

## Ein camau gweithredu allweddol:

1. datblygu a lansio ein Strategaeth Iaith Gymraeg
2. cynyddu gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol, Mentrau Iaith ac Urdd Gobaith Cymru
3. gweithredu'r argymhellion yn ein hymateb i Adroddiad Mapio'r Gymraeg
4. ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, lle bo'n briodol, fabwysiadu cynlluniau iaith Gymraeg uchelgeisiol

## Rhyngwladol

Yn 2021 aethom ati i ailfeddwl ein gwaith rhyngwladol yng nghyd-destun pedair her fyd-eang aruthrol sy'n cael eu teimlo yng Nghymru: y pandemig, argyfwng hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb, a meithrin perthnasoedd rhyngwladol newydd ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae cyfyngiadau a chwariantinau Covid-19 wedi effeithio ar deithiau rhyngwladol. Ond wrth i weithio rhyngwladol ddod yn bosibl unwaith eto, bydd yn hanfodol i artistiaid a sefydliadau yng Nghymru sy'n dibynnu ar waith rhyngwladol am eu bywoliaeth allu meithrin cyfleoedd newydd. Yn ystod y flwyddyn hon byddwn yn datblygu Fframwaith i werthuso effaith ein gwaith yn erbyn 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn unol ag ef.

Byddwn yn cyflawni *Cymru yn Fenis 10* ac yn adolygu perthynas Cymru â Biennale Fenis a digwyddiadau mawr eraill yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd, Brexit a'n hymrwymiad i gydraddoldeb a mynediad yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau â'n buddsoddiad ym menter *Bro a byd – nodau llesiant lleol a byd-eang*, gan ddatblygu ymagwedd newydd at amrywiaeth.

Yn dilyn creu UK Arts Infopoint, mewn partneriaeth â Chynghorau'r Celfyddydau eraill y DU, byddwn yn casglu'r wybodaeth mae ei hangen i alluogi sefydliadau i barhau i gyflogi artistiaid Ewropeaidd, cyflwyno rhaglenni artistig a theithio yn yr Undeb Ewropeaidd.

### Ein camau gweithredu allweddol:

1. adolygu, ailosod a chyflawni ein gweithgarwch rhyngwladol
2. gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar brosiectau sy'n cefnogi'r gwaith o wireddu ei Strategaeth Ryngwladol a chynlluniau gweithredu rhyngwladol

## Y celfyddydau a chyfiawnder hinsawdd

Rydym yn mynd ati i gefnogi cynllun gweithredu deng mlynedd Carbon Sero Net Llywodraeth Cymru i holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn cyrraedd ei thargedau Carbon Sero erbyn 2030.

Rydym yn datblygu cynllun gweithgarwch gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i ysgogi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i gyflawni'r Bartneriaeth Natur Greadigol. Mae hyn yn cynnwys datblygu dulliau gweithio rhyngom ninnau a CNC i ganfod meysydd lle gellir cydweithredu gan ganolbwyntio ar wneud y defnydd mwyaf posibl o adnoddau a rhannu adnoddau er mwyn cynorthwyo'r sector creadigol i symud tuag at Garbon Sero Net. Bydd Cymrodoriaethau Natur Greadigol i 8 artist ar draws ffurfiau celf yn creu gwaith newydd, yn a/neu am yr amgylchedd, er mwyn ysbrydoli dulliau ymarfer newydd sy'n ymdrechu i sicrhau arloesedd ac sy'n herio ffyrdd sefydledig o weithio.

Bydd y Llwybr Sero Net yn canfod meysydd lle gellir cydweithredu gan ganolbwyntio ar wneud y defnydd mwyaf posibl o adnoddau a rhannu adnoddau ar draws y sector a byddwn yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i bennu meincnodau a phrotocolau i fonitro effaith gweithgareddau ar yr amgylchedd a llesiant.

Byddwn yn datblygu ein harferion gweithio ein hunain er mwyn ysgogi datgarboneiddio a chefnogi'r Agenda Werdd, gan gynnwys adolygu a gwella ein gwaith ailgylchu a lleihau gwastraff ac adolygu ein modelau gweithio yn y dyfodol er mwyn ystyried dulliau mwy ystyriol o'r amgylchedd a llesiant ein staff megis gweithio hybrid.

### Ein cam gweithredu allweddol:

1. datblygu a gweithredu ein cynllun ein hunain ar gyfer chyfiawnder hinsawdd a'r celfyddydau

## Dulliau gweithio yn y dyfodol ar gyfer Cyngor y Celfyddydau

Un darn hanfodol o waith i ni eleni fydd cynhyrchu a chyhoeddi Cynllun Corfforaethol newydd i lywio a chefnogi ein gwaith dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd yn cynnwys amcanion ein Hadolygiad Buddsoddi a'r ffon fesur y caiff y Portffolio newydd ei werthuso yn unol â hi. Bydd yn ystyried sut y byddwn yn trawsnewid y celfyddydau yng Nghymru a'r rhai sy'n dibynnu arnynt ac yn ymgysylltu â nhw. Bydd yn pennu camau gweithredu pendant i helpu i leihau'r niwed i'n hamgylchedd a chefnogi cyfiawnder hinsawdd er mwyn diogelu ein planed ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Fodd bynnag, ni allwn – ac ni ddylem – wneud hyn ar ein pen ein hunain. Byddwn yn ymgysylltu â'n partneriaid presennol ac yn meithrin perthnasoedd newydd er mwyn cyflawni nodau a rannwn.

Byddwn yn datblygu ein gweithlu, gan gyflwyno hyrwyddwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac annog ein staff i ddatblygu a chynnig cyfleoedd iddynt wneud hynny. Byddwn yn adolygu ein trefniadau gwaith a'n swyddfeydd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'n ffordd o weithio yn y dyfodol

### **Ein camau gweithredu allweddol:**

1. datblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd y byddwn yn gwreiddio egwyddorion Cenedlaethau'r Dyfodol trwyddo
2. ailedrych ar ein partneriaethau gwerth cyhoeddus a'u hadfywio, gan nodi sut y gallwn gyd-fuddsoddi arian cyhoeddus mewn meysydd blaenoriaethol a rannwn, gan adeiladu ar drefniadau presennol
3. datblygu ein gweithlu a'n Cyngor mewn meysydd i gynnwys mwy o gynrychiolaeth
4. dychwelyd at drefniadau gweithio yn y swyddfa/hybrid
5. adolygu ein heffeithiolrwydd wrth roi grantiau



Firelei Báez, 'the soft afternoon air as you hold us all in a single death (To breathe full and Free: a declaration, a re-visioning, a correction)', 2021 (manylyn)  
 Golwg o'r gosodwaith: Artes Mundi 9. Trwy garedigrwydd yr artist a James Cohan, Efrog Newydd.  
 (Llun: Stuart Whipps)

# Datganiadau Ariannol Gweithgareddau Cyffredinol

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Erthygl 11 o'r Siarter Frenhinol ddyddiedig 30 Mawrth 1994 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi am bob blwyddyn ariannol ddatganiad cyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a benderfynir gan Weinidogion Cymru. Paratwir y cyfrifon ar sail cronladau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Cyngor ac o'i incwm a'i wariant, Mantolen a llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratwir eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 ac, i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad, *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a gweithredu polisiau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn y Datganiad a *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth*, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratwir datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad a Datganiadau Ariannol yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad a Datganiadau Ariannol a'r farn sy'n ofynnol er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.




Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Cyngor, yn y ddogfen Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

A finnow'n Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylaswn ei gymryd i beri fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilydd y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohoni.



**Michael Elliott**  
Swyddog Cyfrifyddu  
8 Gorffennaf 2022

**Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:**



**Phil George**  
Cadeirydd  
8 Gorffennaf 2022

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Ymddiriedolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfrifon Gweithgareddau Cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu pwysig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2022 a'i wariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol Cyngor Celfyddydau Cymru.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliiais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi canfod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amgylchiadau a all, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu o ran busnes hyfyw wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir sy'n nodi'r gofynion ar gyfer gwybodaeth arall. Fodd bynnag, nid yw'r Datganiad na deddfwriaeth, na'r cyfarwyddiadau a roddwyd i Gyngor Celfyddydau Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y Datganiad Llywodraethu Blynyddol na'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a gyflwynir gyda'r datganiadau ariannol. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir yn glir fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad o ran sicrwydd arni. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw'n achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, y dof i'r casgliad bod yna gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir sy'n nodi'r gofynion ar gyfer gwybodaeth arall. Fodd bynnag, nid yw'r Datganiad na deddfwriaeth, na'r cyfarwyddiadau a roddwyd i Gyngor Celfyddydau Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y Datganiad Llywodraethu na'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a gyflwynir gyda'r datganiadau ariannol. Felly, ni allaf gadarnhau bod y Datganiad Llywodraethu neu'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a gyhoeddir gyda'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â chanllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn y wybodaeth arall i'w chyhoeddi gyda'r datganiadau ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar Gyngor Celfyddydau Cymru i baratoi Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol, mae'r Cyngor wedi paratoi'r adroddiad, ac yn fy marn i, mae'r rhan ohono i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad ar Berfformiad, Adolygiad Gweithredol ac Adroddiad Atebolrwydd (ac eithrio'r Datganiad Llywodraethu a'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol) ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad ar Berfformiad, Adolygiad Gweithredol ac Adroddiad Atebolrwydd wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir i Elusennau (FRS102).

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad, Adolygiad Gweithredol ac Adroddiad Atebolrwydd na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol a archwiliwyd yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a bennwyd gan Weinidogion Cymru o ran y gydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Erthygl 11 o Siarter Frenhinol Cyngor Celfyddydau Cymru a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan honno, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel sy'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni thybir nad yw hynny'n briodol.

### Cyfrifoldebau'r arc5hwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rwyf yn llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, fel y'u nodir uchod, er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, archwilydd mewnol Cyngor Celfyddydau Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n ymwneud â:
  - › chanfod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio;
  - › canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, a amheuir neu a honnir; ac
  - › y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau mewn perthynas â thwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau;

- fel tîm archwilio, ystyried sut a phryd y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw arwyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial am dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabyddiaeth refeniw, postio dyddlyfrau anarferol, amcangyfrifon cyfrifyddu, ac arian grant; a
- sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Celfyddydau Cymru.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi'r dogfennau ategol i asesu eu cydymffurfiaeth â'r deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a chynghorwyr cyfreithiol am ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor; ac
- wrth fynd i'r afael â risg twyll a achosir gan reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n dangos rhagfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu hwnt i hynt arferol busnes.

Hefyd trosglwyddais y deddfau a rheoliadau perthnasol a ganfuwyd ynghyd â'r risgiau twyll posibl i'r tîm archwilio cyfan ac arhosais yn wylidwrus am unrhyw arwyddion o dwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â'r deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir effaith ar y graddau mae fy ngweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Celfyddydau Cymru, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

### **Cyfrifoldebau am reoleidd-dra**

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Rwy'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### **Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**12 Gorffennaf 2022**

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygyrdedd gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

### **Cyfieithiad Cymraeg**

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoel. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

# Cyngor Celfyddydau Cymru

## Datganiadau o Weithgareddau Ariannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

|   |              | Cronfeydd<br>anghyfyngedig<br>£'000 | Cronfeydd<br>cyfyngedig<br>£'000 | 2021/22<br>Cyfanswm<br>£'000 | 2020/21<br>Cyfanswm<br>£'000 |
|---|--------------|-------------------------------------|----------------------------------|------------------------------|------------------------------|
| <b>INCWM</b>                              | <b>Nodyn</b> |                                     |                                  |                              |                              |
| Rhoddion:                                 |              |                                     |                                  |                              |                              |
| Cymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru  |              | 31,000                              | 300                              | 31,300                       | 32,278                       |
| Grantiau a rhoddion eraill                | 3            | 126                                 | 16,484                           | 16,610                       | 22,949                       |
|   |              | 31,126                              | 16,784                           | 47,910                       | 55,227                       |
| Incwm o weithgareddau elusennol:          |              |                                     |                                  |                              |                              |
| Gwasanaethau a nawdd                      | 4            | 64                                  | -                                | 64                           | 23                           |
| Incwm o fuddsoddiadau                     |              |                                     |                                  |                              |                              |
| Llog banc                                 |              | 0                                   | 0                                | 0                            | 2                            |
| Incwm arall                               | 5            | 26                                  | -                                | 26                           | 29                           |
| <b>Cyfanswm incwm</b>                     |              | <b>31,216</b>                       | <b>16,784</b>                    | <b>48,000</b>                | <b>55,281</b>                |
|   |              |                                     |                                  |                              |                              |
| <b>GWARIANT</b>                           |              |                                     |                                  |                              |                              |
| Gweithgareddau elusennol                  | 6            | 31,128                              | 16,842                           | 47,970                       | 55,588                       |
| Costau llywodraethu                       | 8            | 77                                  | -                                | 77                           | 66                           |
| Llog banc a ildwyd i Gronfa Gyfunol Cymru |              | -                                   | -                                | -                            | 1                            |
| <b>Cyfanswm gwariant</b>                  |              | <b>31,205</b>                       | <b>16,842</b>                    | <b>48,047</b>                | <b>55,655</b>                |
|   |              |                                     |                                  |                              |                              |
| <b>Incwm/(gwariant) net</b>               |              | <b>11</b>                           | <b>(58)</b>                      | <b>(47)</b>                  | <b>(374)</b>                 |
| Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd      | 13           | (640)                               | 640                              | 0                            | -                            |
| <b>Symudiad net mewn cronfeydd</b>        |              | <b>(629)</b>                        | <b>582</b>                       | <b>(47)</b>                  | <b>(374)</b>                 |
|   |              |                                     |                                  |                              |                              |
| <b>Cysoni cronfeydd</b>                   |              |                                     |                                  |                              |                              |
|   |              |                                     |                                  |                              |                              |
| Balansau cronfeydd a ddygwyd ymlaen       | 13           | 1,295                               | 1,171                            | 2,466                        | 2,840                        |
| <b>Cyfanswm yr arian a gariwyd ymlaen</b> |              | <b>666</b>                          | <b>1,753</b>                     | <b>2,419</b>                 | <b>2,466</b>                 |

Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai a ddangosir uchod.

Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi peidio ac ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 121 i 146 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.



# Cyngor Gofal Cymru

## Mantolen

ar 31 Mawrth 2022

|  |              | 31 Mawrth 2022<br>£'000 |              | 31 Mawrth 2021<br>£'000 |              |
|--|--------------|-------------------------|--------------|-------------------------|--------------|
| <b>Asedau sefydlog</b>                               | <b>Nodyn</b> |                         |              |                         |              |
| Asedau sefydlog anniriaethol                         | 9a           |                         | -            |                         | 1            |
| Asedau sefydlog diriaethol                           | 9b           |                         | 67           |                         | 66           |
| <b>Cyfanswm asedau sefydlog</b>                      |              |                         | <b>67</b>    |                         | <b>67</b>    |
| <b>Asedau cyfredol</b>                               |              |                         |              |                         |              |
| Dyledwyr   | 10           | 2,762                   |              | 6,338                   |              |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod               |              | 1,525                   |              | 1,416                   |              |
| <b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>                      |              | <b>4,287</b>            |              | <b>7,754</b>            |              |
| <b>Rhwymedigaethau: yn ddyledus o fewn blwyddyn</b>  |              |                         |              |                         |              |
| Credydwyr  | 11a          | (1,905)                 |              | (5,322)                 |              |
| <b>Asedau cyfredol net</b>                           |              |                         | <b>2,382</b> |                         | <b>2,432</b> |
| <b>Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</b> |              |                         | <b>2,449</b> |                         | <b>2,499</b> |
| <b>Credydwyr: yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn</b>  |              |                         |              |                         |              |
| Credydwyr  | 11b          |                         | (30)         |                         | (33)         |
| <b>Asedau net</b>                                    |              |                         | <b>2,419</b> |                         | <b>2,466</b> |
| <b>Arian yr elusen</b>                               |              |                         |              |                         |              |
| Cronfeydd anghyfyngedig                              | 13           |                         | 666          |                         | 1,295        |
| Cronfeydd cyfyngedig                                 | 13           |                         | 1,753        |                         | 1,171        |
|  |              |                         | <b>2,419</b> |                         | <b>2,466</b> |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 121 i 146 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'u llofnodi ar ei ran gan

**Michael Elliott**  
Swyddog Cyfrifyddu  
8 Gorffennaf 2022

**Phil George**  
Cadeirydd  
8 Gorffennaf 2022

# Cyngor Celfyddydau Cymru

## Datganiadau Llifau Arian Parod

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

|  | Nodyn | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|--|-------|------------------|------------------|
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu                           | 15a   | 163              | (852)            |
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi                            | 15b   | 0                | 1                |
| All-lif arian parod net cysylltiedig ag asedau cyfalaf                       | 15c   | (54)             | (34)             |
| <b>Newid mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn</b> |       | <b>109</b>       | <b>(885)</b>     |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod a ddygwyd ymlaen                      |       | 1,416            | 2,301            |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod a gariwyd ymlaen                      |       | 1,525            | 1,416            |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 121 i 146 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Cyngor Celfyddydau Cymru

## Y Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Marwth 2022

### 1. Polisiau cyfrifyddu

#### a. Sail y paratoi

Paratoir y datganiadau ariannol hyn ar sail busnes hyfyw ac o dan y confensiwn cost hanesyddol a addasir i gynnwys rhai asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r Cyngor ar sail cost gyffredol. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a bodlonant ofynion Deddfau Elusennau 2006, 2011 a 2016, y Datganiad o Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102). Yn ogystal â chydymffurfio â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, rhoddir ystyriaeth i ofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir. Nodir isod grynodedb o'r prif bolisiau cyfrifyddu sydd wedi'u cymhwyso'n gyson.

#### Effaith safonau nad yndynt mewn grym eto

Caiff cymhwyso unrhyw safonau cyfrifyddu newydd neu ddiwygiedig ei lywodraethu pan gânt eu mabwysiadu gan y Comisiwn Elusennau a'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Mae'r Cyngor yn cymhwyso newidiadau i safonau pan ddônt i rym. Nid oes unrhyw effeithiau perthnasol hysbys o newidiadau i safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ac nad ydynt mewn grym eto ar y datganiadau ariannol yn y cyfnod cymhwyso cyntaf.

#### b. Is-gymeriadau – Cerdd Cymru:Music Wales Limited

Roedd Cerdd Cymru:Music Wales yn gwmni masnachu preifat, wedi'i gyfyngu drwy warant a'i gofrestru yng Nghymru (rhif 7759122). Fe'i corfforwyd ar 1 Medi 2011 fel cyd-drefniant 50% gyda Sefydliad Cerddoriaeth Cymru i ddatblygu a gwella, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, wybodaeth, dealltwriaeth, ymarfer a chynaliadwyedd y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, ac yn arbennig cerddoriaeth, yng Nghymru

Daeth Cerdd Cymru:Music Wales Limited yn is-gwmni dan berchnogaeth lwyr y Cyngor yn ystod 2016/17 yn dilyn datodiad Sefydliad Cerddoriaeth Cymru.

Bu Cerdd Cymru:Music Wales yn segur yn y blynyddoedd diwethaf, ac uned Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (uned ryngwladol y Cyngor) oedd yn rheoli'r holl weithgarwch tramor yn uniongyrchol. Ym mis Mawrth 2021 felly, cymeradwyodd y Cyngor ddirwyn yr is-gwmni i ben yn wirfoddol. Cafodd Cerdd Cymru:Music Wales ei ddi-ddymu ar 26 Hydref 2021.

**c. Incwm**

Rhoddir cyfrif am bob incwm ar sail croniadau, heblaw am gymynroddion, rhoddion ariannol a rhoddion a gydnabyddir dim ond pan ddônt i law. Trinnir grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy fel incwm.

Ni chofnodir unrhyw incwm heb wariant yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

**d. Dosbarthu arian y Loteri**

Nid yw'r datganiadau ariannol hyn yn ymdrin â swyddogaeth y Cyngor o ran dosbarthu arian y Loteri y paratowyd datganiadau ariannol ar wahân ar ei chyfer yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Â'r Cyngor i gostau sy'n cynnal ei weithgareddau cyffredinol a'i swyddogaethau o ran dosbarthu arian y Loteri. Yn unol â'i Gyfarwyddiadau Ariannol mae'r Cyngor yn dosrannu costau anuniongyrchol yn briodol rhwng y ddau faes gweithgarwch hyn gan gyfeirio at yr amser a dreuliwyd ar y gweithgareddau priodol neu'r adnoddau perthnasol a ddefnyddiwyd ganddynt.

Fel arfer caiff y dosraniadau eu hadolygu pob dwy flynedd a phryd bynnag y ceir newid arwyddocaol i'r strwythur staff neu'r rhaglenni gweithgareddau.

**e. Gwariant**

Rhoddir cyfrif am bob gwariant ar sail croniadau ac mae wedi'i ddsbarthu o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

**f. Grantiau a ddyfarnwyd**

Ceir gwariant cymhorthdal ar ffurf grantiau a gynigir yn ffurfiol i sefydliadau a gyllidir gan y Cyngor. Caiff grantiau eu cynnig i gynnal rhaglen o weithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer blwyddyn ariannol benodol, neu sy'n cychwyn ynddi, a gan amlaf, cânt eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y flwyddyn honno.

Ni chaiff blaenymrwymadau a wneir yn y flwyddyn sy'n gysylltiedig â gweithgarwch y flwyddyn nesaf, fel y'u datgelir yn nodyn 17, eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Ni ellir cydnabod y cymorth grant i gyflawni'r ymrwymadau hyn nes ei fod wedi dod i law, felly nid ydym wedi gallu cymhwyso holl egwyddorion paragraff 7 o'r Datganiad Arferion a Argymhellir. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn credu y byddai cynnwys y blaenymrwymadau'n rhoi darlun gwir a theg o'r ffordd y defnyddir adnoddau'r Cyngor.

Caiff grantiau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn eu dangos fel credydwyr yn y Fantolen. Caiff unrhyw daliadau ymlaen llaw a wnaed mewn perthynas â grantiau a gymeradwywyd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau yn y flwyddyn nesaf eu dangos yn y Fantolen fel asedau cyfredol.

Rhestrir yr holl grantiau a gynigiwyd yn yr atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

**g. Gwasanaethau a nawdd**

Mae gwasanaethau a nawdd yn cynnwys y costau uniongyrchol, gan gynnwys staff a dibrisiad, y gellir eu priodoli i weithgareddau elusennol.

**h. Dyrannu costau gweithredu**

Mae costau gweithredu wedi cael eu dyrannu yn y lle cyntaf rhwng gweithgareddau elusennol a llywodraethu. Mae costau gweithredu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau elusennol wedi cael eu dosrannu i adlewyrchu'r amser mae'r staff yn ei dreulio wrth ddarparu gweithgareddau uniongyrchol ac i gynorthwyo â'r gwaith o'u darparu. Mae dyraniad a dadansoddiad y costau hyn yn nodiadau 6 a 7.

**i. Costau llywodraethu**

Mae costau llywodraethu yn cynnwys pob cost sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus y Cyngor fel elusen a'i gydymffurfiaeth â rheoleiddio ac arferion da. Dadansoddir y costau hyn yn nodyn 8.

**j. Arian tramor**

Caiff arian refeniw a gafwyd a gwariant yr aed iddo mewn arian tramor eu trosi yn unol â'r gyfradd gyfnewid oedd yn weithredol ar adeg y trafodyn. Caiff balansau a ddelir mewn arian tramor eu trosi yn unol â'r gyfradd oedd yn weithredol ar ddyddiad y Fantolen. Caiff trafodion a balansau a gwmpesir gan flaengontractau eu trosi yn unol â chyfradd y contract.

**k. Cydnabod rhwymedigaethau**

Cydnabyddir rhwymedigaethau pan fo rhwymedigaeth yn codi i drosglwyddo buddion economaidd o ganlyniad i drafodion neu ddigwyddiadau yn y gorffennol.

## **l. Cyfrifyddu cronfeydd**

Cronfeydd cyfyngedig yw'r rheiny sydd i gael eu defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a orfodir gan roddwyr neu sydd wedi'u codi gan y Cyngor at ddibenion penodol. Mae'r gost o godi a gweinyddu cronfeydd o'r fath wedi'i chodi ar y gronfa benodol. Nodir amcan a defnydd pob cronfa gyfyngedig yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Cronfeydd anghyfyngedig yw'r rheiny sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgrisiwn y Cyngor i hyrwyddo amcanion ei siarter ac nad ydynt wedi'u dynodi at ddibenion eraill.

Lle dyrennir costau cynnal i weithgareddau elusennol cyfyngedig trosglwyddir swm o'r cronfeydd anghyfyngedig i dalu'r costau hyn.

## **m. Asedau sefydlog**

Mae'r Cyngor yn berchen ar ddau eiddo rhydd-ddaliadol, Theatr Sherman a Stiwdio Rubicon Dance, sydd wedi'u gosod ar brydles hir am rent rhad i denantiaid na chânt eu rheoli gan y Cyngor a heb unrhyw ddarpariaeth i'r Cyngor eu hailfeddiannu. Ar sail cyngor gan syrfewyr siartredig allanol ac annibynnol, bernir bod gwerth gweddilliol y buddiannau rhydd-ddaliadol hyn yn fach iawn felly caiff yr asedau hyn eu dal yn y cyfrifon ar ddim gwerth.

Trinnir costau datblygu gwefan, yn unol â FRS 102, fel asedau sefydlog diriaethol.

Trinnir trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol fel asedau sefydlog anniriaethol os cwmpasant fwy na blwyddyn.

Heblaw am eiddo rhydd-ddaliadol, caiff yr holl asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol eu cynnwys ar gost hanesyddol llai lwfans am ddibrisiad ac amorteiddiad. Ym marn y Cyngor, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y gwerth ar bapur a gwerth y farchnad.

## **n. Amorteiddiad a dibrisiad**

Caiff asedau unigol sy'n costio £1,000 neu fwy eu cyfalafu a darperir blwyddyn gyfan o amorteiddiad neu ddibrisiad ym mlwyddyn eu caffael. Darperir amorteiddiad ar asedau sefydlog anniriaethol a dibrisiad ar asedau sefydlog diriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost neu brisiad pob ased i'w werth gweddilliol ar sail linol dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

|                                     |                       |
|-------------------------------------|-----------------------|
| Trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol | dros 3 blynedd        |
| Gwelliannau prydlesol               | dros gyfnod y brydles |
| Celfi, gosodiadau a ffitiadau       | dros 10 blynedd       |
| Offer                               | dros 4 blynedd        |
| Costau datblygu gwefan              | dros 3 blynedd        |
| System gyfrifiadurol                | dros 3 blynedd        |

**o. Prydlesi**

Caiff costau prydlesi gweithredu eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail linol dros oes y brydles.

**p. Pensiynau**

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994 sy'n darparu buddion diffiniedig i gyflogeion y Cyngor. Caiff costau cyfraniadau'r Cyngor eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol fel y gellir lledaenu cost pensiynau dros oes waith y cyflogeion.

Mae'r Cynllun yn gynllun buddion diffiniedig a gyllidir a hefyd yn gynllun cyflogwyr lluosog lle na all y cyflogwyr sy'n cyfranogi nodi eu cyfrannau o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig, yn unol â FRS 102. Mae'r Cyngor wedi gwneud taliadau i gyllido diffyg sy'n gysylltiedig â gwasanaeth a roddwyd. Os oes angen rhagor o daliadau tuag at y diffyg, yn dilyn ailbrisiadau yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn cydnabod darpariaeth ar gyfer gwerth presennol cyfraniadau sy'n daladwy yn unol â thelerau unrhyw gytundeb cyllido perthnasol. Caiff pob cyfraniad tuag at y diffyg ei godi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Mae gan y Cyngor hefyd gynllun cyfraniadau diffiniedig, Pensiwn y Bobl, fel dewis amgen i ddiwallu anghenion deddfwriaeth Cofrestru Awtomatig. Rhoddir cyfrif am y cynllun yn unol â FRS 102.

**q. Trethiant**

Caiff Treth Ar Werth nad oes modd ei hadennill sy'n deillio o wariant ar weithgareddau nad ydynt yn rhai busnes ei chodi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol neu ei chyfalafu fel ased sefydlog lle bo'n berthnasol.

**r. Offerynnau ariannol**

Asedau ariannol: Nid yw dyledwyr masnachol yn cario unrhyw log a chânt eu datgan ar eu gwerth nominal fel y'i gostyngir gan lwfansau priodol ar gyfer symiau amcangyfrifedig nad oes modd eu hadennill. Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac arian yn y banc ac arian wedi'i gadw ar adnau tymor byr ar delerau sy'n caniatáu ei gael ar unrhyw adeg.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw credydwyr masnachol yn cario llog a chânt eu datgan ar eu gwerth nominal.

## 2. Gweithgareddau cyffredinol a dosbarthu arian y Loteri: incwm cyfunol a gwariant elusennol ar y celfyddydau

Dengys y cyfrif dosbarthu arian y Loteri sydd ar wahân mai £18,078,000 (2020/21: £18,138,000) oedd cyfran y Cyngor o'r arian oddi wrth y Loteri Genedlaethol yn 2021/22. Ar gyfer 2021/22, cyfanswm cyfunol yr incwm o weithgareddau cyffredinol a'r Loteri oedd £66,242,000 (2020/21: £73,478,000). Ar gyfer 2021/22, cyfanswm cyfunol y gwariant elusennol uniongyrchol ar y celfyddydau oedd £70,563,000 (2020/21: £67,718,000).

## 3. Incwm

### Rhoddion: Grantiau a rhoddion eraill

|   | Cronfeydd<br>Anghyfyngedig<br>£'000 | Cronfeydd<br>Cyfyngedig<br>£'000 | 2021/22<br>Cyfanswm<br>£'000 | 2020/21<br>Cyfanswm<br>£'000 |
|---|-------------------------------------|----------------------------------|------------------------------|------------------------------|
| Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau (nodyn 18):                  |                                     |                                  |                              |                              |
| Grant gan Lywodraeth Cymru  | -                                   | 978                              | 978                          | 750                          |
| Grant gan y Loteri i Gyngor Celfyddydau Cymru                           | -                                   | 750                              | 750                          | 1,083                        |
| Incwm arall   | -                                   | -                                | -                            | 45                           |
| Grantiau'r flwyddyn flaenorol nad oedd eu hangen mwyach neu a ad-dalwyd | 126                                 | 12                               | 138                          | 4                            |
| Cyllid Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru                          | -                                   | 12,697                           | 12,697                       | 18,348                       |
| Cyfraniad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau eraill           | -                                   | 1,816                            | 1,816                        | 2,208                        |
| Grantiau i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru                                | -                                   | 83                               | 83                           | -                            |
| Arts Council England (ar gyfer Hynt)                                    | -                                   | 83                               | 83                           | -                            |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (ar gyfer rhaglen Natur Greadigol)               | -                                   | 65                               | 65                           | -                            |
| Sefydliad Freelands   | -                                   | -                                | -                            | 500                          |
| Rhoddion preifat  | -                                   | -                                | -                            | 11                           |
|   | 126                                 | 16,484                           | 16,610                       | 22,949                       |



#### 4. Incwm o weithgareddau elusennol – Gwasanaethau a nawdd

|  | Cronfeydd<br>Anghyfyngedig<br>£'000 | Cronfeydd<br>Cyfyngedig<br>£'000 | 2021/22<br>Cyfanswm<br>£'000 | 2020/21<br>Cyfanswm<br>£'000 |
|--|-------------------------------------|----------------------------------|------------------------------|------------------------------|
| Cynllun Noson Allan:<br>– cyfraniadau gan leoliadau/hyrwyddwyr | 24                                  | -                                | 24                           | 2                            |
| Cyfraniadau ar gyfer Celfyddydau<br>Rhyngwladol Cymru          | -                                   | -                                | -                            | 2                            |
| Cynllun Casglu – ffioedd orielau                               | 36                                  | -                                | 36                           | 18                           |
| Incwm arall  | 4                                   | -                                | 4                            | 1                            |
|  | 64                                  | -                                | 64                           | 23                           |

#### 5. Incwm arall

|  | Cronfeydd<br>Anghyfyngedig<br>£'000 | Cronfeydd<br>Cyfyngedig<br>£'000 | 2021/22<br>Cyfanswm<br>£'000 | 2020/21<br>Cyfanswm<br>£'000 |
|--|-------------------------------------|----------------------------------|------------------------------|------------------------------|
| Cyfraniad o gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri:<br>am ddefnyddio asedau sefydlogs | 26                                  | -                                | 26                           | 29                           |

## 6. Gwariant – Gweithgareddau elusennol

|  | Gweithgareddau uniongyrchol<br>£'000 | Arian grant <sup>1</sup><br>£'000 | Costau cynnal <sup>2</sup><br>£'000 | 2021/22<br>Cyfanswm<br>£'000 | 2020/21<br>Cyfanswm<br>£'000 |
|--|--------------------------------------|-----------------------------------|-------------------------------------|------------------------------|------------------------------|
| Rhoi grantiau a datblygu'r celfyddydau       | 972                                  | 42,400                            | 1,851                               | 45,223                       | 53,018                       |
| (nodyn 18)                                   | 956                                  | 263                               | -                                   | 1,219                        | 1,541                        |
| Strategaeth y celfyddydau                    | 430                                  | -                                 | 18                                  | 448                          | 242                          |
| Rhyngwladol                                  | 582                                  | -                                 | 25                                  | 607                          | 430                          |
| Gwasanaethau: Noson Allan a'r Cynllun Casglu | 272                                  | -                                 | 12                                  | 284                          | 200                          |
| Dadleuaeth ac ymchwil                        | 181                                  | -                                 | 8                                   | 189                          | 157                          |
|  | <b>3,393</b>                         | <b>42,663</b>                     | <b>1,914</b>                        | <b>47,970</b>                | <b>55,588</b>                |
| O gronfeydd anghyfyngedig                    |                                      |                                   |                                     | 31,128                       | 30,728                       |
| O gronfeydd cyfyngedig                       |                                      |                                   |                                     | 16,842                       | 24,860                       |
|  |                                      |                                   |                                     | <b>47,970</b>                | <b>55,588</b>                |

| <sup>1</sup> Arian grant                   | I sefydliadau<br>£'000 | I unigolion<br>£'000 | 2021/22<br>Cyfanswm<br>£'000 | 2020/21<br>Cyfanswm<br>£'000 |
|--|------------------------|----------------------|------------------------------|------------------------------|
| O gronfeydd anghyfyngedig                  |                        |                      |                              |                              |
| Portffolio Celfyddydol Cymru               | 26,782                 | -                    | 26,782                       | 26,782                       |
| Cymorth Covid-19                           | -                      | -                    | -                            | 880                          |
|  | 609                    | 173                  | 782                          | 408                          |
| O gronfeydd cyfyngedig                     |                        |                      |                              |                              |
| Portffolio Celfyddydol Cymru               | 300                    | -                    | 300                          | 300                          |
| Cymorth Covid-19                           | 12,934                 | -                    | 12,934                       | 20,014                       |
| Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau | 263                    | -                    | 263                          | 932                          |
| Dyfarniadau strategol                      | 1,537                  | 65                   | 1,602                        | 2,040                        |
|  | <b>42,425</b>          | <b>238</b>           | <b>42,663</b>                | <b>51,356</b>                |

Rhestrir yr holl grantiau yn yr atodiadau i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

| <sup>2</sup> Costau cynnal      | Costau gros<br>£'000 | Didynnu taliadau a ailgodwyd ar Gronfa Dosbarthu Arian y Loteri<br>£'000 | 2021/22 Swm net a godir ar Weithgareddau Cyffredinol<br>£'000 | 2020/21 Swm net a godir ar Weithgareddau Cyffredinol<br>£'000 |
|---------------------------------|----------------------|--|---|---|
| Staff a chostau cysylltiedig    | 2,660                | 1,261  | 1,399   | 1,270   |
| Seilwaith                       | 601                  | 290  | 311   | 337   |
| Costau rhedeg swyddfa           | 17                   | 8  | 9   | 8   |
| Ffioedd proffesiynol a hyrwyddo | 182                  | 106  | 76  | 43  |
| TAW nad oes modd ei hadennill   | 132                  | 67   | 65  | 68  |
| Amorteiddiad a dibriiad         | 54                   | -  | 54  | 60  |
|                                 | <b>3,646</b>         | <b>1,732</b>   | <b>1,914</b>  | <b>1,786</b>  |

## 7. Costau staff

| a. Mae cyfanswm costau staff yn cynnwys: | Cyflogwyd yn barhaol<br>£'000 | Arall<br>£'000 | Costau gros<br>£'000 | Didynnu taliadau a ailgodwyd ar Gronfa Dosbarthu Arian y Loteri<br>£'000 | 2021/22 Swm net a godir ar Weithgareddau Cyffredinol<br>£'000 | 2020/21 Swm net a godir ar Weithgareddau Cyffredinol<br>£'000 |
|--|-------------------------------|----------------|----------------------|--|---|---|
| Cyflogau                                 | 2,952                         | 500            | 3,452                | 943  | 2,509   | 2,286   |
| Costau nawdd cymdeithasol                | 310                           | 52             | 362                  | 99   | 263   | 238   |
| Costau pensiwn arall                     | 553                           | 89             | 642                  | 177  | 465   | 416   |
| Ardoll brentisiaethau                    | 3                             | -              | 3                    | -  | 3   | 1   |
|  | <b>3,818</b>                  | <b>641</b>     | <b>4,459</b>         | <b>1,219</b>   | <b>3,240</b>  | <b>2,941</b>  |

Caiff costau staff eu corffori yn y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

|   |              |              |              |              |
|---|--------------|--------------|--------------|--------------|
| A godir ar Weithgareddau Uniongyrchol (nodyn 6) | 1,894        | -            | 1,894        | 1,678        |
| A godir ar Gostau Cynnal (nodyn 6)              | 2,516        | 1,203        | 1,313        | 1,230        |
| A godir ar Lywodraethu (nodyn 8)                | 49           | 16           | 33           | 33           |
|   | <b>4,459</b> | <b>1,219</b> | <b>3,240</b> | <b>2,941</b> |

| Nifer gyfartalog y staff (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn oedd: | Cyflogwyd yn barhaol | Arall     | Ar draws y Cyngor cyfan | Ar weithgareddau Dosbarthu Arian y Loteri | 2021/22 Ar Weithgareddau Cyffredinol | 2020/21 Ar Weithgareddau Cyffredinol |
|--|----------------------|-----------|-------------------------|---|--------------------------------------|--------------------------------------|
| Ar weithgareddau elusennol:  |                      |           |                         |   |                                      |                                      |
| a godir yn uniongyrchol  | 9                    | 10        | 19                      | -   | 19                                   | 17                                   |
| a ailgodwyd  | 28                   | 1         | 29                      | -   | 29                                   | 27                                   |
| I gynorthwyo â'n gweithgareddau elusennol  | 31                   | 1         | 32                      | 23  | 9                                    | 9                                    |
|  | <b>68</b>            | <b>12</b> | <b>80</b>               | <b>23</b>                                 | <b>57</b>                            | <b>53</b>                            |

| Cyfansoddiad y staff ar 31 March (cyfwerth ag amser llawn - y Cyngor cyfan) | 2022      |           |           | 2021      |           |           |
|---|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|
|   | Gwryw     | Benyw     | Cyfanswm  | Gwryw     | Benyw     | Cyfanswm  |
| Uwch Tîm Arwain   | 2         | 2         | 4         | 2         | 3         | 5         |
| Rheolwyr Portffolio/Penaethiaid Adrannau                                    | 7         | 8         | 15        | 6         | 8         | 14        |
| Uwch Swyddogion   | 13        | 20        | 33        | 13        | 18        | 31        |
| Swyddogion  | 2         | 9         | 11        | 2         | 9         | 11        |
| Cydgysylltwyr Timau/Cynorthwywyr Personol                                   | 2         | 16        | 18        | 2         | 12        | 14        |
|   | <b>26</b> | <b>55</b> | <b>81</b> | <b>25</b> | <b>50</b> | <b>75</b> |
|   | 32%       | 68%       |           | 33%       | 67%       |           |

|   | 2022                   | 2021                   |
|---|------------------------|------------------------|
| Dyma ystod y gydnabyddiaeth ariannol flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth (y Cyngor gyfan):   | £21,064 to<br>£101,830 | £23,419 to<br>£101,830 |
| Y Prif Weithredwr yw'r aelod staff sy'n cael y cyflog mwyaf. Ni newidiodd cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr yn ystod y flwyddyn (2020/21: cynnydd o 2.5%). Cafodd y staff cyfan godiad cyflog o 2.75% (2020/21: cynnydd o 2.5%).  |                        |                        |
| Dyma gydnabyddiaeth ariannol flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) y cyflogeion a'r cymarebau rhwng pob un o'r rhain a chyflog y Prif Weithredwr ar 31 Mawrth (y Cyngor gyfan):   |                        |                        |
| Canradd 25  | £30,142<br>1:3.4       | £33,890<br>1:3.0       |
| Canradd canolrifol (50)   | £43,829<br>1:2.3       | £42,656<br>1:2.4       |
| Canradd 75  | £43,829<br>1:2.3       | £52,919<br>1:1.9       |
| Mae'r gwahaniaethau rhwng y cymarebau cydnabyddiaeth ariannol ar 31 Mawrth 2022 a 2021 yn adlewyrchu effaith:<br>(a) cynnydd yn nifer y staff a gyflogir;<br>(b) codiad cyflog i'r holl staff cymwys nad oedd yn gymwys i'r Prif Weithredwr; ac<br>(c) ymarfer ailwerthuso swyddi a gafodd ei setlo yn 2020/21. |                        |                        |

- b. Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr – yr Uwch Tîm Arwain – sy'n gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor. Roedd eu gwir daliadau a'u buddion pensiwn fel y'u dangosir yn y tablau canlynol.

Mae swm y buddion pensiwn am y flwyddyn sy'n cyfrannu at gyfanswm ffigurau unigol cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei gyfrifo mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth, ac wedi'i seilio ar wybodaeth a gafwyd oddi wrth actiwari Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994.

Dyma sut y cyfrifir gwerth buddion pensiwn:

(gwir gynnydd yn y pensiwn\* x 20) + (gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) –  
(cyfraniadau a wnaed gan yr aelod)

\* gan eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu leihad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid swm yw hwn a dalwyd i unigolyn gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ond cyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn, e.e. newidiadau yng nghyflog rhywun, a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol at y cynllun pensiwn o'i gyflog ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyffredinol.

Cyfanswm ffigurau unigol cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Tîm Arwain:

| Enw Swydd   | 2021/22 £'000    |                 |   | 2020/21 £'000  |                 |   |
|---|------------------|-----------------|---|----------------|-----------------|---|
|   | Band taliadau    | Buddion pensiwn | Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth ariannol | Band taliadau  | Buddion pensiwn | Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth ariannol |
| Michael Elliott <sup>1</sup><br>Prif Weithredwr dros dro o 7 Mawrth 2022 ymlaen<br>Cyfwerth â blwyddyn llawn                                      | 5-10<br>100-105  | -               | 5-10                                    | N/A            | N/A             | N/A                                     |
| Siân Tomos<br>Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau hyd 5 Medi 2021<br>Prif Weithredwr o 6 Medi 2021 i 19 Tachwedd 2021<br>Cyfwerth â blwyddyn llawn | 50-55<br>90-95   | 55              | 105-110                                 | 75-80          | 32              | 105-110                                 |
| Nicholas Capaldi<br>Prif Weithredwr i 30 Medi 2021<br>Cyfwerth â blwyddyn llawn   | 50-55<br>100-105 | 5               | 55-60                                   | 100-105        | 30              | 130-135                                 |
| Richard Nicholls <sup>2</sup><br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau o 28 Medi 2020<br>Cyfwerth â blwyddyn llawn   | 85-90            | 20              | 105-110                                 | 35-40<br>75-80 | 1               | 40-45                                   |
| Diane Hebb <sup>2</sup><br>Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau   | 85-90            | 72              | 155-160                                 | 75-80          | 26              | 100-105                                 |
| Rebecca Nelson <sup>2</sup><br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes   | 85-90            | 25              | 110-115                                 | 70-75          | 18              | 90-95                                   |

<sup>1</sup> Mae'r Prif Weithredwr dros dro wedi ethol/dewis peidio ag ymuno â chynllun pensiwn. Nid oes unrhyw rheidrwydd i'w gofrestru'n awtomatig.

<sup>2</sup> Mae taliadau 2021/22 yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb ychwanegol gwerth £5,000-£10,000.

Buddion pensiwn yr Uwch Tîm Arwain (wedi'u harchwilio):

|   | 2021/22<br>£'000   | 2021/22<br>£'000   | 2021/22<br>£'000  | 2020/21<br>£'000                                       | 2021/22<br>£'000  |
|---|--|--|---|--|---|
| <b>Enw</b><br>Swydd   | Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 65 oed | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31/03/22, neu ddyddiad ymadael os yw'n gynharach, a chyfandaliad cysylltiedig | Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod <sup>1</sup> ar 31/03/22, neu ddyddiad ymadael os yw'n gynharach | Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/21 | Gwir gynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod <sup>2</sup> |
| <b>Siân Tomos</b><br>Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau hyd 5 Medi 2021<br>Prif Weithredwr o 6 Medi 2021 i 19 Tachwedd 2021 | Pension 2.5-5<br>Lump sum 7.5-10                                 | Pension 30-35<br>Lump sum 95-100   | 733   | 633  | 52  |
| <b>Nicholas Capaldi</b><br>Prif Weithredwr i 30 Medi 2021   | Pension 0-2.5<br>Lump sum 0-2.5                                  | Pension 15-20<br>Lump sum 45-50  | 359   | 338  | 5   |
| <b>Richard Nicholls</b><br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau o 28 Medi 2020  | Pension 0-2.5<br>Lump sum 2.5-5                                  | Pension 0-5<br>Lump sum 0-5  | 17  | 1  | 11  |
| <b>Diane Hebb</b><br>Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau   | Pension 2.5-5<br>Lump sum 10-12.5                                | Pension 20-25<br>Lump sum 70-75  | 469   | 421  | 62  |
| <b>Rebecca Nelson</b><br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes   | Pension 0-2.5<br>Lump sum 2.5-5                                  | Pension 0-5<br>Lump sum 5-10   | 40  | 27   | 12  |

<sup>1</sup> Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod – Ystyr Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd gan actiwari. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol a ddelir i'w briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymdrin â'r buddion mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w holl aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i Gynllun Ymdddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnodd yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Gyfadrann Actiwariaid ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawli'r buddion pensiwn.

<sup>2</sup> Gwir gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod – Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir, i bob pwrpas, gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiau cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Caiff y Cadeirydd, gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau, gdnabyddiaeth ariannol am ei wasanaethau ond ni chaiff unrhyw daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn. Nid yw Aelodau eraill o'r Cyngor nac Aelodau o'r Pwyllgorau yn cael unrhyw dâl am eu gwasanaethau. Mae costau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn cynnwys swm crynswth o £185 (2020/21: £16) a ad-dalwyd i 1 (2020/21: 1) aelod o'r Cyngor.

Roedd cyfanswm y gwir daliadau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cynnwys (wedi'u harchwilio):

|  | 2021/22<br>£ | 2020/21<br>£ |
|--|--------------|--------------|
| <b>Cadeirydd</b>   |              |              |
| Cyflog   | 43,810       | 43,810       |
| <b>Prif weithredwyr</b>  |              |              |
| Cyn Brif Weithredwr (hyd 30 Medi 2021) – Nicholas Capaldi              |              |              |
| Cyflog   | 51,548       | 101,830      |
| Cyfraniad pensiwn y cyflogwr   | 10,077       | 21,282       |
|  | 61,625       | 123,112      |
| Cyn Brif Weithredwr (o 6 Medi i 19 Tachwedd 2021) – Siân Tomos         |              |              |
| Cyflog   | 21,751       | -            |
| Cyfraniad pensiwn y cyflogwr   | 4,546        | -            |
|  | 26,297       | -            |
| Prif Weithredwr dros dro Presennol (o 7 Mawrth 2022) – Michael Elliott |              |              |
| Cyflog   | 7,413        | -            |
| Cyfanswm y Prif Weithredwyr  |              |              |
| Cyflog   | 80,712       | 101,830      |
| Cyfraniad pensiwn y cyflogwr   | 14,623       | 21,282       |
|  | 95,335       | 123,112      |

Caiff 66% (2020/21: 67%) o daliadau'r Cadeirydd a 72% (2020/21: 72%) o daliadau'r Prif Weithredwr eu codi yn y datganiadau ariannol hyn a chaiff y gweddill eu codi ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

| Costau teithio a chynhaliaeth yr aed iddynt ac a ad-dalwyd ar fusnes y Cyngor: | 2021/22<br>£ | 2020/21<br>£ |
|--|--------------|--------------|
| Cadeirydd  | 185          | 16           |
| Prif weithredwyr   | 627          | 41           |

Caiff 52% (2020/21: 51%) o dreuliau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr eu codi yn y datganiadau ariannol hyn a chaiff y gweddill eu codi ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

- c. Mae'r rhan fwyaf o'r cyflogeion yn aelodau o Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r gronfa yn gynllun buddion diffiniedig. Mae hefyd yn gynllun cyflogwr lluosog felly ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig, yn unol â FRS 102.

Fel arfer digwydd prisiad actiwaraid annibynnol o Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau pob tair blynedd. Daeth y prisiad diweddaraf, fel ar 31 Mawrth 2019, i rym ar 1 Ebrill 2020. Cyflwynodd y prisiad gyfraddau cyfrannu newydd i'r Cyngor o ran cronni buddion. Mae'n rhagdybio gofyniad parhaus i lefel leiaf o daliadau gael eu gwneud pob blwyddyn tuag at ddiffyg gwasanaeth y gorffennol, ar gyfradd a argymhellir gan actiwari'r cynllun, hyd 31 Mawrth 2029.

Gan dybio y byddai'r symiau a argymhellwyd yn cael eu talu i'r Cynllun, roedd yr actiwari o'r farn bod adnoddau'r cynllun yn debygol, yn nhrefn arferol pethau, o gyflawni'n llawn holl rwymedigaethau'r cynllun wrth iddynt ddod yn ddyledus. Dyma'r prif ragdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd:

- Codiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu (RPI) – cromlin chwyddiant y RPI a ymhlygir gan y farchnad gyda lwfans am breimiwm risg chwyddiant o 0.3% y flwyddyn
- Codiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) – cromlin RPI llai 1.0% y flwyddyn
- Codiadau pensiwn – cyfwerth â'r rhagdybiaeth berthnasol ynghylch chwyddiant
- Codiadau cyflog – yn unol â chwyddiant CPI
- Cyfradd disgownt (gwasanaeth y gorffennol) – cromlin arenillion giltiau a ymhlygir gan y farchnad plws 1.25% y flwyddyn
- Cyfradd disgownt (gwasanaeth y dyfodol) – cromlin arenillion giltiau a ymhlygir gan y farchnad plws 1.60% y flwyddyn



Dyma'r cyfraniadau gan y Cyngor a'i gyflogeion:

|                | Cyngor  |         | Cyflogeion |         |
|----------------|---------|---------|------------|---------|
|                | 2021/22 | 2020/21 | 2021/22    | 2020/21 |
| I'r holl staff | 20.9%   | 20.9%   | 6.0%       | 6.0%    |

Ni chafwyd unrhyw newidiadau i'r graddau cyfrannu o 1 Ebrill 2022.

Mae'r Cyngor hefyd yn talu cyflog pensynadwy o 0.2% mewn perthynas â phob aelod sy'n cael yswiriant bywyd yn unig.

O dan ddeddfwriaeth Cofrestru Awtomatig mae'n ofynnol i bob cyflogai cymwys ymaelodi â chynllun pensiwn cymwys, oni fo'n optio allan yn ffurfiol. Mae gennym gynllun cyfraniadau diffiniedig, Pensiwn y Bobl, fel dewis amgen i gyflogeion nad ydynt yn aelodau o Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau. Cyfrannodd y Cyngor 5% a'r cyflogai 3% yn ystod y flwyddyn. Mae'n bosibl y bydd y cyfraddau hyn yn newid yn y dyfodol, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth.

## 8. Adnoddau a wariwyd Costau llywodraethu

|  | Costau<br>gros<br>£'000 | Didynnu<br>taliadau a<br>ailgodwyd ar<br>Ddosbarthu<br>Arian y Loteri<br>£'000 | 2021/22<br>Swm net a<br>godwyd ar<br>Weith-gareddau<br>Cyffredinol<br>£'000 | 2020/21<br>Swm net a<br>godwyd ar<br>Weith-gareddau<br>Cyffredinol<br>£'000 |
|--|-------------------------|--|---|---|
| Cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd                        | 49                      | 16   | 33  | 33  |
| Cydnabyddiaeth ariannol yr archwilydd – Archwilio          | 49                      | 23   | 26  | 25  |
| Archwilio mewnol   | 33                      | 16   | 17  | 8   |
| Ffioedd cyfreithiol ac ymgynghoriaeth                      | 1                       | -  | 1   | 0   |
| Cyfarfodydd y Cyngor, gan gynnwys teithio a chynhaliaeth   | -                       | -  | -   | 0   |
| Cyfarfodydd pwyllgorau, gan gynnwys teithio a chynhaliaeth | -                       | -  | -   | 0   |
|  | 132                     | 55   | 77  | 66  |

## 9. Asedau sefydlog

| a. Asedau sefydlog anniriaethol              | Trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol<br>£'000 |
|--|--|
| Cost ar 1 Ebrill 2021                        | 297  |
| Ychwanegiadau                                | -  |
| Gwarediadau                                  | -  |
| Cost ar 31 Mawrth 2022                       | 297  |
| Amorteiddiad ar 1 Ebrill 2021                | 296  |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn                   | 1  |
| Gwarediadau                                  | -  |
| Amorteiddiad ar 31 Mawrth 2022               | 297  |
| <b>Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2022</b> | <b>0</b>                                     |
| <b>Gwerth net ar bapur ar 1 Ebrill 2021</b>  | <b>1</b>                                     |

| b. Asedau sefydlog anniriaethol              | Addasiadau i eiddo prydlesol<br>£'000 | System gyfrifiadurol, celfi ac ati<br>£'000 | Gwefan<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|--|---------------------------------------|---|-----------------|-------------------|
| Cost ar 1 Ebrill 2021                        | 107                                   | 706   | 95              | 908               |
| Ychwanegiadau                                | -                                     | 54  | -               | 54                |
| Gwarediadau                                  | -                                     | -   | -               | -                 |
| Cost ar 31 Mawrth 2022                       | 107                                   | 760   | 95              | 962               |
| Amorteiddiad ar 1 Ebrill 2021                | 107                                   | 640   | 95              | 842               |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn                   | -                                     | 53  | -               | 53                |
| Gwarediadau                                  | -                                     | -   | -               | -                 |
| Amorteiddiad ar 31 Mawrth 2022               | 107                                   | 693   | 95              | 895               |
| <b>Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2022</b> | <b>-</b>                              | <b>67</b>                                   | <b>-</b>        | <b>67</b>         |
| <b>Gwerth net ar bapur ar 1 Ebrill 2021</b>  | <b>-</b>                              | <b>66</b>                                   | <b>-</b>        | <b>66</b>         |

Mae'r amorteiddiad a dibrsiad a godwyd wedi'u dyrannu i weithgareddau elusennol o dan gostau cynnal (nodyn 6).

- c. Cynrychiola'r gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2022 yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i gynnal ei weithgareddau elusennol.

Mae eiddo rhydd-ddaliadol y Cyngor yng Nghaerdydd, Theatr Sherman a Stiwdio Rubicon Dance, wedi'u gosod ar brydlesi hir am rent rhad i denantiaid na chânt eu rheoli gan y Cyngor a heb ddarpariaethau naill ai i adolygu'r rhent neu ailfeddiannu'r eiddo gan y Cyngor.

Prynwyd Theatr Sherman gan hen Gyngor Celfyddydau Cymru, isadran o Gyngor Celfyddydau Prydain, ym mis Medi 1987 am £897,000 a chafodd ei gosod ar unwaith am gyfnod o 125 o flynyddoedd. Pan ddiddymwyd Gyngor Celfyddydau Prydain ym mis Mawrth 1994, trosglwyddwyd y buddiant rhyddfrefniol i Gyngor Celfyddydau Cymru a oedd newydd ei ffurfio.

Prynwyd Stiwdio Rubicon Dance gan hen Gyngor Celfyddydau Cymru ym mis Chwefror 1988 am £11,315 ac yn ddarostyngedig i brydles o 999 o flynyddoedd oedd yn bodoli eisoes ac a ddechreuasai ar 1 Ionawr 1986. Trosglwyddwyd y buddiant rhyddfrefniol i Gyngor Celfyddydau Cymru ym mis Mawrth 1994.

Roedd y prisiad allanol, annibynnol diweddaraf o eiddo rhyddfrefniol y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2004. Fe'i gwnaed gan Elizabeth Hill, Aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, dros ac ar ran Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig. Oherwydd effaith y prydlesi, barn y syrfewr oedd nad oedd dim gwerth neu werth nominal yn unig i'r buddiannau rhyddfrefniol, felly caiff yr asedau hyn eu dal yn y cyfrifon ar ddim gwerth.

Nid yw'r Cyngor o'r farn bod angen gwneud prisiad arall nes y bydd lleihad sylweddol yn hyd y prydlesi sy'n weddill neu eu bod yn cael eu terfynu'n gynt.

## 10. Dyledwyr (sy'n ddyledus o fewn blwyddyn)

|   | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|---|------------------|------------------|
| Llywodraeth Cymru – cymorth grant   | 300              | 800              |
| Llywodraeth Cymru – Cyllid Adferiad Diwylliannol                                  | 462              | 3,687            |
| Llywodraeth Cymru – cronfeydd eraill  | 148              | -                |
| Benthyciadau'r Cynllun Casglu <sup>1</sup>  | 479              | 266              |
| Dyledwyr masnachol  | 135              | 60               |
| Dyledwyr eraill   | 812              | 1,102            |
|   | 2,336            | 5,915            |
| Didynnu Darpariaeth benodol ar gyfer dyledion amheus                              | -                | -                |
| <i>Is-gyfanswm: Dyledwyr</i>  | 2,336            | 5,915            |
| Rhagdaliadau  | 199              | 238              |
|   | 2,535            | 6,153            |
| Yn ddyledus o gronfa dosbarthu arian y Loteri am gostau yr ailgodir tâl amdanynt: |                  |                  |
| Dosraniadau costau  | 227              | 185              |
|   | 2,762            | 6,338            |

<sup>1</sup> Cynllun benthyciadau heb log y Cyngor yw'r Cynllun Casglu, sydd ar gael i'r cyhoedd i'w cynorthwyo i brynu gweithiau celf a chreffft cyfoes o'r orielau sy'n cymryd rhan ledled Cymru. Ad-delir benthyciadau rhwng £50 a £5,000 drwy randaliadau misol dros gyfnod heb fod yn fwy na blwyddyn.

## 11. Credydwyr

|  | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|--|------------------|------------------|
| <b>a. Credydwyr: sy'n ddyledus o fewn blwyddyn</b>       |                  |                  |
| Grantiau sy'n daladwy                                    | 1,280            | 4,911            |
| Trethi a nawdd cymdeithasol                              | 145              | 94               |
| Credydwyr masnachol                                      | 141              | 31               |
| Credydwyr eraill   | 130              | 76               |
| Croniadau ac incwm gohiriedig                            | 209              | 210              |
|  | 1,905            | 5,322            |
| <b>b. Credydwyr: sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn</b> |                  |                  |
| Grantiau sy'n daladwy                                    | 30               | 33               |

## 12. Rhwymedigaeth wrth gefn

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r Cynllun yn gynllun buddion diffiniedig a gyllidir cyflogwyr lluosog lle na all y cyflogwyr sy'n cyfranogi nodi eu cyfrannau o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol.

Pe bai cyflogwr yn tynnu'n ôl, byddai'r ddyled a gâi ei hysgogi o dan adran 75 o Ddeddf Pensiynau 1995 yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio diffyg solfedd y Cynllun cyfan, nid cyfran asedau a rhwymedigaethau'r cyflogwr ei hun. Hefyd, pe câi'r Cynllun ei ddirwyn i ben, gan mai trefniant "y dyn olaf ar ei draed" yw'r Cynllun, byddai'r holl gyflogwyr yn atebol ar y cyd ac yn unigol am gyfanswm y diffyg yn y Cynllun.

## 13. Datganiad o gronfeydd

|   | Ar 1 Ebrill<br>2021<br>£'000 | Adnoddau<br>i mewn<br>£'000 | Adnoddau<br>a wariwyd<br>£'000 | Trosglwy-<br>ddiadau<br>£'000 | Ar 31<br>Mawrth<br>2022<br>£'000 |
|---|------------------------------|-----------------------------|--------------------------------|-------------------------------|----------------------------------|
| <b>Cronfeydd incwm anghyfyngedig</b>  |                              |                             |                                |                               |                                  |
| Cronfa gyffredinol  | 1,295                        | 31,216                      | (31,205)                       | (640)                         | 666                              |
| <b>Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig</b>                                       | <b>1,295</b>                 | <b>31,216</b>               | <b>(31,205)</b>                | <b>(640)</b>                  | <b>666</b>                       |
| <b>Cronfeydd cyfyngedig</b>   |                              |                             |                                |                               |                                  |
| <b>Incwm</b>  |                              |                             |                                |                               |                                  |
| Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllid Adferiad Diwylliannol                       | -                            | 12,697                      | (13,239)                       | 542                           | 0                                |
| Llywodraeth Cymru at weithgarwch penodol arall ym maes y celfyddydau          | 57                           | 2,116                       | (2,245)                        | 92                            | 20                               |
| Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau                                    | 999                          | 1,740                       | (1,219)                        | -                             | 1,520                            |
| Arts Council England (ar gyfer Hynt)  | -                            | 83                          | (13)                           | 1                             | 71                               |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (ar gyfer Natur Greadigol)                             | -                            | 65                          | (68)                           | 3                             | 0                                |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol   | 8                            | -                           | (8)                            | 0                             | 0                                |
| Gweithgareddau Celfyddydau Rhyngwladol Cymru                                  | 14                           | 83                          | (50)                           | 2                             | 49                               |
|   | 1,078                        | 16,784                      | (16,842)                       | 640                           | 1,660                            |
| <b>Cyfalaf</b>  |                              |                             |                                |                               |                                  |
| Cronfa Goffa Alun Llywelyn Williams (incwm i ddarparu bwrsari i artist ifanc) | 13                           | -                           | -                              | -                             | 13                               |
| Cronfa Goffa Brian Ross (incwm i ddarparu bwrsari i artist gweledol ifanc)    | 80                           | -                           | -                              | -                             | 80                               |
|   | 93                           | -                           | -                              | -                             | 93                               |
| <b>Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig</b>  | <b>1,171</b>                 | <b>16,784</b>               | <b>(16,842)</b>                | <b>640</b>                    | <b>1,753</b>                     |
| <b>Cyfanswm cronfeydd</b>   | <b>2,466</b>                 | <b>48,000</b>               | <b>(48,047)</b>                | <b>0</b>                      | <b>2,419</b>                     |

Caiff Cronfeydd Coffa Alun Llywelyn Williams a Brian Ross eu cynrychioli gan arian yn y banc ac maent yn y cyfanswm o £1,525,000 a ddangosir ar y Fantolen.

## 14. Dadansoddiad o asedau net rhwng mathau o gronfeydd

| Cynrychiolir balansau cronfeydd ar 31 Mawrth 2022 gan: | Cronfeydd anghyfyngedig<br>£'000 | Cronfeydd cyfyngedig<br>£'000 | Total<br>£'000 |
|--|----------------------------------|-------------------------------|----------------|
| Asedau sefydlog  | 67                               | -                             | 67             |
| Asedau cyfredol  | 1,844                            | 2,443                         | 4,287          |
| Credydwyr: sy'n ddyledus o fewn blwyddyn               | (1,215)                          | (690)                         | (1,905)        |
| Credydwyr: sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn         | (30)                             | -                             | (30)           |
| <b>Cyfanswm asedau net</b>                             | <b>666</b>                       | <b>1,753</b>                  | <b>2,419</b>   |

## 15. Gwybodaeth am lifau arian

|   | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|---|------------------|------------------|
| <b>a. Llifau arian o weithgareddau gweithredu</b>                       |                  |                  |
| Adnoddau i mewn/(allan) net   | (47)             | (374)            |
| Llog banc a dderbyniwyd (net o'r ildiad)                                | 0                | (1)              |
| Amorteiddiad a dibisiad (nodyn 9)                                       | 54               | 60               |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn y grantiau a dalwyd ymlaen llaw                 | 0                | 140              |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn y dyledwyr                                      | 3,576            | (4,259)          |
| Cynnydd/(Gostyngiad) yn y credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn       | (3,417)          | 3,578            |
| Cynnydd/(Gostyngiad) yn y credydwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | (3)              | 4                |
| <b>Mewnlif (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu</b>     | <b>(163)</b>     | <b>(852)</b>     |
| <b>b. Llifau arian o weithgareddau buddsoddi</b>                        |                  |                  |
| Llog banc a dderbyniwyd   | 0                | 2                |
| Llog banc a ildwyd i Gronfa Gyfunol Cymru                               | 0                | (1)              |
| <b>Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi</b>                | <b>0</b>         | <b>1</b>         |
| <b>c. Llifau arian cysylltiedig ag asedau cyfalaf</b>                   |                  |                  |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol (nodyn 9a)              | 0                | -                |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol (nodyn 9b)                | (54)             | (34)             |
| <b>All-lif arian parod net cysylltiedig ag asedau cyfalaf</b>           | <b>(54)</b>      | <b>(34)</b>      |

## 16. Ymrwymiadau o ran prydlesi gweithredu

Ar 31 Mawrth 2022 roedd gan y Cyngor yr ymrwymiadau canlynol o ran taliadau yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu nad oedd modd eu diddymu:

| Cyfanswm sy'n ddyledus        | Tir ac adeiladau |               | Offer         |               |
|-------------------------------|------------------|---------------|---------------|---------------|
|                               | 2022<br>£'000    | 2021<br>£'000 | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 |
| o fewn blwyddyn               | 123              | 132           | 0             | 2             |
| rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 499              | 494           | 0             | -             |
| ar ôl pum mlynedd             | 233              | 360           | 0             | -             |
|                               | <b>855</b>       | <b>986</b>    | <b>0</b>      | <b>2</b>      |

Cafodd taliadau prydlesi gwerth £154,000 eu cydnabod fel treuliau yn ystod y flwyddyn (2020/21: £108,000). Caiff 52% (2020/21: 51%) o'r costau eu codi yn y datganiadau ariannol hyn a'r gweddill ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

## 17. Blaenymrwymiadau

|   | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 |
|---|---------------|---------------|
| Grantiau  |               |               |
| Blaengyllido – grantiau a gynigiwyd yn ffurfiol | <b>27,484</b> | <b>27,082</b> |

Mae'r blaengyllido ar 31 Mawrth 2022 yn cynrychioli dyraniadau i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru ar gyfer 2022/23.

## 18. Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

Mae Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi'i bwriadu i:

- wella cyrhaeddiad addysgol
- adeiladu system addysg a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol i economi gryfach, mwy o arloesi, mwy o greadigrwydd, ac i gyfalaf diwylliannol y genedl
- creu newid sylweddol yn ystod ac ansawdd y cyfleoedd a roddir i blant a phobl ifanc ymgysylltu â'r celfyddydau a diwylliant a dysgu amdanynt

Cafodd y cam cyntaf, o 2015 i 2020, ei ariannu gan gydfuddsoddiad o £20 miliwn gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, gan gydweithio â'r consortia addysg rhanbarthol, ysgolion, awdurdodau lleol a'r sector celfyddydol a diwylliannol ehangach. Mae'r Rhaglen yn gofyn am ymgyfranogiad gweithredol artistiaid, gweithwyr creadigol proffesiynol a sefydliadau ym meysydd y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth gan weithio mewn partneriaeth ag athrawon ac ysgolion.

Estynnwyd y rhaglen am ddwy flynedd o 2020 i 2022 ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi estyniad pellach am dair blynedd arall hyd 2025.

Daw buddsoddiad y Cyngor o gronfeydd y Loteri. Rhoddir cyfrif am hyn, ynghyd â chyfraniad Llywodraeth Cymru a holl wariant y Rhaglen, yn y datganiadau ariannol hyn. Cytunwyd ar y dull hwn gydag archwilwyr allanol y Cyngor a'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

|  | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|--|------------------|------------------|
| <b>Incwm</b>                                 |                  |                  |
| Grant gan Lywodraeth Cymru                   | 978              | 750              |
| Grant Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru        | 750              | 1,083            |
| Ad-dalu grantiau'r flwyddyn flaenorol        | 12               | 4                |
| Incwm partneriaeth                           | -                | 45               |
| Llog banc                                    | 0                | 1                |
|  | <b>1,740</b>     | <b>1,883</b>     |
| <b>Gwariant</b>                              |                  |                  |
| Ysgolion Creadigol Arweiniol                 | 718              | 1,073            |
| Rhaglen y celfyddydau ac addysg              | 20               | 10               |
| Traws-raglen y celfyddydau a dysgu creadigol | 37               | 48               |
| Costau rheoli canolog                        | 445              | 410              |
| Costau cynnal (o gronfeydd anghyfyngedig)    | -                | -                |
|  | <b>1,220</b>     | <b>1,541</b>     |



## 19. Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol 102 yn ei gwneud yn ofynnol datgelu'r rôl a fu gan offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau mae'r Cyngor yn eu hwynebu wrth gyflawni ei swyddogaethau.

*Risgiau hylifedd* – Yn 2021/22 deilliai £46,791,000 neu 97% o incwm y Cyngor o Lywodraeth Cymru (2020/21: £53,584,000 neu 97%). O'r incwm sy'n weddill, deilliai £750,000 neu 2% o gyfrif Dosbarthu Arian Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau (2020/21: £1,083,000 neu 2%) a deilliai £459,000 neu 1% o incwm o fuddsoddiadau ac incwm amrywiol (2020/21: £614,000 neu 1%). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw risg sylweddol o ran hylifedd, ac mae'n fodlon bod incwm y dyfodol yn ddigon i gyflawni ei ymrwymadau.

*Risgiau cyfraddau llog* – Caiff balansau arian a dynnir i lawr oddi wrth Lywodraeth Cymru i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu eu cadw mewn cyfrif banc cyfradd amrywiol sy'n caniatáu cael yr arian ar unrhyw adeg. Ar gyfartaledd 0.02% oedd y gyfradd llog yn y flwyddyn (2020/21: 0.15%). Balans arian parod anghyfyngedig i bob pwrpas ar ddiwedd y flwyddyn oedd £335,000 (2021: £593,000). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i risgiau sylweddol o ran cyfraddau llog.

*Risg arian tramor* – Nid yw gweithgareddau cyffredinol y Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran cyfnewid arian tramor.

*Risg llif arian* – Nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran llif arian.

*Risg credyd* – Nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o ddyledwyr yn ymwneud ag incwm o Lywodraeth Cymru.

## 20. Treth Gorfforaethol

Mae'r Cyngor yn gorff elusennol a noddir gan Lywodraeth Cymru ac felly mae'n cael ei eithrio rhag Treth Gorfforaethol o dan Adran 505 o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988.

## 21. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

### Awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu ar yr un dyddiad ag yr ardystiodd Archwilydd Cyffredinol Cymru hwy.

## 22. Trafodion â phartion cysylltiedig

### Cyrff cyhoeddus

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cyngor.

Ystyrir Senedd Cymru/Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn ni chafodd y Cyngor unrhyw drafodion perthnasol â Senedd Cymru/Llywodraeth Cymru ar wahân i'r cymorth grant a ddatgelwyd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol a'r grantiau cyfyngedig a ddatgelwyd yn nodyn 3.

### Unigolion

Ymgwymerodd aelodau o'r Cyngor, o'r Pwyllgorau, o'r staff neu bartion cysylltiedig eraill (sef perthnasau agos) â thrafodion ariannol (a restrir isod) â'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Lle roedd yr unigolion a/neu berthnasau agos iddynt yn aelodau o Fyrddau Rheoli (neu eu cyfateb) neu'n uwch gyflogeion mewn sefydliadau a gafodd gynnig grantiau neu daliadau eraill gan y Cyngor yn 2021/22, ym mhob achos o'r fath, yn unol â Chod Ymarfer Gorau'r Cyngor, gadawodd yr unigolyn dan sylw unrhyw gyfarfod lle cafwyd trafodaeth neu benderfyniad ynghylch cyllid.

O dan God Ymarfer Gorau'r Cyngor, bernir bod buddiant yn parhau am flwyddyn o leiaf ar ôl i'r unigolyn adael y swydd a greodd y buddiant. Adlewyrchir y polisi hwn yn y datgeliadau canlynol.

Cofnodir trafodion â'r Cyngor fel un o ddsbarthwyr arian y Loteri yn y nodyn cyfatebol i'r Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri ar wahân.

| Aelodau'r Cyngor<br>Rôl       | Sefydliad                           | Trafodion<br>2021/22<br>(nifer) | Cyfanswm<br>gwerth<br>2021/22<br>£ | Cyfanswm y<br>balans oedd yn<br>ddyledus ar 31<br>Mawrth 2022 <sup>1</sup><br>£ |
|-------------------------------|-------------------------------------|---------------------------------|------------------------------------|---|
| <b>Elen ap Robert</b>         |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyfarwyddwr                   | Opera Cendledlaethol Cymru          | Grant (1)                       | 4,583,851                          | Dim   |
| Cadeirydd                     | Eisteddfod Genedlaethol             | Grant (0)                       | Dim                                | 300   |
| <b>Lhosa Daly</b>             |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth                    | National Trust                      | Grant (1)                       | 25,000                             | 2,500   |
| <b>Devinda De Silva</b>       |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth                    | National Theatre Wales              | Grant (1)<br>Anfoneb (1)        | 1,624,075<br>960                   | Dim<br>Dim  |
| Aelod o'r bwrdd               | Dirty Protest                       | Grant (2)<br>Anfoneb (1)        | 135,372<br>8,863                   | 11,144<br>Dim   |
| Aelod o'r bwrdd               | Disability Arts Cymru               | Grant (4)                       | 244,367                            | 72,630  |
| Advisor                       | Migrations                          | Grant (1)                       | 20,200                             | Dim   |
| <b>Andy Eagle</b>             |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth                    | Chapter                             | Grant (4)                       | 1,706,331                          | 59,700  |
| <b>Kate Eden</b>              |                                     |                                 |                                    |   |
| Aelod o'r cyngor              | Prifysgol Aberystwyth               | Grant (3)<br>Anfoneb (1)        | 1,385,833<br>47                    | 23,792<br>Dim   |
| <b>Ruth Fabby</b>             |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth                    | Celfyddydau Anabledd Cymru          | Grant (4)                       | 244,367                            | 72,630  |
| <b>Professor Tudur Hallam</b> |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth                    | Prifysgol Abertawe                  | Grant (1)<br>Anfoneb (1)        | 126,770<br>9,000                   | Dim<br>Dim  |
| <b>Tafsila Khan</b>           |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth                    | Canolfan Mileniwm Cymru             | Grant (4)                       | 5,872,226                          | 49,605  |
| Aelod o'r bwrdd               | FIO                                 | Grant (0)                       | Dim                                | 500   |
| Aelod o'r bwrdd               | Taking Flight                       | Grant (2)                       | 75,456                             | 14,803  |
| Aelod o'r panel               | National Theatre Wales              | Grant (1)<br>Anfoneb (1)        | 1,624,075<br>960                   | Dim<br>Dim  |
| <b>Gwennan Mair</b>           |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth                    | Theatr Clwyd                        | Grant (1)                       | 1,200,000                          | 800   |
| Aelod o'r bwrdd drama         | Eisteddfod Genedlaethol             | Grant (0)                       | Dim                                | 300   |
| <b>Victoria Provis</b>        |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyngor                        | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Grant (0)                       | Dim                                | 6,631   |
| <b>Dafydd Rhys</b>            |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth                    | Prifysgol Aberystwyth               | Grant (3)<br>Anfoneb (1)        | 1,385,833<br>47                    | 23,792<br>Nil   |
| <b>Dr Sarah Younan</b>        |                                     |                                 |                                    |   |
| Gwirfoddolwr                  | Watch Africa Cymru                  | Grant (1)                       | 9,850                              | 9,850   |

| Aelodau o Bwyllgorau<br>Rôl | Sefydliad                           | Trafodion<br>2021/22<br>(nifer) | Cyfanswm<br>gwerth<br>2021/22<br>£ | Cyfanswm y<br>balans oedd yn<br>ddyledus ar 31<br>Mawrth 2022 <sup>1</sup><br>£ |
|-----------------------------|-------------------------------------|---------------------------------|------------------------------------|---|
| <b>Andrew Butler</b>        |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth (Perthynas)      | Archwilio Cymru                     | Anfoneb (1)                     | 24,959                             | Dim   |
| <b>Jayne Woods</b>          |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyngor                      | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Grant (0)                       | Dim                                | 6,631   |

| Aelodau'r staff<br>Rôl         | Sefydliad                          | Trafodion<br>2021/22<br>(nifer) | Cyfanswm<br>gwerth<br>2021/22<br>£ | Cyfanswm y<br>balans oedd yn<br>ddyledus ar 31<br>Mawrth 2022 <sup>1</sup><br>£ |
|--------------------------------|------------------------------------|---------------------------------|------------------------------------|---|
| <b>Karine Décorne</b>          |                                    |                                 |                                    |   |
| Aelod o'r bwrdd                | Migrations                         | Grant (1)                       | 20,200                             | Dim   |
| Aelod o'r bwrdd<br>(Perthynas) | Datrys                             | Grant (1)                       | 5,112                              | Dim   |
| <b>Gillian Hughes</b>          |                                    |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth (Perthynas)         | Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen | Grant (2)                       | 209,770                            | Dim   |
| <b>Rhian Hâf Jones</b>         |                                    |                                 |                                    |   |
| Aelod                          | Eisteddfod Genedlaethol Cymru      | Grant (0)                       | Dim                                | 300   |
| <b>Duncan Lackie</b>           |                                    |                                 |                                    |   |
| Llywodraethwr                  | Ysgol Pen-y-Groes                  | Grant (0)                       | Dim                                | 1,000   |
| <b>Sally Lewis</b>             |                                    |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth (Perthynas)         | Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru     | Grant (2)<br>Anfoneb (3)        | 853,362<br>2,700                   | 10,000<br>Dim   |
| Cyflogaeth (Perthynas)         | Ballet Cymru                       | Grant (2)                       | 287,152                            | Dim   |
| <b>Judith Musker Turner</b>    |                                    |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth (Perthynas)         | Calan                              | Anfoneb (1)                     | 396                                | Dim   |
| <b>Sian Parry-Jones</b>        |                                    |                                 |                                    |   |
| Llywodraethwr                  | Ysgol Hamadryad                    | Grant (1)                       | 1,000                              | Dim   |
| <b>Daniel Trivedy</b>          |                                    |                                 |                                    |   |
| Aelod o'r bwrdd                | Oriel Elysium                      | Grant (2)                       | 54,450                             | 49,500  |
| <b>Eluned Hâf Williams</b>     |                                    |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth (Perthynas)         | Canolfan Gerdd William Mathias     | Grant (1)                       | 50,000                             | 50,000  |

<sup>1</sup> Gall cyfanswm y balans oedd yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn gynnwys symiau o ran grantiau a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd blaenorol ond nas talwyd eto.

# Datganiadau Ariannol Dosbarthu Arian y Loteri

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu


O dan Adran 35 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi am bob blwyddyn ariannol ddatganiad cyfrifon ar gyfer ei weithgareddau dosbarthu arian y Loteri ar y ffurf ac ar y sail a benderfynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Paratwir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Cyngor ac o'i incwm a'i wariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a gweithredu polisiau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad a Datganiadau Ariannol yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad a Datganiadau Ariannol a'r farn sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.


Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Cyngor, yn y ddogfen Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

A ffinau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylaswn ei gymryd i beri fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilydd y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.



**Michael Elliott**  
Swyddog Cyfrifyddu  
8 Gorffennaf 2022

**Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:**



**Phil George**  
Cadeirydd  
8 Gorffennaf 2022

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd ac Aelodau o Senedd Cymru

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Llifau Arian a Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu pwysig.

Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2022 ac o gyfanswm ei wariant cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dani.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.



## Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU), y ddeddfwriaeth berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn yr adran ar gyfrifoldebau'r Archwilydd am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol imi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesebol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf hefyd wedi dewis defnyddio'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwyf yn annibynnol ar Gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn

Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes hyfyw

O archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru o sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi canfod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru i barhau fel busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu o ran busnes hyfyw wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Caiff cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw ei fabwysiadu ar gyfer Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru gan roi sylw i'r gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r dull cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarparant yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth yn yr Adroddiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na'm tystysgrif ac adroddiad fel archwilydd ohonynt. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad o ran sicrwydd arni.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gefais yn yr archwiliad neu'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol.

Os wyf yn canfod anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw'n achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, y dof i'r casgliad bod yna gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Yn fy marn, ar sail y gwaith a gyflawnwyd yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc.1993; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr wyf yn cyflwyno adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a dealltwriaeth o Gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi mewn perthynas â'r materion canlynol a adroddaf wrthych os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau mae arnaf eu hangen r gyfer fy archwiliad; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan Gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru neu na chafwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio'n gyson â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth a ragnodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi wedi'u gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w archwilio yn gyson â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r cyfrifon fel cyfanwaith yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- y rheolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldeb yr archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol ac adrodd arnynt yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## Y graddau yr ystyriwyd y gallai'r archwiliad ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Rwyf yn llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, fel y'u nodir uchod, er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Mae'r graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, wedi'u nodi isod.

## Canfod ac asesu risgiau posibl yn gysylltiedig ag achosion o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Ystyriasom y canlynol wrth ganfod ac asesu'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll:

- natur y sector, amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisiau cyfrifyddu Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru;
- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol mewn perthynas â pholisiau a gweithdrefnau Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n ymwneud â:
  - › chanfod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio;
  - › canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, a amheuir neu a honnir; ac
  - › y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau mewn perthynas â thwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau allweddol sy'n cynnwys rheolaethau Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru;
- trafod ymysg y tîm ymgysylltu, a chan gynnwys arbenigwyr mewnol perthnasol, gan gynnwys arbenigwyr TG, ynghylch sut a phryd y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw arwyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion ar gyfer twyll a all fodoli yng Nghyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru. Nodais y potensial mwyaf am dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabyddiaeth refeniw, postio dyddlyfrau anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn yn amcangyfrifon rheolwyr. Yn gyffredin â'r holl archwiliadau a gyflawnwyd o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU, mae hefyd yn ofynnol imi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

Yn ogystal, cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd y deddfau a rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyddestun hwn yn cynnwys Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, cyfraith cyflogaeth a deddfwriaeth trethi.

### **Ymateb yr archwiliad i risgiau a ganfuwyd**

O ganlyniad i gyflawni'r uchod, roedd y gweithdrefnau a roddais ar waith i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi'r dogfennau ategol i asesu eu cydymffurfiaeth â'r deddfau a rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg am ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen ac adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor ac adroddiadau archwilio mewnol; ac
- wrth fynd i'r afael â risg twyll a achosir gan reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n dangos rhagfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu hwnt i hynt arferol busnes.

Hefyd trosglwyddais y deddfau a rheoliadau perthnasol a ganfuwyd ynghyd â'r risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm ymgysylltu gan gynnwys arbenigwyr mewnol ac arhosais yn wylidwrus am unrhyw arwyddion o dwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â'r deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'r cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'r tystysgrif/adroddiad.

### **Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**

Mae'n ofynnol imi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a nodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol o ran rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

### **Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

13 Gorffennaf 2022

National Audit Office

157-197 Buckingham Palace Road

Victoria

London

SW1W 9SP

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygredd gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

### **Cyfieithiad Cymraeg**

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoel. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

# Cyngor Celfyddydau Cymru

## Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

|  | Nodi-<br>adau | 2021/22 |         | 2020/21 |        |
|--|---------------|---------|---------|---------|--------|
|  |               | £'000   | £'000   | £'000   | £'000  |
| <b>Gwariant</b>  |               |         |         |         |        |
| Rheoli a gweinyddu:  |               |         |         |         |        |
| Costau staff   | 2a            | 1,219   |         | 1,105   |        |
| Costau gweithredu eraill   | 2b            | 595     |         | 580     |        |
|  |               |         | 1,814   |         | 1,685  |
| <b>Gwariant ar y celfyddydau:</b>  |               |         |         |         |        |
| Grantiau a roddwyd   |               | 20,918  |         | 10,014  |        |
| Llai: Grantiau a aeth yn ddi-rym ac a dynnwyd yn ôl                              |               | (281)   |         | (187)   |        |
| Grantiau a roddwyd net   | 7             |         | 20,637  |         | 9,827  |
| Dosbarthwyr dirprwyedig  | 9             |         | 1,885   |         | 2,195  |
| Dyfarniadau celfyddydau eraill   | 3             |         | 60      |         | 90     |
| Costau uniongyrchol rhoi grantiau  | 2c            |         | 11      |         | 18     |
|  |               |         | 22,593  |         | 12,130 |
| <b>Cyfanswm gwariant</b>   |               |         | 24,407  |         | 13,815 |
| <b>Incwm</b>   |               |         |         |         |        |
| Cyfran o'r arian oddi wrth y Loteri Genedlaethol                                 | 4             |         | 18,078  |         | 18,138 |
| Incwm buddsoddiad ar falansau yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol | 4             |         | 25      |         | 10     |
| Incwm partneriaeth   |               |         | 100     |         | -      |
| Llog derbyniadwy   |               |         | 1       |         | 3      |
| Grantiau mae modd eu hadennill   |               |         | 38      |         | 46     |
| <b>Cyfanswm incwm</b>  |               |         | 18,242  |         | 18,197 |
| <b>Cyfanswm (Gwariant)/Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn</b>                       |               |         | (6,165) |         | 4,382  |

Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi peidio ac ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau yn ystod y flwyddyn.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai a ddangosir uchod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 161 i 172 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.



# Cyngor Celfyddydau Cymru

## Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

ar 31 Mawrth 2022

|   | Nodi-<br>adau | 31 Mawrth 2022 |          | 31 Mawrth 2021 |          |
|---|---------------|----------------|----------|----------------|----------|
|   |               | £'000          | £'000    | £'000          | £'000    |
| <b>Asedau cyfredol:</b>   |               |                |          |                |          |
| Asedau ariannol:  |               |                |          |                |          |
| Buddsoddiadau – balans a ddelir yng Nghronfa<br>Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol   | 4             | 26,165         |          | 21,121         |          |
| Symiau masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy  | 5             | 151            |          | 151            |          |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod  | 8             | 1,801          |          | 2,143          |          |
| <b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>   |               |                | 28,117   |                | 24,415   |
| <b>Cyfanswm asedau</b>  |               |                | 28,117   |                | 24,415   |
| <b>Symiau masnach sy'n daladwy a rhwymedigaethau<br/>cyfredol eraill – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:</b>              |               |                |          |                |          |
| Symiau masnach a symiau eraill sy'n daladwy   | 6             | (255)          |          | (210)          |          |
| Rhwymedigaethau eraill:   |               |                |          |                |          |
| Dosbarthwyr dirprwyedig   | 6             | (1,189)        |          | (973)          |          |
| Grantiau  | 6             | (16,078)       |          | (9,004)        |          |
| <b>Cyfanswm symiau sy'n daladwy a rhwymedigaethau<br/>cyfredol eraill</b>   |               |                | (17,522) |                | (10,187) |
| <b>Asedau anghyfredol plws asedau cyfredol net</b>  |               |                | 10,595   |                | 14,228   |
| <b>Symiau masnach sy'n daladwy a rhwymedigaethau<br/>anghyfredol eraill – symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na<br/>blwyddyn:</b> |               |                |          |                |          |
| Grantiau  | 7             |                | (4,415)  |                | (1,883)  |
| <b>Asedau llai rhwymedigaethau</b>  |               |                | 6,180    |                | 12,345   |
| <b>Ecwiti/Arian wrth gefn:</b>  |               |                |          |                |          |
| <b>Cyfrif Gwariant Net</b>  |               |                | 6,180    |                | 12,345   |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 161 i 172 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'u llofnodi ar ei ran gan

Michael Elliott  
Swyddog Cyfrifyddu  
8 Gorffennaf 2022

Phil George  
Cadeirydd  
8 Gorffennaf 2022

# Cyngor Celfyddydau Cymru

## Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Datganiad o Lifau Arian

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

|  | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|--|------------------|------------------|
| <b>Llifau arian o weithgareddau gweithredu</b>   |                  |                  |
| Incwm/(gwariant) net   | (6,165)          | 4,382            |
| Llog banc  | (1)              | (3)              |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn y balans a ddaliwyd yng Nghronfa<br>Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol  | (4,044)          | (4,085)          |
| Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau masnach a symiau eraill sy'n<br>dderbyniadwy                       | -                | (1)              |
| Cynnydd)/(Gostyngiad) mewn symiau masnach a symiau eraill sy'n<br>daladwy a rhwymedigaethau eraill | 261              | 406              |
| Cynnydd)/(Gostyngiad) mewn grantiau sy'n daladwy   | 9,606            | 317              |
| <b>Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu</b>                                | <b>(343)</b>     | <b>1,016</b>     |
|  |                  |                  |
| <b>Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi</b>  |                  |                  |
| Llog banc  | 1                | 3                |
| <b>Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi</b>   | <b>1</b>         | <b>3</b>         |
|  |                  |                  |
| <b>Arian parod a chyfwerth ag arian parod</b>  |                  |                  |
| Cynnydd)/(Gostyngiad) net mewn balansau arian parod a chyfwerth<br>ag arian parod                  | (342)            | 1,019            |
| Balans ar 1 Ebrill   | 2,143            | 1,124            |
| Balans ar 31 Mawrth  | <b>1,801</b>     | 2,143            |

## Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

|                                     | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|-------------------------------------|------------------|------------------|
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn       | 12,345           | 7,963            |
| Incwm net am y flwyddyn             | (6,165)          | 4,382            |
| <b>Balans ar ddiwedd y flwyddyn</b> | <b>6,180</b>     | 12,345           |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 161 i 172 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Nodiadau sy'n rhan or' Datganiad Ariannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

### 1. Polisiau cyfrifyddu

#### a. Sail y paratoi

Paratoir y datganiadau ariannol hyn ar sail busnes hyfyw ac o dan y confensiwn cost hanesyddol. Maent wedi cael eu paratoi ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chydsyniad Trysorlys Ei Mawrhydi yn unol ag Adran 35(3) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a chyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi mewn cydymffurfiaeth â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u dehonglir yng nghyd-destun y sector cyhoeddus yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

IFRS 16 yw'r safon cyfrifyddu newydd sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu prydesi. Mae mewn grym yn gyffredinol o 1 Ionawr 2019 ymlaen ond ar gyfer cyrff sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig mae wedi cael ei gohirio hyd 1 Ebrill 2022.

IFRS 17 yw'r safon cyfrifyddu newydd sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant. Mae mewn grym yn gyffredinol o 1 Ionawr 2023 ymlaen.

#### Effaith safonau nad ydynt mewn grym eto

Caiff cymhwyso unrhyw safonau adrodd ariannol rhyngwladol newydd neu ddiwygiedig ei lywodraethu pan gânt eu mabwysiadu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Mae'r Cyngor yn cymhwyso newidiadau i safonau pan ddônt i rym. Nid oes unrhyw effeithiau perthnasol hysbys o newidiadau i safonau adrodd ariannol rhyngwladol a gyhoeddwyd ac nad ydynt mewn grym eto ar y datganiadau ariannol yn y cyfnod cymhwyso cyntaf.

#### b. Cydnabod incwm a gwariant

Rhoddir cyfrif am yr holl incwm ar sail croniadau. Rhoddir cyfrif am yr holl wariant ar sail croniadau ac mae wedi'i ddsbarthu o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

#### c. Gweithgareddau cyffredinol

Nid yw'r datganiadau ariannol hyn yn cwmpasu gweithgareddau cyffredinol y Cyngor, a gyllidir drwy gymorth grant yn bennaf, ac y paratowyd datganiadau ariannol ar wahân ar eu cyfer.

#### **d. Grantiau**

Rhoddir cyfrif am grantiau fel gwariant yn y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr a, nes y cânt eu talu, fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

- i. os ydynt wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor, neu o dan awdurdod dirprwyedig; ac
- ii. os oes hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol (gan gynnwys e-bost neu gyfathrebiad electronig arall) wedi'i gyflwyno i'r derbynwyr bwriadedig; ac
- iii. os yw'r cynigion heb unrhyw amodau o dan reolaeth y Cyngor.

Cydnabyddir grantiau sy'n daladwy cyn pen blwyddyn ar ôl diwedd y flwyddyn yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn rhwymedigaethau cyfredol. Dangosir y rhai sy'n daladwy mwy na blwyddyn ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel y cyfryw.

Nid yw grantiau sydd wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor, neu o dan awdurdod dirprwyedig, nad ydynt yn bodloni diffiniad rhwymedigaethau yn cael eu cynnwys o dan wariant yn y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr nac fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ond cânt eu datgelu yn nodyn 7.

#### **e. Dirprwyo i bartneriaid allanol**

Mae gan y Cyngor gytundebau dirprwyo cwbl weithredol gyda nifer o gyrff i weithredu fel sefydliadau arweiniol yn y gwaith o gyflawni cynlluniau grant. Caiff y swyddogaeth statudol o benderfynu ar grantiau ei dirprwyo i'r gyrff. Mae telerau'r dirprwyaeth allanol wedi'u nodi mewn cytundebau ffurfiol ac yn bodloni amodau Cyfarwyddiadau Ariannol y Cyngor. Nid yw'r dirprwyo yn newid rhwymedigaethau Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor.

Caiff symiau blynyddol a ddirprwyir gan y Cyngor i'r partneriaid eu cydnabod fel gwariant yn y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr. Caiff arian ei dynnu i lawr gan y partneriaid i gyflawni ymrwymadau grantiau fel y dônt yn ddyledus. Caiff unrhyw arian nas tynnwyd i lawr ar ddiwedd y flwyddyn ei gynnwys fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Ceir manylion pellach yn nodyn 9.

#### **f. Cronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol**

Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Fodd bynnag, mae'r gyfran o'r balansau hyn y gellir ei phriodoli i'r Cyngor fel y'i dangosir yn y cyfrifon ar gost amorteiddiedig ac, ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, wedi cael ei hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel cyfran sydd ar gael i'w dosbarthu gan y Cyngor mewn perthynas ag ymrwymadau cyfredol ac yn y dyfodol.

### **g. Pensiynau**

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r cynllun pensiwn yn darparu buddion diffiniedig i gyflogeion y Cyngor. Caiff costau cyfraniadau'r Cyngor eu codi ar y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr fel y gellir lledaenu cost pensiynau dros oes waith y cyflogeion.

Mae'r Cynllun yn gynllun buddion diffiniedig a gyllidir a hefyd yn gynllun cyflogwyr lluosog lle na all y cyflogwyr sy'n cyfranogi nodi eu cyfrannau o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig, yn unol ag IAS 19. Mae'r Cyngor wedi gwneud taliadau i gyllido diffyg sy'n gysylltiedig â gwasanaeth a roddwyd. Os oes angen rhagor o daliadau tuag at y diffyg yn dilyn ailbrisiadau yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn cydnabod darpariaeth ar gyfer gwerth presennol cyfraniadau sy'n daladwy yn unol â thelerau unrhyw gytundeb cyllido perthnasol. Caiff cyfran o'r holl gyfraniadau tuag at y diffyg ei chodi ar y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr.

Mae gan y Cyngor hefyd gynllun cyfraniadau diffiniedig, Pensiwn y Bobl, fel dewis amgen i ddiwallu anghenion deddfwriaeth Cofrestru Awtomatig. Rhoddir cyfrif am y cynllun yn unol ag IAS 19.

### **h. Trethiant**

Caiff Treth Ar Werth nad oes modd ei hadennill sy'n deillio o wariant ei chodi ar y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr neu ei chyfalafu fel ased sefydlog lle y bo'n berthnasol.

### **i. Dosrannu costau rheoli a gweinyddu o'r Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol**

Â'r Cyngor i gostau sy'n cynnal ei weithgareddau cyffredinol a'i swyddogaethau o ran dosbarthu arian y Loteri. Yn unol â'i Gyfarwyddiadau Ariannol, mae'r Cyngor yn dosrannu costau anuniongyrchol yn briodol rhwng y ddau faes gweithgarwch hyn gan gyfeirio at yr amser a dreuliwyd ar y gweithgareddau priodol neu'r adnoddau perthnasol a ddefnyddiwyd ganddynt.

Fel arfer caiff y dosraniadau eu hadolygu pob dwy flynedd a phryd bynnag y bo newid arwyddocaol i strwythur y staff neu'r rhaglenni gweithgarwch.

### **j. Offerynnau ariannol**

Asedau ariannol: Nid yw symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill yn cario unrhyw log a chânt eu datgan ar eu gwerth nominal fel y'i gostyngir gan unrhyw lwfansau colled priodol. Mae arian parod a chyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac arian yn y banc ac arian wedi'i gadw ar adnau tymor byr ar delerau sy'n caniatáu ei gael ar unrhyw adeg.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw symiau masnach sy'n daladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill yn cario unrhyw log a chânt eu datgan ar eu gwerth nominal.

## 2. Costau sy'n cynnal ein gweithrediadau

| a. Rheoli a gweinyddu: Costau staff                       | Cyflwgwyd yn barhaol<br>£'000 | Arall<br>£'000 | 2021/22<br>Cyfanswm<br>£'000 | 2020/21<br>Cyfanswm<br>£'000 |
|---|-------------------------------|----------------|------------------------------|------------------------------|
| Cyflwgau a godwyd ar weithgarwch dosbarthu arian y Loteri | 921                           | 22             | 943                          | 862                          |
| Costau nawdd cymdeithasol                                 | 97                            | 2              | 99                           | 80                           |
| Costau pensiwn eraill                                     | 173                           | 4              | 177                          | 163                          |
|   | <b>1,191</b>                  | <b>28</b>      | <b>1,219</b>                 | <b>1,105</b>                 |

Ceir datgeliadau manylach yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff.

| b. Rheoli a gweinyddu: Costau gweithredu arall                         | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|--|------------------|------------------|
| Costau cysylltiedig â'r staff  | 58               | 35               |
| Seilwaith  | 291              | 327              |
| Costau rhedeg swyddfa  | 8                | 8                |
| Ffioedd proffesiynol ac ymgynghoriaeth                                 | 77               | 57               |
| Hyrwyddo'r Loteri  | 29               | 21               |
| TAW nad oes modd ei hadennill  | 67               | 72               |
| Tâl am ddefnyddio asedau sefydlog                                      | 26               | 29               |
| Cydnabyddiaeth ariannol archwilydd – Archwilio <sup>1</sup>            | 23               | 22               |
| Archwilio mewnol   | 16               | 9                |
| Cyfarfodydd y Cyngor a phwyllgorau, gan gynnwys teithio a chynhaliadau | 0                | 0                |
|  | <b>595</b>       | <b>580</b>       |

<sup>1</sup> Mae'r ffi archwilio am wasanaethau archwilio ac ni ddarparwyd unrhyw wasanaethau anarchwiliadol.

Caiff costau rheoli a gweinyddu eu dosrannu rhwng cyfrifon gweithgareddau cyffredinol a dosbarthu arian y Loteri y Cyngor gan gyfeirio at yr amser a dreuliwyd ar y swyddogaethau priodol neu'r adnoddau perthnasol a ddefnyddiwyd ganddynt. Mae'r cyfraddau a ddefnyddir yn amrywio yn ôl y pennawd gwariant a'r rhanbarth daearyddol ond y ganran a godwyd ar weithgareddau'r Loteri, ar gyfartaledd, oedd 48% (2020/21: 49%).

| c. Gwariant ar y celfyddydau: Costau uniongyrchol rhoi grantiau | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|---|------------------|------------------|
| Ffioedd aseswyr   | 8                | 11               |
| Cymorth Cronfa Gwytnwch   | 1                | 4                |
| TAW nad oes modd ei hadennill                                   | 2                | 3                |
|   | <b>11</b>        | <b>18</b>        |

### 3. Dyfarniadau eraill ym maes y celfyddydau

|   | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|---|------------------|------------------|
| Dyfarniadau <i>Unlimited</i> ar y cyd ag Arts Council England                             | 60               | 60               |
| Dyfarniadau <i>Y Tu Hwnt i Ffiniau</i> ar y cyd â Sefydliad Cymdeithas Hawliau Perfformio | -                | 30               |
|   | <b>60</b>        | <b>90</b>        |

### 4. Cronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol

Caiff gweithgareddau dosbarthu eu hariannu gan dderbyniadau dynodedig o'r Loteri Genedlaethol, a ddelir yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol. Caiff y Gronfa ei gweinyddu gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae gweithredwr y Loteri Genedlaethol yn cyfrifo'r derbyniadau bob blwyddyn fel y nodir yn Nhrwydded y Loteri Genedlaethol. Gwneir taliadau i'r Gronfa bob wythnos ar sail y gwerthiannau a gwobrau gwirioneddol. Caiff canrannau'r derbyniadau sy'n dderbyniadwy i'r Gronfa sydd wedyn yn daladwy i bob corff dosbarthu arian y Loteri eu nodi yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, adrannau 22 a 23 fel y'u diwygiwyd gan Offeryn Statudol 2010 Rhif 2863 'Gorchymyn Dosrannu Arian yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol 2010'. Mae'r Cyngor yn cael 1% o'r holl dderbyniadau blynyddol sy'n dderbyniadwy i'r Gronfa ac mae'n tynnu'r derbyniadau i lawr pan fo angen.

|   | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|---|------------------|------------------|
| Balans a ddaliwyd yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol ar 1 Ebrill  | 22,121           | 18,036           |
| Dyranid arian oddi wrth y Loteri  | 18,078           | 18,138           |
| Incwm buddsoddi derbyniadwy   | 25               | 10               |
| Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn  | (14,059)         | (14,063)         |
| Balans a ddaliwyd yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth | <b>26,165</b>    | <b>22,121</b>    |

Mae'r balans yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth 2022 yn unol â'r Dystysgrif Interim a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

### 5. Symiau masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy

|                                 | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|---------------------------------|------------------|------------------|
| Symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 150              | 150              |
| Grantiau mae modd eu hadennill  | 1                | 1                |
|                                 | <b>151</b>       | <b>151</b>       |

## 6. Symiau masnach sy'n daladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

|   | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|---|------------------|------------------|
| Symiau masnach a symiau eraill sy'n daladwy:                              |                  |                  |
| Symiau masnach sy'n daladwy   | 5                | 2                |
| Yn ddyledus i gyfrif Gweithgareddau Cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru: |                  |                  |
| am gostau a ddosrannwyd <sup>1</sup>                                      | 227              | 177              |
| am daliadau eraill a ailgodwyd  | -                | 8                |
| Croniadau ac incwm gohiriedig   | 23               | 23               |
| <i>Is-gyfanswm: Symiau masnach a symiau eraill sy'n daladwy</i>           | <i>255</i>       | <i>210</i>       |
| Rhwymedigaethau eraill  |                  |                  |
| Dosbarthwyr dirprwyedig <sup>2</sup>                                      | 1,189            | 973              |
| Grantiau (nodyn 7)  | 16,078           | 9,004            |
| <i>Croniadau ac incwm gohiriedig</i>                                      | <i>17,267</i>    | <i>9,977</i>     |
| <i>Is-gyfanswm: Symiau masnach a symiau eraill sy'n daladwy</i>           | <i>17,522</i>    | <i>10,187</i>    |

<sup>1</sup> Mae'r swm sy'n ddyledus i gyfrif Gweithgareddau Cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnwys:

|                              |     |     |
|------------------------------|-----|-----|
| Ailgodi costau a ddosrannwyd |     |     |
| - Staff                      | 144 | 111 |
| - Gorbenion                  | 57  | 37  |
| - Tâl am ddefnyddio asedau   | 26  | 29  |
|                              | 227 | 177 |

<sup>2</sup> Mae'r Cyngor wedi dirprwyo arian y Loteri (nodyn 9) i'r dosbarthwyr canlynol:

|  |       |     |
|--|-------|-----|
| Arian nas tynnwyd i lawr ar 31 Mawrth                              |       |     |
| - Ffilm Cymru Wales (ar gyfer ffilm)                               | 1,152 | 781 |
| - Tŷ Cerdd (ar gyfer cerddoriaeth gymunedol a cherddoriaeth Cymru) | -     | 91  |
| - BBC Wales (ar gyfer datblygu digidol)                            | -     | 85  |
| - Nesta (ar gyfer prosiectau penodol)                              | 6     | -   |
| - Llenyddiaeth Cymru (ar gyfer bwrsariau i awduron)                | 31    | 16  |
|  | 1,189 | 973 |



## 7. Grantiau

|   | £'000<br>Capital | £'000<br>Revenue<br>schemes | 2021/22<br>£'000<br>Total | 2020/21<br>£'000<br>Total |
|---|------------------|-----------------------------|---------------------------|---------------------------|
| Taladwy ar 1 Ebrill                                     | 4,643            | 6,244                       | 10,887                    | 10,570                    |
| Grantiau a roddwyd yn ystod y flwyddyn                  | 5,739            | 15,179                      | 20,918                    | 10,014                    |
| Symiau nas hawliwyd                                     | (75)             | (206)                       | (281)                     | (187)                     |
| A godir ar y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr | 5,664            | 14,973                      | 20,637                    | 9,827                     |
| Grantiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn                   | (1,164)          | (9,867)                     | (11,031)                  | (9,510)                   |
| Taladwy ar 31 Mawrth <sup>1</sup>                       | 9,143            | 11,350                      | 20,493                    | 10,887                    |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn                             | 5,643            | 10,435                      | 16,078                    | 9,004                     |
| Yn ddyledus ar ôl mwy na flwyddyn                       | 3,500            | 915                         | 4,415                     | 1,883                     |
|   | 9,143            | 11,350                      | 20,493                    | 10,887                    |
| <sup>1</sup> Nodi oed y grantiau sy'n daladwy:          |                  |                             |                           |                           |
| 2021/22   | -                | -                           | -                         | 9,004                     |
| 2022/23   | 5,643            | 10,435                      | 16,078                    | 1,860                     |
| 2023/24   | 3,500            | 829                         | 4,329                     | 23                        |
| 2024/25   | -                | 86                          | 86                        | -                         |
|   | 9,143            | 11,350                      | 20,493                    | 10,887                    |

Grantiau a gymeradwywyd ond heb eu cynnig yn ffurfiol ar 31 Mawrth nad ydynt wedi'u cydnabod yn y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

- -

## 8. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

|  | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|--|------------------|------------------|
| Daliwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth mewn:<br>Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 1,801            | 2,143            |

## 9. Dosbarthwyr dirprwyedig y Loteri

Mae gan y Cyngor gytundebau dirprwyo cwbl weithredol ar waith gyda'r cyrff canlynol i ddosbarthu arian y Loteri:

|   | Ffilm Cymru Wales ar gyfer film £'000 | Nesta ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu digidol £'000 | BBC Cymru Wales ar gyfer Gorwelion £'000 | Llenyddiaeth Cymru ar gyfer bwrsariau i awduron £'000 | Tŷ Cerdd ar gyfer cerddoriaeth gymunedol a cherddoriaeth Cymru £'000 | 2021/22 Cyfanswm £'000 | 2020/21 Cyfanswm £'000 |
|---|---------------------------------------|--|--|---|--|------------------------|------------------------|
| Arian nas tynnwyd i lawr ar 1 Ebrill (wedi'i ailddatgan)                          | 866                                   | -  | -  | 16  | 91   | 973                    | 479                    |
| Dirprwywyd am y flwyddyn  | 1,495                                 | 23   | 115                                      | 97  | 155  | 1,885                  | 2,195                  |
|   | 2,361                                 | 23   | 115                                      | 113   | 246  | 2,858                  | 2,674                  |
| Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn  | (1,209)                               | (17)   | (115)                                    | (82)  | (246)  | (1,669)                | (1,701)                |
| Arian nas tynnwyd i lawr ar 31 Mawrth   | 1,152                                 | 6  | -  | 31  | -  | 1,189                  | 973                    |
| Grantiau y cofnodwyd eu bod yn daladwy gan y dosbarthwyr dirprwyedig ar 31 Mawrth | 976                                   | 94   | 1  | 57  | 34   | 1,162                  | 1,471                  |

Ceir rhestri llawn o'r grantiau a weinyddwyd gan y dosbarthwyr dirprwyedig yn ystod 2021/22 yn yr atodiadau i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

## 10. Ased wrth gefn

### Gwerthu'r Parc Olympaidd

Mae hawl gan Ddosbarthwyr Arian y Loteri Genedlaethol i gael cyfran o'r derbyniadau o werthu tir ar Barc Olympaidd y Frenhines Elizabeth yn gyfnewid am eu cyfraniad o £675 miliwn ychwanegol i ariannu Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012. Cyhoeddwyd hyn yn 2007. Mae'r trefniadau wedi'u nodi mewn cytundeb cyfreithiol rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Awdurdod Llundain Fwyaf dyddiedig 29 Mawrth 2012, sy'n nodi dosbarthiad yr arian rhwng yr Awdurdod a Dosbarthwyr Arian y Loteri drwy'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'n debyg y bydd y gwerthiannau tir yn digwydd dros gyfnod hirfaith, yr amcangyfrifir y bydd hyd at 2036/37. Mae Awdurdod Llundain Fwyaf wedi dweud y rhagwelir y bydd y gwerthiannau yn gwneud llai na £200 miliwn ac y bydd y taliadau cyntaf i Ddosbarthwyr Arian y Loteri o 2026/27 ymlaen.

## 11. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

### Awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu ar yr un dyddiad ag yr ardystiodd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol hwy.

## 12. Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7, Financial Instruments: Disclosures, yn ei gwneud yn ofynnol datgelu'r rôl a fu gan offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau mae swyddogaeth y Cyngor yn eu hwynebu wrth gyflawni ei rôl.

Risgiau hylifedd – Yn 2021/22, deilliai £18,078,000 neu 99.1% o incwm dosbarthu arian Loteri'r Cyngor o'r Loteri Genedlaethol (2020/21: £18,138,000 neu 99.7%). O'r incwm sy'n weddill, deilliai £25,000 neu 0.14% o enillion buddsoddi o'r balans a ddaliwyd gyda Chronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol (2020/21: £10,000 neu 0.05%) a £139,000 neu 0.8% o incwm buddsoddi arall ac incwm amrywiol (2020/21: £49,000 neu 0.25%). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei swyddogaeth Dosbarthu Arian y Loteri yn agored i unrhyw risg sylweddol o ran hylifedd, ac mae'n fodlon bod y balans yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol ac arian rhagamcanol oddi wrth y Loteri yn y dyfodol yn ddigonol i gyflawni ei ymrwymadau pendant.

Risgiau cyfraddau llog – Mae asedau ariannol y Loteri wedi'u buddsoddi yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau risg isel megis arian a bondiau'r llywodraeth. Nid oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros fuddsoddi'r arian yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol. Delir yr arian parod a chyfwerth ag arian parod a dynnir i lawr o'r Gronfa i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrif banc cyfradd amrywiol sy'n caniatáu cael yr arian ar unrhyw adeg. Ar gyfartaledd, 0.02% oedd y gyfradd llog yn ystod y flwyddyn (2020/21: 0.15%). Balans yr arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £1,801,000 (2021: £2,143,000). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei swyddogaeth dosbarthu arian y Loteri yn agored i risgiau sylweddol o ran cyfraddau llog.

*Risg arian tramor* – Nid yw swyddogaeth dosbarthu arian Loteri y Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran cyfnewid arian tramor.

*Risg llif arian* – Nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran llif arian.

*Risg credyd* – Nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran credyd.

## 13. Trafodion â phartion cysylltiedig

### Cyrff cyhoeddus

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cyngor.

Ystyrir Senedd Cymru/Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig a rhoddir manylion y trafodion â Senedd Cymru/Llywodraeth Cymru yn y cyfrifon ar wahân sy'n ymdrin â gweithgareddau cyffredinol y Cyngor.

Gweinyddir Cronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a ystyrir yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn ni chafodd y Cyngor unrhyw drafodion perthnasol â'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac eithrio'r rheiny a ddangosir yn y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr.

### Dosbarthwyr dirprwyedig y Loteri

Fel y datgelir yn nodyn 9, dosbarthwyr dirprwyedig arian Loteri'r Cyngor yw Ffilm Cymru Wales, Nesta, BBC Cymru Wales, Llenyddiaeth Cymru a Thŷ Cerdd. Yn ystod y flwyddyn ni chafodd y Cyngor unrhyw drafodion perthnasol â hwy ac eithrio'r rheiny a ddangosir yn y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr.

### Unigolion

Ymgwymerodd aelodau o'r Cyngor, o'r Pwyllgorau, o'r staff neu bartion cysylltiedig eraill (sef perthnasau agos) â thrafodion ariannol (a restrir isod) â'r Cyngor yn ei swyddogaeth fel dosbarthwr arian y Loteri yn ystod y flwyddyn.

Lle roedd yr unigolion a/neu berthnasau agos iddynt yn aelodau o Fyrddau Rheoli (neu eu cyfateb) neu'n uwch gyflogeion mewn sefydliadau a gafodd gynnig grantiau Loteri neu daliadau Loteri eraill gan y Cyngor yn 2021/22, ym mhob achos o'r fath, yn unol â Chod Ymarfer Gorau'r Cyngor, gadawodd yr unigolyn dan sylw unrhyw gyfarfod lle cafwyd trafodaeth neu benderfyniad ynghylch cyllid.

O dan God Ymarfer Gorau'r Cyngor, bernir bod buddiant yn parhau am flwyddyn o leiaf ar ôl i'r unigolyn adael y swydd a greodd y buddiant. Adlewyrchir y polisi hwn yn y datgeliadau canlynol.

Cofnodir trafodion ariannol â'r Cyngor mewn perthynas â'i weithgareddau cyffredinol yn y cyfrifon ar wahân sy'n ymdrin â'r gweithgareddau hynny.

| Aelodau'r Cyngor<br>Rôl | Sefydliad                           | Trafodion<br>2021/22<br>(nifer) | Cyfanswm<br>gwerth<br>2021/22<br>£ | Cyfanswm y<br>balans oedd yn<br>ddyledus ar 31<br>Mawrth 2022 <sup>1</sup><br>£ |
|-------------------------|-------------------------------------|---------------------------------|------------------------------------|---|
| <b>Elen ap Robert</b>   |                                     |                                 |                                    |   |
| Cadeirydd               | Eisteddfod Genedlaethol Cymru       | Grant (1)                       | 75,000                             | 75,000  |
| <b>Devinda De Silva</b> |                                     |                                 |                                    |   |
| Aelod o'r bwrdd         | Dirty Protest                       | Grant (2)                       | 175,339                            | 143,671   |
| Aelod o'r bwrdd         | Disability Arts Cymru               | Grant (2)                       | 222,514                            | 124,279   |
| <b>Andy Eagle</b>       |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth              | Chapter                             | Grant (1)                       | 160,330                            | 84,045  |
| <b>Kate Eden</b>        |                                     |                                 |                                    |   |
| Aelod o'r cyngor        | Prifysgol Aberystwyth               | Grant (0)                       | Dim                                | 2,200   |
| <b>Ruth Fabby</b>       |                                     |                                 |                                    |   |
| Cyflogaeth              | Celfyddydau Anabledd Cymru          | Grant (2)                       | 222,514                            | 124,279   |
| <b>Tafsila Khan</b>     |                                     |                                 |                                    |   |
| Aelod o'r bwrdd         | FIO                                 | Grant (3)                       | 155,391                            | 161,248   |
| Cyflogaeth              | Canolfan Mileniwm Cymru             | Grant (1)                       | 80,000                             | 80,000  |
| Aelod o'r bwrdd         | Taking Flight                       | Grant (1)                       | 13,670                             | 88,643  |
